Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-2025

**Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016**

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Gofal Cymdeithasol Cymru a baratowyd yn unol ag Atodlen 2, Rhan 6 Paragraff 16(1-3) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 ynghyd ag Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru arno ac a osodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) Atodlen 2, Rhan 6 Paragraff 16(4).

# Manylion Cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444
Minicom: 029 2078 0680
E-bost:gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru

**gofalcymdeithasol.cymru**

© 2025 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, na'i storio mewn system adalw na'i drosglwyddo mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylid anfon ymholiadau am atgynhyrchu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a nodir uchod.

# Cynnwys


**Adroddiad Perfformiad . . . . . 4**

**Trosolwg . . . . . 4**

Datganiad gan y Swyddog Cyfrifyddu . . . . . 4

Rôl Gofal Cymdeithasol Cymru - Pwy ydym ni . . . . . 6

Ein gweledigaeth a'n pwrpas . . . . . 6

Y problemau a'r risgiau allweddol a wynebwn . . . . . 7

**Dadansoddiad o Berfformiad . . . . . 8**

**Adroddiad Atebolrwydd . . . . . 30**

**Adroddiad ar Lywodraethu Corfforaethol . . . . . 30**

Adroddiad y Cyfarwyddwyr . . . . . 30

Datganiad o Gyfrifoldebau Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Prif Weithredwr . . . . . 32

Datganiad Llywodraethu . . . . . 33

**Adroddiad ar Gyflogau a Staff . . . . . 51**

Adroddiad ar gyflogau . . . . . 51

Adroddiad staff . . . . . 55

**Atebolrwydd ac Archwilio . . . . . 58**

**Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd . . . . . 59**

**Datganiadau Ariannol . . . . . 63**

**Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr . . . . . 63**

**Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol . . . . . 64**

**Datganiad ar Lifoedd Arian Parod . . . . . 65**

**Datganiad ar Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr . . . . . 66**

**Nodiadau ar y Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 . . . . . 67**

# Adroddiad Perfformiad

## Trosolwg

### Datganiad gan y Swyddog Cyfrifyddu

Mae popeth a wnawn yn canolbwyntio ar wneud gwahaniaeth cadarnhaol ar gyfer gofal a chymorth o ansawdd uchel yng Nghymru. Ni yw'r sefydliad arweinyddiaeth cenedlaethol yng Nghymru ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, sy'n cefnogi gwella gwasanaethau drwy ymchwil a data, a chyflawni gwaith datblygu'r gweithlu ar gyfer y sectorau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar.

Dyma'r wythfed Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a baratowyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru ers ein sefydlu yn 2017. Eleni, fel pob blwyddyn flaenorol, rydym yn falch o fod wedi cyflawni ein rhwymedigaethau statudol yn llawn a darparu cymorth ystyrlon i'r sectorau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar a'r rhai sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Dyma rai o'n meysydd gwaith strategol allweddol rydym wedi canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn:

- buddsoddi dros £13.2m mewn cymorth hyfforddiant a chynlluniau ariannu hir-dymor eraill ar gyfer datblygiad y gweithlu gofal cymdeithasol
- tyfu cofrestr y gweithlu i dros 64,000 o unigolion, gan ganiatáu i ni gyhoeddi data manwl ar weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru
- ymchwilio i faterion difrifol sy'n peri pryder yn ein rôl fel rheoleiddiwr, gan dynnu 40 o bobl o'r sector
- parhau i hyrwyddo a chyflawni'r strategaeth 10 mlynedd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, mewn partneriaeth ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
- lansio Ymlaen, strategaeth sector gyfan ar gyfer arloesi, ymchwil a gwella
- ailadrodd ein harolwg o'r gweithlu gofal cymdeithasol, sef yr arolwg cyntaf o'i fath yn y DU
- buddsoddi mewn rhaglen waith i drawsnewid ein gwasanaethau ar gyfer unigolion sydd wedi'u cofrestru gyda ni.

Mae pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn gwneud mwy na'r disgwyl i ddarparu gwasanaethau sy'n gwella canlyniadau i bobl Cymru. Gan gefnogi unigolion a theuluoedd ym mhob cymuned, mae'r sector gofal cymdeithasol yn amddiffyn plant, oedolion ac oedolion hŷn ac yn eu helpu i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Amcangyfrifir bod 84,134 o bobl yn gweithio yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru, gyda thua 17,500 yn fwy o bobl yn gweithio yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant. Bob dydd, bydd tua 140,000 o blant ac oedolion yn derbyn gwasanaethau gofal a chymorth ledled Cymru, gyda 78,000 o blant eraill yn defnyddio gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru.

Rhaid i ni hefyd barhau i gefnogi'r gweithlu i fod â chymhelliant, i ymgysylltu ac i gael eu gwerthfawrogi gyda'r gallu, y cymhwysedd a'r hyder i ddiwallu anghenion pobl Cymru. Ynghyd â chefnogi'r sectorau hyn yn ystod y cyfnod heriol hwn, rydym wedi parhau i gefnogi dulliau o drawsnewid gofal a chymorth yng Nghymru, fel y nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Rydym wedi parhau i weithio gydag eraill i ddatblygu a chynllunio datblygiad gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar yn y dyfodol i gefnogi gweithredu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, er enghraifft, yn "Cymru Iachach" a'r cynllun gweithlu 10 mlynedd "Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar".

Mae gweithio gydag eraill yn ganolog i'n ffordd o weithio, ac mae partneriaeth wrth wraidd y broses o gyflawni ein cynllun busnes yn 2024-25. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i ddylanwadu'n gadarnhaol ar y gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar i wella canlyniadau i blant, oedolion, teuluoedd a gofalwyr di-dâl sy'n dibynnu ar ofal a chymorth. Cynhyrchir llawer o'n gwaith mewn partneriaeth ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ledled Cymru.

Rydym am barhau â'n taith i ymwreiddio diwylliant o ymgysylltiad gweithredol ar draws ein holl waith fel y gallwn ymateb i anghenion newidiol y sectorau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar. Rydym wedi ymrwymo i wrando ac ymateb i farn ac anghenion oedolion a phlant sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'r rhai sy'n gweithio yn y sector i lywio ein gwaith, drwy weithio gyda sefydliadau ambarél cenedlaethol, comisiynwyr a darparwyr i gipio'r farn honno.

Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i fyw'r bywydau maen nhw eisiau eu byw, gan gefnogi pobl i ddatblygu, parhau'n actif ac annibynnol, cadw'n ddiogel, gyda chysylltiadau da â'u cymuned a rhwydweithiau ehangach. Maent yn gwneud hyn ochr yn ochr â theulu, ffrindiau, gwirfoddolwyr a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae gweithwyr y blynyddoedd cynnar yn helpu i roi dechrau gwych mewn bywyd i'n plant ac yn rhoi cymorth gwerthfawr i rieni.

Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n parhau i wneud popeth a allwn i'r gweithlu, eu cyflogwyr ac arweinwyr strategol a'u helpu i ganolbwyntio ar rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, gofalu amdanynt a'u cefnogi.

Ar 29 Gorffennaf, deuthum yn Brif Weithredwr yn dilyn ymddeoliad Sue Evans. Fel y Prif Weithredwr, rwy'n llofnodi'r cyfrifon hyn fel y Swyddog Cyfrifyddu.

Nawr, yn fwy nag erioed, mae'n hanfodol i mi gymryd yr amser hwn i ddathlu'r gwaith gwych rydym yn gwybod sy'n digwydd ar draws y sector gofal ac i ddweud diolch wrth ein gweithlu a'n gwasanaethau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar ymroddedig.

**Sarah McCarty**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**

**Dyddiad: 28 Gorffennaf 2025**

# Rôl Gofal Cymdeithasol Cymru: pwy ydym ni

- **Datblygu'r gweithlu** fel bod y wybodaeth a'r sgiliau ganddyn nhw i ddiogelu, grymuso a chefnogi'r rhai sydd angen cymorth
- **Gweithio gydag eraill** i wella gwasanaethau
- **Darparu gwybodaeth i'r cyhoedd** a sefydliadau eraill
- **Rhannu arferion da** gyda'r gweithlu fel y gallant ddarparu'r ymateb gorau
- **Gosod blaenoriaethau ar gyfer ymchwil a data** i gael tystiolaeth o beth sy'n llwyddo
- **Pennu safonau** ar gyfer y gweithlu gofal a chymorth, gan eu gwneud yn atebol am eu gwaith

## Ein Gweledigaeth a'n phwrpas

### Ein gweledigaeth

yw gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ofal a chymorth yng Nghymru ar gyfer plant, oedolion a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

### Ein pwrpas

Rydym yn darparu arweinyddiaeth ac arbenigedd cenedlaethol ym maes gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar. Rydym yn arwain ar reoleiddio a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol, gwella gwasanaethau, data ac ymchwil i wella gofal.

# Y problemau a'r risgiau allweddol a wynebwn

Mae gwybodaeth am sut rydym yn rheoli risg a'r prif risgiau a wynebwn i'w gweld yn y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 33.

Ystyriwn mai'r ffactorau sy'n wynebu'r sector gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar yw'r rhai a fydd yn cael y dylanwad mwyaf dros y ffordd rydym yn gweithio a sut rydym yn cyflawni ein gweledigaeth dros y pum mlynedd nesaf, sef:

- recriwtio a chadw staff y sector gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar
- cynnydd mewn costau byw a chynnydd mewn costau eraill (megis cyfraniadau YG cyflogwr) sy'n lleihau capasiti adnoddau mewn marchnad sy'n seiliedig yn bennaf ar gyllid cyhoeddus
- cyflog teg i'r sector gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar, gan nodi'r gwaith sydd ar y gweill yng Nghymru ac yn y DU
- parhau i fod mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol ar wasanaethau cyhoeddus
- y twf parhaus yn y galw am ofal cymdeithasol
- y dirwedd bolisi ansicr, gydag etholiadau'r Senedd yn 2026.
- ymateb y sector gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar i'r argyfwng hinsawdd
- mynediad at ddysgu a phrentisiaethau
- rheolau mewnfudo
- y berthynas rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd.

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae ein Cynllun Busnes ar gyfer 2024-25 yn nodi ein hamcanion strategol, ynghyd â'n gweithgareddau a'n mesurau cyflawni lefel uchel. Gydol y flwyddyn, fe wnaethom ddarparu adroddiadau chwarterol i'n Tîm Rheoli Gweithredol ar y cynnydd roeddem yn ei wneud yn erbyn ein hamcanion strategol, a bydd ein Bwrdd a Llywodraeth Cymru yn craffu arnynt.

Mae'r dadansoddiad o berfformiad hwn yn rhoi cipolwg bach ar y gwaith a wnaed y llynedd o dan ein hwyth canlyniad strategol:

1. Gwella llesiant ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar
2. Gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar sy'n cael ei gydnabod a'i werthfawrogi'n fawr
3. Gwasanaethau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar sy'n denu, recriwtio a chadw pobl â'r gwerthoedd cywir i ddiwallu anghenion y rhai sydd angen gofal a chymorth
4. Gweithlu gofal cymdeithasol cofrestredig sy'n ennyn hyder y cyhoedd
5. Gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar sydd â chymwysterau addas, sy'n wybodus a medrus gyda'r gwerthoedd, yr ymddygiad a'r ymarfer cywir
6. Gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n ymgorffori a chyflwyno dulliau gofal a chymorth seiliedig ar gryfderau
7. Ymarfer a pholisi gofal cymdeithasol wedi'i seilio ar arloesedd, ymchwil, data a mathau eraill o dystiolaeth o ansawdd uchel
8. Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf sy'n effeithiol a chynaliadwy.

Rydym am i'r gweithlu gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant fod â chymhelliant, ymgysylltu a chael eu gwerthfawrogi gyda'r gallu, y cymhwysedd a'r hyder i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl Cymru. Ond mae'r sector gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant yn parhau i wynebu heriau mawr o ran y gweithlu a'r sector cyfan. Mae'n anodd denu pobl i'r sector, recriwtio digon o staff a chadw'r gweithlu presennol.

Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant wedi ymrwymo i gefnogi'r hyn sy'n bwysig i blant, oedolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr ym mhob cymuned yng Nghymru. Mae'r broses o ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol i bobl Cymru yn dibynnu'n llwyr ar ein gweithlu. Mae llesiant y gweithlu yn hynod bwysig, i bobl sy'n darparu gofal a chymorth ac i'r rhai sy'n defnyddio gofal a chymorth. Mae gofal tosturiol ac o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu orau gan unigolion sy'n gadarnhaol am eu rôl a'r sefydliad y maent yn gweithio ynddo. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r sector ac eisiau i lesiant fod wrth wraidd ein cynlluniau ar gyfer y gweithlu.

Fel sefydliad arweinyddiaeth cenedlaethol, rydym wedi parhau i weithio gyda sefydliadau cenedlaethol gydol y flwyddyn i ddylanwadu ar ddatblygiad polisi cenedlaethol ac wrth ymateb i'r heriau sy'n wynebu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar. Mae gennym nifer o raglenni gwaith hirdymor (5-10 mlynedd) sy'n edrych ar wneud newid cadarnhaol i heriau hirdymor yn y sector. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar weithgareddau a gyflawnwyd yn ystod 2024-25 i gefnogi'r rhaglenni gwaith hynny.

Mae rhagor o fanylion am ein gwaith yn www.gofalcymdeithasol.cymru

# Gwella llesiant ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar

## Cydweithio ar gyfer Cymru iachach: ein strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol

Law yn llaw ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), fe wnaethom gyhoeddi'r blaenoriaethau ar gyfer ail gam 'Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol'.

Amlinellir y blaenoriaethau hyn yn y cynllun ar y cyd "Gweithio gyda'n Gilydd" sy'n cyd-fynd â Chynllun Cyflawni'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol 2024 i 2027 a Chynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu: Mynd i'r afael â heriau gweithlu GIG Cymru. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni'r cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol.

## Cynllun newydd i fynd i'r afael â heriau'r gweithlu gofal cymdeithasol

Fe wnaethom lansio'r cynllun cyflawni gweithlu gofal cymdeithasol 2024 i 2027. Mae'r cynllun cyflawni yn nodi'r camau gofal cymdeithasol ar gyfer Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol hyd at 2027, a lansiwyd yn 2020 ac sy'n nodi ein nodau ar gyfer y gweithlu dros 10 mlynedd.

Mae'r cynllun cyflawni yn adeiladu ar gynnydd strategaeth y gweithlu ers 2020. Mae'n cynnwys camau gweithredu yn seiliedig ar yr adborth a glywsom yn ystod ein gwaith ymgysylltu, yr ymgynghoriad a'r arolwg gweithlu. Mae'r cynllun cyflawni uchelgeisiol hwn wedi'i gadeirio ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac yn cael ei lywodraethu gan grŵp rhanddeiliaid sy'n cynrychioli'r sector. Bydd yn caniatáu i ni barhau i weithio gyda'n gilydd, yn y tymor byr a'r tymor hir, ar yr hyn sydd angen ei wneud i fynd i'r afael â heriau'r gweithlu a chefnogi'r gweithlu a'u llesiant wrth iddynt ddarparu cymorth o ansawdd.

## Dweud eich Dweud 2024: Canlyniadau'r arolwg

Ym mis Hydref 2024, fe wnaethom gyhoeddi canlyniadau ein harolwg 'Dweud Eich Dweud' 2024. Rhwng Ionawr a Chwefror 2024, cymerodd 5,024 o bobl mewn amrywiaeth o swyddi ar draws gofal cymdeithasol ran yn ein harolwg gweithlu blynyddol. Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg yn cynnwys 3,307 o weithwyr gofal, 838 o weithwyr cymdeithasol, 461 o reolwyr a 418 o swyddi eraill. Fe wnaethom ofyn i weithwyr gofal cymdeithasol ddweud wrthym am eu hiechyd a'u llesiant, eu cyflog a'u hamodau, a beth maen nhw'n ei hoffi am weithio yn y sector. Mae'r adroddiad llawn ar gael mewn fformatau PDF a Microsoft Word. Fe wnaethom lunio adroddiad byr hefyd sy'n darparu crynodeb o'r canfyddiadau y gellir ei lawrlwytho fel dogfen PDF neu Microsoft Word. Mae adroddiadau byr ar gael hefyd ar gyfer y tri grŵp swyddi canlynol:

- gweithwyr gofal
- gweithwyr cymdeithasol
- rheolwyr.

Fe wnaethom lansio arolwg 2025 ym mis Ionawr 2025 a byddwn yn cyhoeddi'r canfyddiadau ym mis Hydref.

## Datblygu mentrau Llesiant

Rydym wedi ymrwymo i wella llesiant y gweithlu, sef un o brif amcanion y strategaeth gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd. Eleni, daeth dros 570 o bobl i'n gweithdai, hyfforddiant a digwyddiadau, gan gynnwys dros 300 i'n digwyddiadau Wythnos Llesiant a oedd yn cynnwys pynciau megis teimlo'n seicolegol ddiogel yn y gwaith: sicrhau bod polisïau'r gweithle yn cefnogi llesiant a chodi llais yn ddiogel.

Fe wnaethom gyflwyno mewn nifer o sioeau teithiol a digwyddiadau, gan gynnwys rheolwyr, cyflogwyr, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a chydweithwyr iechyd i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith. Cawsom 4,764 o ymweliadau ar draws ein tudalennau gwe ac, erbyn hyn, mae gennym dros 200 o aelodau ar ein rhwydwaith llesiant, sy'n cael gwybodaeth gennym yn rheolaidd am lesiant y gweithlu.

## Adnodd i gyflogwyr sydd â staff sy'n newydd i weithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru

Ym mis Mawrth, fe wnaethom gyhoeddi canllawiau ac adnoddau newydd i gyflogwyr i helpu eu staff sy'n newydd i weithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru. Gwyddom fod niferoedd uwch o bobl, tan yn ddiweddar, yn symud i Gymru i ddarparu gofal a chymorth hanfodol i'r bobl sy'n byw yma. Mae llawer o bobl yng Nghymru yn dibynnu ar y gofal a'r cymorth hwn, ac rydym yn croesawu ac yn gwerthfawrogi'r gweithwyr profiadol hyn.

Mae'r canllaw newydd hwn yn cynnwys fideos am ofal cymdeithasol yng Nghymru, gwybodaeth am y Gymraeg a diwylliant Cymru ac adnoddau i gefnogi llesiant staff.

# Gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar sy'n cael ei gydnabod a'i werthfawrogi'n fawr

## Darparu arweinyddiaeth a dylanwadu ar grwpiau rhanddeiliaid

Gydol y flwyddyn, fe wnaethom barhau i ddarparu arweinyddiaeth a dylanwad mewn amrywiaeth eang o grwpiau rhanddeiliaid cenedlaethol. Er enghraifft, rydym wedi bod wrthi'n cefnogi gwaith Llywodraeth Cymru yn datblygu Fframwaith Tâl a Dilyniant y Fforwm Gwaith Teg (Cyflog Byw Gwirioneddol). Byddwn yn adolygu ein cyfrifoldebau rhanddeiliaid a rhwydwaith yn ystod 2025-26 i sicrhau ein bod yn parhau i hyrwyddo'r sector gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar mewn grwpiau polisi a gwneud penderfyniadau cenedlaethol.

## Gwobrau Gofal Cymdeithasol 2024

Mae'r Gwobrau'n cydnabod, yn dathlu ac yn rhannu'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud ym maes gofal cymdeithasol a gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Y Gwobrau yw ein ffordd ni o daflu goleuni ar y gwaith amhrisiadwy hwnnw a'r bobl ysbrydoledig hynny sy'n gwneud iddo ddigwydd - ac yn hollbwysig, i ddweud diolch iddynt am bopeth maen nhw'n ei wneud.

## Gwobr Gofalu trwy'r Gymraeg 2024 - gweithwyr sy'n darparu gofal a chymorth rhagorol drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r wobr Gofalu trwy'r Gymraeg yn cydnabod ac yn dathlu gweithwyr sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl drwy ddarparu gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg. I bobl sy'n dewis siarad Cymraeg, mae cael gofal a chymorth gan rywun sy'n gallu siarad eu hiaith yn rhan bwysig o gael gofal urddasol o ansawdd uchel. Yn ogystal â rhoi sylw i'r gweithwyr hynny sy'n darparu gofal rhagorol drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r wobr yn codi ymwybyddiaeth hefyd o'r angen am fwy o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg i weithio ym maes gofal.

## Wythnos Gwaith Cymdeithasol 2025

Rhwng 17 a 21 Mawrth 2025, fe wnaethom ddathlu Wythnos Gwaith Cymdeithasol. Rhoddodd gyfle i ni nodi'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud ledled y wlad a diolch i weithwyr gwaith cymdeithasol proffesiynol gweithgar. Bob dydd ledled Cymru, mae gweithwyr gwaith cymdeithasol proffesiynol yn dangos eu hymroddiad i gefnogi a grymuso pobl sy'n profi heriau cymhleth ac a allai fod yn wynebu risg uwch o niwed. Roedd digwyddiadau'r wythnos yn canolbwyntio ar dair prif thema:

1. cryfhau ein cysylltiadau proffesiynol
2. cynnal ein hunaniaeth gwaith cymdeithasol
3. cefnogi ein llesiant yn y gwaith.

## Datblygu ein gwasanaeth i gefnogi cyflogwyr

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwasanaeth i gefnogi cyflogwyr. Drwy'r gwasanaeth hwn, rydym wedi cymorth uniongyrchol â 176 o unigolion o 124 o sefydliadau. Mae hyn wedi bod drwy ddigwyddiadau amrywiol, yn y cnawd ac ar-lein. Mae'r adborth a ddaeth i law wedi dweud wrthym fod unigolion yn teimlo bod y sesiynau hyn yn ddefnyddiol ac y byddent yn eu hargymell i gydweithwyr. Gan weithio gydag asiantaethau cyflogaeth, rydym wedi gofyn i gyflogwyr beth fyddai'n ddefnyddiol iddynt a byddwn yn ceisio cyflawni rhywfaint o hyn yn 2025-26 fel y gallwn sicrhau bod ein gwaith yn cael effaith barhaus ar y cyflogwyr rydym yn gweithio gyda nhw.

## Cyfres Cipolwg ar y Gweithlu – briffiau sy'n tynnu sylw at lais gweithwyr gofal cymdeithasol

Fe wnaethom greu ein set flynyddol gyntaf o friffiau ysgrifenedig, sy'n crynhoi ac yn tynnu sylw at wybodaeth allweddol am y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Nod y briffiau yw helpu llunwyr polisi, cyflogwyr a phartneriaid i gynllunio a gwneud penderfyniadau gwybodus.

Fe wnaethom archwilio dau faes i gefnogi datblygiad gweithlu awyddus, brwdfrydig ac iach.

- Gwella telerau ac amodau ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru
- Gwerthfawrogi gwaith gofal cymdeithasol.

# Gwasanaethau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar sy'n denu, recriwtio a chadw pobl â'r gwerthoedd cywir i ddiwallu anghenion y rhai sydd angen gofal a chymorth

## Gofalwn Cymru

Prif rôl a ffocws Gofalwn Cymru yw codi proffil cadarnhaol ac ymwybyddiaeth o waith cymdeithasol, gofal cymdeithasol, gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar. Eleni, mae gennym ystod eang o ymgyrchoedd sy'n tynnu sylw at; Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar; Gofal Cartref ac Ailalluogi; Gofal Plant Preswyl, Gwirfoddoli a Gwaith Cymdeithasol. Fe wnaethom gefnogi'r Wythnos Prentisiaethau Cenedlaethol hefyd a cheisio ehangu ymwybyddiaeth bellach o rolau gofalu drwy fathodyn cymunedol cyntaf Gofalwn Cymru gyda Girlguiding Cymru. Yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol, canolbwyntiodd Gofalwn Cymru ar bwysigrwydd a gwerth y Gymraeg mewn gofal:

> "Mae siarad yn iaith gyntaf rhywun yn meithrin cysylltiad emosiynol dyfnach, sy'n arbennig o bwysig mewn lleoliadau gofal lle mae empathi a dealltwriaeth yn allweddol."
>
> **Ymwelydd yn yr Eisteddfod**

Yn ystod y flwyddyn, edrychodd dros 67,000 o bobl ar wefan Gofalwn Cymru ac ymwelwyd â'r wefan 222,000 o weithiau; ymgysylltwyd â'r sianeli cyfryngau cymdeithasol 154,000 o weithiau; hyrwyddwyd 3,629 o swyddi ar y porth swyddi a chliciwyd 10,098 o weithiau ar swyddi gwag. Ar draws y sianeli cyfryngau cymdeithasol, rydym wedi gweld dros 150,000 o ymgysylltiadau gyda phostiadau a gafodd eu rhannu a nifer y dilynwyr yn tyfu i dros 10,000.

## Rhaglenni hyfforddi rhagarweiniol

Rydym yn cynnal rhaglenni Cyflwyniad i hyfforddiant gofal cymdeithasol a Cyflwyniad i hyfforddiant gofal plant. Nod y rhain yw cefnogi codi ymwybyddiaeth o'r sectorau gofal cymdeithasol a gofal plant a helpu i gynghori pobl ar ddechrau eu gyrfa mewn gofal cymdeithasol neu ofal plant, gan gynnwys gwneud cysylltiadau â chyflogwyr lle mae swyddi gwag yn bodoli.

Yn ystod 2024-25, cwblhaodd 1,266 o unigolion un o'r rhaglenni: yn ogystal â 3,054 o bobl ifanc yn mynychu rhaglenni coleg.

## Canllaw newydd i wella recriwtio a chadw mewn gofal cymdeithasol

Fe wnaethom gyhoeddi canllaw newydd sydd â'r nod o gefnogi cyflogwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru i wella recriwtio a chadw. Mae'r canllaw hwn yn rhad ac am ddim ac mae'n cynnwys cyngor ar bethau fel y ffordd orau o ddenu pobl i weithio yn y sector a gwneud i staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ar ôl iddynt ymuno.

Fe wnaethom greu'r canllaw fel rhan o ddarn ehangach o ymchwil a oedd yn archwilio sut y gallwn fynd i'r afael â'r heriau gweithlu sy'n wynebu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

## Adnoddau fideo newydd i helpu i adeiladu gwell dealltwriaeth o ofal cymdeithasol yng Nghymru

Gyda mwy na 75 o rolau swyddi mewn gofal cymdeithasol, a'r sector yn cyflogi degau o filoedd o weithwyr proffesiynol, weithiau mae'n gallu bod yn anodd esbonio'r term 'gofal cymdeithasol' gan fod ein sector yn cwmpasu cymaint o feysydd a gweithgareddau. Dyna pam y gwnaethom greu dau fideo byr a syml i helpu i esbonio beth mae 'gofal cymdeithasol' yn ei olygu mewn gwirionedd. Gellir defnyddio'r rhain i godi ymwybyddiaeth o'r sector a'i werth yn ein cymunedau.

## Darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol

Drwy'r fwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol, fe wnaethom gefnogi 118 o fyfyrwyr newydd i gael bwrsariaeth yn 2024-25. Mae hyn yn ychwanegol at 218 o fyfyrwyr adnewyddu a ddilynodd gyrsiau yn 2024-25.

Fe wnaethom gyhoeddi adroddiad newydd ar brofiad a llais dysgwyr ar gyrsiau gwaith cymdeithasol a reoleiddir, gan ddangos i ni sut y gallwn sicrhau ansawdd cyrsiau gwaith cymdeithasol yn well yng Nghymru.

# Gweithlu gofal cymdeithasol cofrestredig sy'n ennyn hyder y cyhoedd

Er mwyn amddiffyn y cyhoedd, cynnal safonau proffesiynol a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn gofal cymdeithasol, mae angen i'n rheolau ar gyfer Cofrestru, Addasrwydd i Ymarfer a Gwrandawiadau fod yn addas i'r diben. Felly, rydym yn eu monitro'n rheolaidd ac yn hunanasesu yn erbyn 'Safonau Rheoleiddio Da' yr Awdurdod Safonau Proffesiynol. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu ein hamcanion, newidiadau cyfreithiol a chymdeithasol a'r twf yn ein Cofrestr. Fe wnaethom ddiweddaru saith set o reolau yn 2024 a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i fireinio ein fframwaith cyfreithiol i'n helpu ni i amddiffyn y cyhoedd yn well a chynnal safonau mewn gofal cymdeithasol.

## Cynnal Cofrestr gywir o weithwyr gofal cymdeithasol

Mae cofrestru'n rhan o'n hymrwymiad parhaus i amddiffyn y cyhoedd yn barhaus wrth ddatblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol a chodi statws gweithwyr. Rydym yn cydnabod yr angen i sicrhau bod gennym weithlu digonol sy'n barod i ymateb i heriau newydd, gyda'r sgiliau a'r hyder priodol i ymarfer. Mae ein Cofrestr yn parhau i dyfu ac, ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd dros 64,000 o unigolion arni. Bydd hyn yn golygu y bydd y rhan fwyaf o'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru'n cael ei reoleiddio.

Daeth cofrestru Rheolwyr Preswyl Ysgolion Arbennig yn orfodol ar 1 Ebrill. Erbyn hyn, mae gan bob un o'r pedwar gwasanaeth reolwr cofrestredig. Agorodd y Gofrestr ar gyfer Gweithwyr Preswyl Ysgolion Arbennig ar 1 Ebrill, gyda chofrestru'n dod yn orfodol erbyn 30 Medi 2026.

## Ystadegau'r Gweithlu Cofrestredig

# Penawdau'r gweithlu


**Cyfanswm y gweithwyr cofrestredig**

**64,215K**



**Newid dros y 12 mis diwethaf**

**+3.2K**



## Addasrwydd i Ymarfer

Rhan ganolog o'n swyddogaeth reoleiddio yw sicrhau bod y rhai sy'n darparu gofal cymdeithasol yn gymwys ac yn ddiogel i ymarfer. Mae hyn yn gofyn am broses Addasrwydd i Ymarfer effeithiol ac effeithlon.

Yn ystod 2024-25, cawsom 746 o atgyfeiriadau ac agorwyd 323 o'r atgyfeiriadau hyn fel achosion a chynhaliwyd 219 o wrandawiadau. Fe wnaethom dynnu cyfanswm o 40 o bobl o'r Gofrestr am resymau addasrwydd i ymarfer. Tynnwyd 36 o'r rhain mewn gwrandawiad addasrwydd i ymarfer a thynnwyd 4 drwy gytundeb. Sicrhaodd hyn na allai'r unigolion hyn weithio yn ein sector mwyach.

Rhwng Tachwedd 2024 ac Ionawr 2025, fe wnaethom gynnal ymgyrch recriwtio ar gyfer aelodau newydd o'r panel ac, erbyn diwedd mis Mawrth, roeddem wedi recriwtio 85 o aelodau lleyg ac aelodau gofal cymdeithasol newydd.

Mae'r Codau Ymarfer Proffesiynol yn set o reolau, neu safonau, y mae'n rhaid i weithwyr gofal proffesiynol weithio iddynt i helpu i gadw unigolion sy'n defnyddio gofal a chymorth yn ddiogel ac yn iach.

Ar hyn o bryd, rydym yn gwneud newidiadau i'n codau ymarfer gan nad ydynt wedi'u diweddaru ers 2017, ac ers hynny mae nifer y gweithwyr gofal rydym yn eu cofrestru wedi tyfu o 11,000 i fwy na 60,000 o bobl. Yn 2023-24, fe wnaethom siarad â mwy na 300 o bobl sy'n gweithio ym maes gofal yng Nghymru i ganfod eu barn am ein codau ymarfer. Fe wnaethant ddweud wrthym eu bod am i ni eu gwneud yn fyrrach ac yn symlach, fel y gallai ein gweithwyr gofal ddeall yn well beth mae disgwyl iddynt ei wneud, ac fel y gall unigolion sy'n defnyddio gofal a chymorth a'u teuluoedd wybod beth i'w ddisgwyl gan weithwyr gofal.

Yn seiliedig ar yr adborth hwn, fe wnaethom ofyn i bobl sy'n gweithio yn y sector, ein partneriaid, pobl sy'n cael gofal a chymorth, gofalwyr di-dâl, y cyhoedd ac unrhyw un arall sydd â diddordeb ddweud wrthym beth maen nhw'n ei feddwl am ein newidiadau i'r codau ymarfer.

Byddwn yn dadansoddi canlyniadau'r ymgynghoriad ac yn gwneud y newidiadau i'r Codau ar gyfer ail-lansio'r Codau wedi'u diweddaru yn 2026.

## Ymgynghoriad ar ganllawiau ymarfer

Wrth i ni ddiweddaru ein Codau Ymarfer Proffesiynol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a chyflogwyr i sicrhau eu bod mor glir a hawdd eu defnyddio â phosibl, rydym yn gwella ac yn diweddaru'r canllawiau ymarfer sy'n gysylltiedig â'r Codau hefyd. Byddwn yn trefnu cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ym mis Mai 2025 i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Yn ystod 2024-5, fe wnaethom weithio gyda chynrychiolwyr o'r sector gofal cymdeithasol hefyd i ddatblygu cynllun newydd ar gyfer y wefan y mae pobl gofrestredig yn ei defnyddio ar gyfer eu cyfrifon. Mae hi bellach yn haws i bobl ei defnyddio, yn enwedig os ydych chi'n defnyddio ffôn symudol.

# Gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar sydd â chymwysterau addas, sy'n wybodus a medrus gyda'r gwerthoedd, yr ymddygiad a'r ymarfer cywir

## Buddsoddi yn y gweithlu

Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn cefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol, fel bod ganddynt yr wybodaeth, y sgiliau, y ddealltwriaeth a'r agwedd briodol i ddarparu gofal a chymorth da. Roedd hyn yn cynnwys £7,640,051 a dalwyd i awdurdodau lleol drwy Grant Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP), a darparwyd £3,274,308 o gyllid cyfatebol gan awdurdodau lleol.

## Rheoli'r broses ar gyfer cyhoeddi Tystysgrifau Prentisiaeth drwy Ardystio Prentisiaethau Cymru (ACW)

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi prosesu 4,244 o dystysgrifau prentisiaeth, gyda phob un wedi'u hardystio o fewn 10 diwrnod gwaith.

## Cynnal fframweithiau sefydlu, cymwysterau a phrentisiaethau ar gyfer y sector gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i ddarparu cymorth i gyflogwyr a darparwyr dysgu gyda'r broses o barhau i weithredu fframwaith sefydlu a chymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar. Mae hyn wedi cynnwys cynnal sesiynau ymgysylltu helaeth gyda chyflogwyr ac ymarferwyr, a fynychwyd gan dros 1,450 o bobl. Fel rhan o'n gwelliant parhaus, fe wnaethom lansio sgwrsfot cymwysterau newydd hefyd. Nod y sgwrsfot yw helpu defnyddwyr i lywio'r gofynion cymwysterau a'r prosesau ar gyfer eu rolau.

Fe wnaethom lansio fframwaith sefydlu newydd ar gyfer rheolwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant hefyd yn seiliedig ar weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithlu gofal plant proffesiynol, hynod fedrus. Mae'r fframwaith yn adnodd ar gyfer cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Er mwyn parhau i gefnogi unigolion i ennill cymwysterau ymarfer, fe wnaethom greu Canllawiau newydd i helpu rheolwyr i gefnogi gweithwyr gofal plant preswyl nos, cefnogi'r rhai sy'n astudio ar gyfer y cymhwyster Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc).

Mae proses Asesu Cywerthedd Cymwysterau (QEA) wedi'i sefydlu hefyd i ddarparu proses gadarn, gyson a theg i bobl sy'n dymuno gweithio yng Nghymru ond sydd â chymwysterau nad ydynt wedi'u pennu yn ein fframwaith cymwysterau fel yr argymhellir neu fel sy'n ofynnol ar gyfer ymarfer a/neu gofrestru.

## Adolygiad o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSC) a Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYCC).

Mae Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) yn feincnodau arfer da. Maent yn disgrifio'r hyn y dylai gweithwyr mewn unrhyw alwedigaeth allu ei wneud, y safon y dylent ei chyflawni a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt wrth gyflawni swyddogaeth yn y gweithle.

Ar hyn o bryd, rydym yn rhan o weithgor partneriaeth yn y DU a sefydlwyd i adolygu cyfanswm o 212 SGC ar draws HSC ac EYCC, a bydd y gyfres newydd o SGC yn cael ei chadarnhau ym mis Rhagfyr 2025.

## Adnodd hyfforddi Grŵp B newydd ar gael

I gyd-fynd â'r wythnos ddiogelu genedlaethol, fe wnaethom gyhoeddi pecyn hyfforddi newydd ar gyfer pobl yng Ngrŵp B o'r *Safonau hyfforddi, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol* i helpu hyfforddwyr i sicrhau bod eu hyfforddiant o ansawdd uchel ac yn gyson.

## Cefnogi Mwy na Geiriau

Rydym am helpu i roi'r hyder i bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol ddiwallu anghenion Cymraeg y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae gweithlu dwyieithog yn golygu y gall unigolion fynegi eu hunain yn eu dewis iaith, sy'n ein galluogi i fynd at wraidd y mater yn fwy effeithiol a chyfforddus.

Ym mis Mawrth 2025, fe wnaethom gynnal ein cynhadledd Gymraeg gyntaf mewn gofal cymdeithasol, ar y thema 'Iaith, urddas a gofal', i ddathlu gwaith ysbrydoledig, rhannu arfer da, clywed am yr adnoddau a'r cymorth sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau i ddarparu gofal cymdeithasol rhagorol drwy gyfrwng y Gymraeg. Fe wnaethom barhau i adeiladu cwrs Cymraeg ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, ac mae Sylfaen, yr ail fodiwl yn y cwrs, yn barod i ddysgwyr ei gwblhau.

Mae'n canolbwyntio ar y geiriau a'r ymadroddion Cymraeg y mae gweithwyr fwyaf tebygol o fod eu hangen pan fyddant yn cyfathrebu â'r bobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r modiwl Sylfaen yn adeiladu ar y modiwl lefel Mynediad ac yn addysgu holl batrymau sylfaenol y Gymraeg. Mae 687 o unigolion wedi'u cofrestru ar y cwrs Camau.

# Gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n ymwreiddio a chyflwyno dulliau gofal a chymorth seiliedig ar gryfderau

## Adnodd hyfforddi newydd ar gyfer arwain ansawdd gydag ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau

Fe wnaethom greu adnodd fideo newydd sy'n esbonio sut y gall pobl mewn lleoliadau cofrestredig wella ansawdd gan ddefnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau. Mae'n addas i unrhyw un sy'n gweithio mewn lleoliad cofrestredig. Bydd yn helpu Unigolion Cyfrifol, rheolwyr cofrestredig a goruchwylwyr i gyflawni eu dyletswyddau statudol a sicrhau bod dinasyddion yn cael canlyniadau gwell.

## Arweinyddiaeth dosturiol

Eleni, fe wnaethom ddatblygu a chyflwyno ein sesiynau Cyflwyniad i Arweinyddiaeth Dosturiol, a gyflwynwyd ar-lein ac yn y cnawd i dros 300 o bobl. Dywedodd dros 99% o'r rhai a ddarparodd adborth eu bod wedi dysgu rhywbeth y gallent ei ddefnyddio yn y gweithle, gyda thros 180 o enghreifftiau wedi'u rhoi.

'Byddwn yn argymell y sesiwn hon i'r holl weithlu gofal cymdeithasol, diolch'.

## Rhaglenni datblygu arweinyddiaeth

Fe wnaethom gyflwyno sesiynau pwrpasol i sawl awdurdod lleol ac amrywiaeth o gyflogwyr gofal cymdeithasol. Fe wnaethom fynychu sesiynau diwedd carfan ar gyfer rhaglenni arweinyddiaeth gwaith cymdeithasol ôl-gymhwyso, Rhaglen Datblygu Rheolwyr Tîm (TMDP) a Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol (MMDP), lle clywsom adborth cadarnhaol a'r mwyafrif helaeth yn argymell y rhaglenni i eraill. Pasiodd 32 o fyfyrwyr TMDP eleni (2 garfan) a phasiodd 13 o fyfyrwyr MMDP, gydag adborth cadarnhaol ar draws y ddwy raglen.

## Arwain yn y ffordd iawn: Cyflwyno ein cynnwys arweinyddiaeth dosturiol newydd

Ym mis Mehefin, fe wnaethom gyhoeddi canllawiau newydd sy'n esbonio beth yw arweinyddiaeth dosturiol, a sut y gallwch ddefnyddio'r egwyddorion i helpu i greu diwylliant cadarnhaol gydag arweinwyr – hyd yn oed os nad yw pobl mewn rôl reoli.

## Cefnogi'r gwaith o drawsnewid Gwasanaethau Plant gyda phartneriaid

Rydym wedi darparu cyfleoedd dysgu i gefnogi datblygu'r gweithlu a dulliau therapiwtig. Rydym wedi bod yn profi, gyda 3 tîm awdurdod lleol, cynnig dysgu tîm PACE ('Playfulness, Acceptance, Curiosity ac Empathy').

Yn dilyn yr ymgynghoriad therapiwtig cychwynnol, roedd adborth yn cynnwys y canlynol, *'mae'r sesiwn yn wirioneddol graff ac yn cysylltu ymddygiad y plant â thrawma yn y gorffennol.'*

# Ymarfer a pholisi gofal cymdeithasol wedi'i seilio ar arloesedd, ymchwil, data a mathau eraill o dystiolaeth o ansawdd uchel

## Ymlaen - y strategaeth ymchwil, arloesi a gwella newydd

Fe wnaethom lansio Ymlaen, ein strategaeth ymchwil, arloesi a gwella newydd. Nod y strategaeth yw creu diwylliant lle mae tystiolaeth yn gwneud cyfraniad allweddol at ddarparu gofal cymdeithasol, a lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u hysbrydoli i roi cynnig ar bethau newydd.

Ynghyd â'n partneriaid, rydym am greu amgylcheddau cynhwysol a hygyrch lle mae ymchwil a thystiolaeth yn helpu i lywio ac ysbrydoli'r broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel. Rydym am i bobl sy'n arwain, datblygu a darparu gofal cymdeithasol deimlo'n hyderus yn defnyddio tystiolaeth ac arloesi i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ofal a chymorth yng Nghymru.

## Y Grŵp Gwybodaeth - ein gwasanaeth ymchwil, data, arloesi a gwella newydd ar gyfer gofal cymdeithasol

Fe wnaethom lansio gwasanaeth ymchwil, data, arloesi a gwella newydd ar gyfer gofal cymdeithasol o'r enw Y Grŵp Gwybodaeth. Drwy'r gwasanaeth hwn, byddwn yn darparu mynediad at yr ymchwil a'r data diweddaraf, canllawiau ar hyfforddiant, cyfleoedd i weithio gyda'n gilydd a chyngor ar y cymorth sydd ar gael.

## Cipolwg ar y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru

Fe wnaethom ofyn i awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau annibynnol anfon data atom ar niferoedd a nodweddion eu gweithlu fel rhan o'n gwaith o gasglu data blynyddol ar y gweithlu a chyhoeddi adroddiad am y canlyniadau. Rydym yn defnyddio'r data hefyd i gynhyrchu erthyglau a chynnwys cysylltiedig am wahanol agweddau ar ein canfyddiadau drwy Borth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru.

## Adroddiad sy'n argymell camau i wella aeddfedrwydd data gofal cymdeithasol

Fe wnaethom gyhoeddi adroddiad sydd wedi amlinellu'r camau y dylid eu cymryd i gefnogi awdurdodau lleol yng Nghymru i wella eu parodrwydd i wneud y gorau o'r data sydd ganddynt.

Canfu'r ymchwil fod data'n cael ei ystyried yn flaenoriaeth graidd i awdurdodau lleol, tra bod an y rhan fwyaf brosesau casglu data cadarn ar waith a'u bod yn defnyddio data i ddylanwadu ar y broses o lunio polisïau. Ond nododd yr adroddiad feysydd i'w gwella hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i gynyddu sgiliau ac adnoddau i fanteisio'n llawn ar ddata gofal cymdeithasol, gwneud systemau data'n haws eu defnyddio ac yn gydnaws, a sicrhau bod data'n cael ei rannu'n effeithiol â sefydliadau eraill.

## Adnodd newydd i helpu i ganfod, casglu, rhannu a defnyddio tystiolaeth

Ym mis Medi, fe wnaethom lansio canllaw, a oedd ar wefan DEEP yn flaenorol, i helpu'r gweithlu gofal cymdeithasol i fodloni gofynion adrodd y Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol.

## Pennu blaenoriaethau ymchwil – pontio o ofal cymdeithasol plant i ofal cymdeithasol oedolion

Fe wnaethom gynnal ymarfer pennu blaenoriaethau ymchwil i wybod mwy am y rhwystrau, y problemau a'r ansicrwydd a grëwyd gan y pontio o gymorth gofal cymdeithasol plant i gymorth gofal cymdeithasol oedolion. Roedd hyn yn golygu gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion iau sy'n cael mynediad at ofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill. Fe wnaethom gyhoeddi ein 10 blaenoriaeth ymchwil ym mis Awst 2024.

## Offeryn am ddim i ddeall potensial digidol yn well

Fe wnaethom ddatblygu offeryn i roi darlun mwy cyflawn i bobl o'u sgiliau a'u galluoedd digidol eu hunain a sgiliau a galluoedd digidol eu sefydliad. Mae'r offeryn potensial digidol yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio, ac mae pob darparwr gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gallu cael mynediad ato. Bydd yr offeryn yn dangos i bobl eu cryfderau digidol a'u meysydd i'w gwella ac yn tynnu sylw at adnoddau defnyddiol i gefnogi eu datblygiad digidol. Bydd yr offeryn yn rhoi cipolwg i ni hefyd o'r sefyllfa ledled Cymru, a byddwn yn rhannu hyn mewn adroddiad cenedlaethol yn ddiweddarach yn 2025.

## Adnodd sgiliau ymchwil, arloesi a gwella

Ym mis Mawrth, fe wnaethom lansio adnoddau i gefnogi datblygiad sgiliau ymchwil, arloesi a gwella ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol. O'n hymchwil, fe ddysgon ni fod rhwystrau i ymchwil, arloesi a gwella, megis diffyg amser neu ganfyddiad y gallai datblygu sgiliau yn y meysydd hyn fod yn gymhleth ac yn anodd.

"Syml, defnyddiol, mewn un lle - i'r rhai sy'n brin o amser."

**(Cyfranogwr mewn profion defnyddwyr)**

"Rydw i wedi cael cyfle i archwilio'r safle, ac mae'n rhaid i mi ddweud, mae'n edrych yn wych! Mae'r cynllun yn glir, ac mae'r adnoddau'n ymddangos yn hynod werthfawr."

**Rheolwr**

## Cymunedau ymarfer

Rydym yn parhau i gynnal ein cymunedau ymarfer. Mae'r cymunedau hyn yn dwyn ynghyd ymarferwyr gofal cymdeithasol, arloeswyr a phobl sydd â phrofiad bywyd i greu'r egni a'r momentwm ar gyfer newid. Mae'r cymunedau'n cyfarfod ar-lein ac yn y cnawd, tra gall aelodau gysylltu drwy blatfform ar-lein hefyd. Mae gennym y cymunedau gweithredol canlynol:

1. Cymuned gofal sy'n seiliedig ar le
2. Cymuned modelau newydd o ofal preswyl
3. Cymuned dystiolaeth
4. Cymuned Unigolion Cyfrifol

## Hyfforddiant am ddim i arddangos yr offer a'r technegau rydym yn eu defnyddio i gefnogi arloesi mewn gofal cymdeithasol

Fe wnaethom greu rhaglen hyfforddi a fydd yn rhoi trosolwg i bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol o'r cymorth arloesi rydym yn ei gynnig, yn ogystal â chyflwyno adnoddau arloesi a hyfforddi amrywiol y gall pobl eu defnyddio gyda'u sefydliad eu hunain. ?

# Rydym yn darparu gwasanaethau effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel.

## Aelodau Newydd o'r Bwrdd

Fe wnaethom groesawu 11 aelod newydd o'r Bwrdd, ar ôl iddynt gael eu penodi gan Lywodraeth Cymru. Dechreuodd Abyd Quinn-Aziz, Aaron Edwards, Einir Hinson, Mark Roderick, Sarah Zahid a Kieran Harris yn eu rolau newydd ym mis Ebrill 2024 a byddant yn aros yn aelodau tan fis Mawrth 2028.

Bydd Dr Edwin Mutambanengwe, Katija Dew, Dr Odosamawen Progress Igbedion, Isobel Lloyd a Sue Phelps yn ymuno â'n Bwrdd o fis Ebrill 2025 tan fis Mawrth 2029. O gronfa gychwynnol o 86 o ymgeiswyr, maent yn cyfrannu amrywiaeth eang o sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau. Mae rhai yn gweithio'n uniongyrchol ym maes gofal cymdeithasol, tra bod eraill yn dod â sgiliau busnes ac arwain neu mae ganddynt brofiad personol fel defnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol. Ym mis Ionawr 2025, penododd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol Neil Ayling i'n Bwrdd o fis Ebrill 2025 ymlaen.

Mae ein Bwrdd newydd yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, gydag aelodau o wahanol gefndiroedd ethnig, rhywedd, oedrannau a galluoedd corfforol.

## Arweinyddiaeth newydd

Ymddeolodd Sue Evans CBE o Gofal Cymdeithasol Cymru ar 26 Gorffennaf 2024. Sue Evans oedd ein Prif Weithredwr ers 2016, gan helpu i sefydlu'r sefydliad, a lansiwyd yn 2017, gan adeiladu ar sylfeini cadarn Cyngor Gofal Cymru. Penodwyd Sarah McCarty yn Brif Weithredwr o 29 Gorffennaf 2024. Penodwyd Lisa Trigg i rôl Cyfarwyddwr Trawsnewid a Datblygu'r Gweithlu.

## Ein cynllun marchnata a chyfathrebu

Rydym wedi datblygu a chyhoeddi ein cynllun marchnata a chyfathrebu lefel uchel pum mlynedd. Mae'r cynllun yn nodi pum amcan ar gyfer ein gwaith marchnata a chyfathrebu y byddwn yn gweithio tuag ato dros y pum mlynedd nesaf, gyda'r nod o gyflawni ein gweledigaeth o fod yn feiddgar, yn rhagweithiol ac yn gynhwysol.

## Cynllunio ariannol a chyllidebol

Fe wnaethom barhau i gynllunio a monitro ein hadnoddau ariannol yn ofalus, gan geisio alinio rhagolygon un flwyddyn a thair blynedd.

## Strategaeth llety

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom gwblhau'r adolygiad o gapasiti ein swyddfa, a lleihau'r capasiti yn unol â hynny. Fe wnaethom leihau capasiti ein swyddfa yng Nghaerdydd 50% a symud ein swyddfa yn y Gogledd i swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno.

## Ein staff

Ar 31 Mawrth 2025, roedd gennym 240 o aelodau staff a chroesawyd 12 o ddechreuwyr newydd i'r sefydliad yn ystod y flwyddyn.

- trosiant staff o 7.32% (targed i aros yn is na 15%) – fe wnaeth 17 o bobl ein gadael eleni
- ein cyfradd absenoldeb ar gyfer eleni yw **3.5%** neu **2.41%** os ydym yn diystyru absenoldebau salwch hirdymor. Mae hyn yn cyfateb i **7.88 diwrnod** a gollwyd fesul gweithiwr, neu **5.41 diwrnod** heb gynnwys absenoldebau salwch hirdymor.
- mae gan 89% o'n staff ryw lefel o sgiliau Cymraeg
- lansio cynllun Gwerthuso Swyddi newydd
- Datblygu cynllun cyflawni Iechyd a Llesiant, a dechrau ei roi ar waith
- Datblygu a chyflwyno rhaglen o hyfforddiant rheolwyr llinell
- cyfradd llwyddiant recriwtio o 95%
- gwelliant mewn cyfraddau cwblhau e-ddysgu corfforaethol.

# Themâu trawsbynciol

Mae ein Cynllun Busnes 2024-25 yn nodi manylion ar bynciau penodol ar draws ein gwaith. Mae'r adran isod yn nodi'r hyn a gyflawnwyd yn y meysydd hyn:

# Cenedlaethau'r Dyfodol

O 30 Mehefin 2024, daethom o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddwn yn gweithio ar ddatblygu ein hamcanion llesiant fel rhan o ddatblygu ein Cynllun Strategol yn y dyfodol o 2027 ymlaen. Rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein gwaith yn unol â'r 7 nod llesiant a'r 5 ffordd o weithio a nodir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Isod rydym wedi rhoi enghreifftiau o sut mae ein gwaith yn 2024-25 gyda'r sector gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar yn dangos sut rydym yn gweithio yn unol â'r Ddeddf:

## Hirdymor

Mae ein cynllun strategol yn pennu'r canlyniadau tymor hwy rydym yn gobeithio eu cyflawni, tra bod ein cynllun busnes blynyddol yn nodi'r gweithgareddau a'r allbynnau rydym yn eu cyflawni i gefnogi dyheadau tymor hwy. Mae un enghraifft yn ymwneud â chyflawni camau gweithredu o'r Strategaeth Gweithlu, cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, gweithlu gofal uniongyrchol a'r cynllun gweithlu ar gyfer gwaith cymdeithasol, sy'n dangos sut rydym yn cydbwyso anghenion byrdymor gyda'r anghenion i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd. Mae enghreifftiau eraill o sut rydym yn gweithio i sicrhau dyfodol cynaliadwy yn cynnwys:

- cefnogi arweinyddiaeth a chynllunio ar gyfer olyniaeth i ddatblygu arweinwyr y dyfodol mewn gofal cymdeithasol
- archwilio rôl trawsnewid digidol mewn gofal cymdeithasol, i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn addas i'r dyfodol
- cryfhau'r gweithlu gofal cymdeithasol i gefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant a lleihau'r galw am wasanaethau ymyrraeth yn y dyfodol
- ystyried effaith newid hinsawdd a chynaliadwyedd yn y sector i sicrhau gwydnwch hirdymor
- hyrwyddo modelau cynaliadwy ar gyfer gofal cymdeithasol sy'n cydbwyso pwysau uniongyrchol â sefydlogrwydd hirdymor y gweithlu
- cefnogi iechyd meddwl a llesiant meddyliol y gweithlu i leihau straen, diffygiad a throsiant staff.

## Integreiddio

Un enghraifft o integreiddio yw'r gwaith rydym yn ei gyflawni gyda Llywodraeth Cymru, Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ADSS Cymru ac eraill i ddarparu Gwaith Teg ar gyfer y sector gofal cymdeithasol, sy'n cefnogi'r uchelgais am Gymru Decach. Mae enghreifftiau eraill o integreiddio yn cynnwys:

- sicrhau bod ein polisïau'n ategu strategaeth Cymru Iachach Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau gwasanaethau cymdeithasol ehangach
- gweithio i gefnogi'r Cyflog Byw Gwirioneddol mewn gofal cymdeithasol, gan gefnogi cynaliadwyedd economaidd a'r gweithlu
- alinio ein strategaethau cynllunio'r gweithlu gyda phartneriaid ar draws iechyd, addysg a'r trydydd sector i sicrhau dull cydweithredol
- cefnogi diogelu i wella diogelwch a llesiant y rhai sy'n manteisio ar ofal a chymorth
- datblygu data integredig drwy ein system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid i sicrhau bod cynllunio'r gweithlu yn cael ei lywio gan dystiolaeth.

## Cyfranogiad

Un o'r ffyrdd rydym yn gwella'r ffordd rydym yn cynnwys pobl yw drwy ein harolwg blynyddol o'r gweithlu, sy'n cipio adborth gan y gweithlu cofrestredig am eu llesiant, eu proffiliau, eu heriau a'u dyheadau. Bydd hyn yn ein galluogi i fesur pa mor dda mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru ac yn darparu tystiolaeth i lywio gweithgareddau denu, recriwtio a chadw. Mae ffyrdd eraill rydym yn cryfhau cyfranogiad yn cynnwys:

- ymgysylltu ag unigolion sydd â phrofiad bywyd o ofal cymdeithasol, yn enwedig y rhai o grwpiau nodweddion gwarchodedig, i lywio'r gwaith o lunio polisi a gwneud penderfyniadau
- ymwreiddio ymgynghori ac ymchwil defnyddwyr yn ein gwaith datblygu polisi, gan sicrhau bod gweithwyr gofal, rheolwyr a defnyddwyr gwasanaethau yn llywio ein gwaith
- cryfhau ymgysylltiad â phobl sydd â diddordeb mewn gyrfaoedd gofal cymdeithasol
- cefnogi dwyieithrwydd, gan sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cyfrannu'n llawn at ymgynghoriadau ac arolygon gweithlu
- gweithio'n agos gyda chyflogwyr a darparwyr i sicrhau bod strategaethau'r gweithlu'n briodol
- cael adborth gan bobl gofrestredig ar ein gwasanaethau a'n systemau.

## Cydweithio

Mae ein strategaeth Ymlaen yn nodi sut y byddwn yn sefydlu dull ymchwil, arloesi a gwella sy'n canolbwyntio ar gydweithio. Mae cytuno ar flaenoriaethau gyda'n gilydd wedi ein helpu i benderfynu ble y dylem ganolbwyntio ein hymdrechion ar y cyd. Mae enghreifftiau eraill o gydweithio yn cynnwys:

- ein rôl o fewn y Fforwm Gwaith Teg, gan weithio gyda phartneriaid i wella cyflog, amodau a chyfleoedd gyrfa mewn gofal cymdeithasol
- gweithio gyda sefydliadau addysg i wella hyfforddiant, cymwysterau a llwybrau gyrfa
- cydweithio â phartneriaid i gynhyrchu tystiolaeth a dealltwriaeth sy'n cefnogi cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau
- cefnogi hyfforddiant a datblygiad proffesiynol, gan ddod â gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar ynghyd i rannu arferion gorau.

## Atal

Ymgyrch ddenu Gofalwn Cymru, y porth swyddi a'r cymorth a ddarparwn i gyflwyno pobl i'r sectorau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar yw rhai o'r ffyrdd rydym yn ceisio cynnal y gweithlu presennol a denu newydd-ddyfodiaid. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod digon o weithlu i ddiwallu anghenion gofal pobl ac, yn ei dro, cefnogi llesiant ac annibyniaeth dinasyddion. Mae ffyrdd eraill rydym yn canolbwyntio ar atal yn cynnwys:

- hyrwyddo llesiant y gweithlu i leihau straen, gwella cyfraddau cadw ac atal prinder staff yn y dyfodol
- cefnogi ymyrraeth gynnar mewn gofal cymdeithasol drwy sicrhau bod y gweithlu wedi'i hyfforddi i nodi a mynd i'r afael â phroblemau cyn iddynt waethygu
- annog camu ymlaen mewn gyrfa drwy gyfleoedd datblygiad proffesiynol, gan helpu i atal diffyg twf y gweithlu
- mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn recriwtio a chamu ymlaen mewn gyrfa i sicrhau gweithlu amrywiol a chynrychiadol
- buddsoddi mewn datblygu arweinyddiaeth i atal bylchau sgiliau yn y dyfodol mewn rolau rheoli a gwneud penderfyniadau
- cefnogi'r sector i fabwysiadu camau arloesol digidol a thechnolegol i wella effeithlonrwydd a darpariaeth gwasanaethau.

**Sut rydym yn gweithio**

O ran sut rydym yn gweithio, rydym wedi:

- cynhyrchu canllawiau i'n staff ar sut i ddangos y pum ffordd o weithio drwy ein gwaith
- datblygu a chryfhau ein Hasesiad o'r Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol a'r canllawiau cysylltiedig ar gyfer staff
- dangos sut rydym yn gweithio ac yn gwneud penderfyniadau yn unol â'r Ddeddf drwy ein hadroddiadau a'n hastudiaethau achos rydym wedi'u defnyddio fel sail i'r sylwebaeth hon
- gweithio gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar ein dull gweithredu yn y dyfodol
- rhoi cynnig ar y gwiriwr cynnydd Ffyrdd o Weithio Cenedlaethau'r Dyfodol
- amlinellu'r camau sydd eu hangen i ni weithredu gofynion y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael a chyflwyno amlinelliad y gofynion hyn i'n Bwrdd ym mis Mawrth 2025.

## Y Gymraeg

Rydym yn gweithio ledled Cymru i ymwreiddio'r Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar a gofal plant, fel y gall unigolion gael mynediad at y gofal y maent yn ei haeddu a'i angen. Mae ein gwaith gyda'r sector gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar yn rhan o'r rhaglen Mwy na Geiriau: cynllun y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol a'r strategaeth Cymraeg 2050.

Ar gyfer 2024-25, rydym wedi:

- datblygu a hyrwyddo adnoddau hyfforddi i gefnogi'r gweithlu i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg ac i gefnogi gweithio'n ddwyieithog
- datblygu a defnyddio astudiaethau achos i rannu arfer da
- hyrwyddo adnoddau i gefnogi cyflogwyr i asesu sgiliau Cymraeg staff yn seiliedig ar ddarllen, ysgrifennu, siarad a deall
- cefnogi cyflogwyr i ddatblygu cynlluniau gweithlu Cymraeg
- datblygu a hyrwyddo modiwlau e-ddysgu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i ddysgu mwy am y Gymraeg, diwylliant Cymru a gweithio'n ddwyieithog
- gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i hyrwyddo 'Gwiriwr Lefel' ar gyfer y sector gofal cymdeithasol
- parhau i ddatblygu a hyrwyddo'r cyrsiau Cymraeg Camau sydd wedi'u llunio'n benodol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol.

Mae rhagor o fanylion am y gwaith hwn yn:
https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/defnyddior-gymraeg-yn-y-gweithle

**Sut rydym yn gweithio**

Mae gennym Strategaeth iaith sy'n nodi sut y byddwn yn gweithio yn y sefydliad. Nod ein Strategaeth iaith yw nid yn unig cydymffurfio â'r gofyniad deddfwriaethol i ddarparu gwasanaeth Cymraeg, ond hefyd cynnig dewis iaith yn rheolaidd i bawb sy'n cysylltu â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Nid yw ein hymrwymiad i amgylchedd gwaith lle nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn cael eu trin yn fwy ffafriol na'r llall yn cael ei sbarduno gan y safonau ond gan y diwylliant, y gwerth a'r arweinyddiaeth yn ein sefydliad a ddangosir gan yr holl staff ar bob lefel. Rydym yn darparu amgylchedd sy'n meithrin ac yn datblygu staff i ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg. Mae ein hadroddiad sicrwydd blynyddol, sy'n dangos yr hyn rydym wedi'i wneud yn 2024-25, i'w weld yn: https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/beth-rydym-yn-ei-wneud

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym wedi ymrwymo i fod yn sefydliad gwrth-wahaniaethu, gan fynd ati'n weithredol i fynd i'r afael â rhagfarn a rhwystrau i'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

Yn 2024-25 rydym wedi:

- cyhoeddi, ar y cyd â Llywodraeth Cymru a GIG Cymru, adroddiad gofal cymdeithasol cyntaf Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu https://gofalcymdeithasol.cymru/ymchwil-a-data/safon-cydraddoldeb-hil-y-gweithlu
- cefnogi mwy o bobl o leiafrifoedd ethnig i ddod yn arweinwyr gofal cymdeithasol drwy gynnal sesiynau grŵp cynghori arbenigol, i ddefnyddio'r hyn rydym wedi'i ddysgu i helpu i lywio rhaglenni arweinyddiaeth gofal cymdeithasol sy'n deg i bobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Dyma gam nesaf ein gwaith i gefnogi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru ac i ddatblygu arweinwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru yn y dyfodol. Rydym am sicrhau bod unrhyw raglenni datblygu arweinyddiaeth yn y dyfodol yn gynaliadwy ac yn gyfiawn ac yn deg yn hiliol i'r holl arweinwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru yn y dyfodol
- datblygu adnoddau ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar i sicrhau bod gwrth-wahaniaethu, tegwch, cydraddoldeb, hygyrchedd a chynhwysiant yn ganolog i'w gwaith
- hyrwyddo ein hadnoddau a'n cynigion llesiant, a gwella mynediad atynt, i gefnogi llesiant y gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar.

**Sut rydym yn gweithio**

Rydym yn gweithio i sicrhau bod cydraddoldeb, hygyrchedd a chynhwysiant yn ganolog i sut rydym yn gweithio. I'n staff, mae hyn yn golygu ein bod wedi:

- darparu adnoddau hyfforddi a dysgu i gynyddu gwybodaeth a sgiliau ein staff. Rydym wedi darparu rhaglen newid diwylliannol ar gyfer datblygu asesiadau mwy effeithiol o'r effaith ar gydraddoldeb
- hyrwyddo cyfleoedd i'n helpu i recriwtio gweithlu mwy amrywiol
- gwella sut rydym yn asesu effaith ein gwaith drwy wella'r broses o asesu'r effaith ar gydraddoldeb.

Mae rhagor o wybodaeth am sut rydym yn gweithio ar gael yma: https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/beth-rydym-yn-ei-wneud

## Llywodraethu Gwybodaeth

Fel rhan o'n gwaith gwella, mae gennym gasgliad o brosiectau sy'n gysylltiedig â data. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu strategaeth data gofal cymdeithasol ar gyfer Cymru a gweithgarwch i gefnogi'r broses o rannu a defnyddio data wrth wella darpariaeth gofal cymdeithasol, ymchwil a datblygiad polisi. Ochr yn ochr â hyn, mae gan Lywodraeth Cymru raglen waith uchelgeisiol ar y gweill ym maes iechyd a gofal, dan arweiniad 'Cymru Iachach'. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys cam gweithredu i sefydlu Adnodd Data Cenedlaethol (NDR) sy'n caniatáu rhannu gwybodaeth ar raddfa fawr yn ddiogel ac yn briodol. Mae'r Strategaeth Ddigidol i Gymru yn cyfeirio at Addewid Data ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru hefyd sy'n nodi sut y bydd y gwasanaethau hyn yn defnyddio'r data y maent yn ei gasglu wrth ddarparu iechyd a gofal i ddarparu gwasanaethau integredig o ansawdd uchel.

Rydym eisiau tirwedd data iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd sy'n darparu data defnyddiol a chyson i sefydliadau allweddol ym maes iechyd a gofal. Rydym am barhau i edrych ar ffyrdd y gallwn wella'r ffordd rydym yn defnyddio data gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys sut mae'r data hwnnw'n cael ei rannu. Yn 2024-25, rydym wedi:

- cefnogi pob awdurdod lleol yng Nghymru i ddeall sut y gallant wneud y defnydd gorau o'r data

sy'n cael ei gasglu, ei brosesu a'i rannu fel rhan o'u darpariaeth gofal cymdeithasol.

- diweddaru'r porth data a'r adnoddau cysylltiedig gyda golwg newydd a mwy o nodweddion i gefnogi pobl yn eu gwaith
- edrych ar aeddfedrwydd digidol gofal cymdeithasol i ganolbwyntio'n agosach ar y sgiliau a'r gallu ym maes gofal cymdeithasol i wneud y defnydd gorau o atebion a thechnolegau digidol
- gweithio gydag Awdurdodau Lleol i'w cefnogi i ddefnyddio'r Porth Llywodraethu Gwybodaeth a fydd yn darparu canllawiau a ffurflenni clir i'w cefnogi i reoli Llywodraethu Gwybodaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn ar gael yn: https://socialcare.wales/research-and-data/data-maturity-assessment

**Sut rydym yn gweithio**

Mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod gennym y safonau a'r ffyrdd cywir o weithio i gefnogi sut rydym yn rheoli'r adnodd gwybodaeth a'r cynhyrchion (data a gwybodaeth) sydd gennym i wneud ein gwaith. Rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb i gydymffurfio â deddfwriaeth llywodraethu gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018, o ddifrif. I adeiladu ar sut rydym yn gweithio, yn 2024-25, rydym wedi:

- parhau i ddarparu hyfforddiant, ymwybyddiaeth ac arweiniad i staff ar sut rydym yn rheoli data'n ddiogel
- cynnal achrediadau allanol gydag ISO27001 ar ddiogelwch gwybodaeth a Hanfodion Seiber Plws
- datblygu camau gweithredu, argymhellion a dysgu o ddigwyddiadau ac archwiliadau Llywodraethu Gwybodaeth
- cymryd camau i sicrhau ein bod yn gweithio yn unol â deddfwriaeth dda ac arfer da.

## Ein cynllun gweithredu carbon sero net 2030 (datgarboneiddio)

Rydym wedi datblygu ein cynllun gweithredu carbon sero net 2030 i nodi sut y gallwn leihau ein hôl troed carbon. Rydym yn cefnogi Llywodraeth Cymru hefyd i wireddu ei map llwybr datgarboneiddio gofal cymdeithasol tuag at sero net erbyn 2030.

**Sut rydym yn gweithio**

O ran y ffordd rydym yn gweithio, rydym wedi:

- datblygu ein hadroddiadau ôl troed carbon i asesu ein heffaith a'n meysydd ar gyfer gweithgarwch lleihau carbon ac addasu yn y dyfodol i gefnogi cyflawni ein cynllun lleihau carbon
- sicrhau ein bod yn blaenoriaethu ystyried effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd ar lefel bwrdd ac uwch arweinwyr
- gwireddu ein hadolygiad llety a fydd yn lleihau ein hôl troed carbon cysylltiedig
- archwilio ymhellach bolisïau amgylcheddol ein cyflenwyr o fewn ein gweithgareddau caffael
- bod yn dryloyw yn ein hadroddiadau, gan ddarparu adroddiad blynyddol ar ein cynnydd
- parhau i ymwreiddio ein dull o ymdrin ag elfennau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn ein gweithgareddau caffael drwy strategaeth gaffael ddiwygiedig.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith yn y maes hwn ar gael yn: https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/ein-hymrwymiad-i-fod-yn-sero-net-o-ran-carbon-erbyn-2030

# Ein dull gweithredu ar gyfer 2025–26

Byddwn yn mynd i mewn i'n pedwaredd flwyddyn o gyflawni yn erbyn ein Cynllun Strategol pum mlynedd. Mae'r Cynllun Strategol yn nodi ein huchelgais a'r gwahaniaethau a'r newidiadau yr hoffem eu gweld. Mae'r newidiadau hyn yn dibynnu nid yn unig ar Gofal Cymdeithasol Cymru, ond hefyd ar waith llawer o sefydliadau, pob un â'i gylch gwaith a'i gyfrifoldebau ei hun. Ond hefyd, mae angen i ni ddeall, ac egluro, ein rôl wrth gyflwyno'r newidiadau hyn.

Byddwn yn parhau i flaenoriaethu gweithgareddau sy'n cefnogi ein 8 canlyniad cenedlaethol gyda ffocws penodol ar gyflawni ein tair blaenoriaeth allweddol:

1. Strategaeth y gweithlu
2. Ymlaen
3. Rheoleiddio ar gyfer Gwella

Bydd ein Cynllun Busnes 2025-27 yn egluro manylion ein gwaith. Byddwch yn gallu darganfod mwy am ein gwaith ac effaith ein gwaith drwy ein hadroddiad effaith blynyddol ar gyfer 2024-25 a fydd ar ein gwefan: https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni

# Adroddiad Atebolrwydd

# Adroddiad ar Lywodraethu Corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Hanes a Chefndir Statudol

Cafodd Cyngor Gofal Cymru ei ailenwi'n Gofal Cymdeithasol Cymru yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu (Cymru) 2016, a'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn fydd yr wythfed i'w baratoi fel Gofal Cymdeithasol Cymru. Paratowyd dau ar bymtheg o Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon blaenorol fel Cyngor Gofal Cymru.

Paratowyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon o dan Atodlen 2, Rhan 6, Paragraff 16(1-3) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru 2016; fe'i cyflwynir ar ffurf a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth Trysorlys EF.

### Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 26 Gorffennaf 2024 oedd Sue Evans. Sarah McCarty oedd y Prif Weithredwr o 29 Gorffennaf 2024 ymlaen.

### Aelodau Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru

Ar 31 Mawrth 2025, roedd 15 o aelodau gan gynnwys y Cadeirydd a benodwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Daeth tymor chwe aelod i ben ar 31 Mawrth 2025.

### Aelodau sy'n gwasanaethu o 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 25

**Aelodau**

Mick Giannasi - Cadeirydd (tymor yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 2027)

Aaron Edwards (tymor yn dod i ben ar 31 Mawrth 2028)

Abigail Harris (daeth ei thymor i ben ar 31 Mawrth 2025)

Abyd Quinn Aziz (tymor yn dod i ben ar 31 Mawrth 2028)

Carl Cooper (daeth ei dymor i ben ar 31 Mawrth 2025)

Einir Hinson (tymor yn dod i ben ar 31 Mawrth 2028)

Emma Britton (daeth ei thymor i ben ar 31 Mawrth 2025)

Grace Quantock (daeth ei thymor i ben ar 31 Mawrth 2025)

Helen Mary Jones (tymor yn dod i ben ar 30 Ebrill 2026)

Joanne Kember (daeth ei thymor i ben ar 31 Mawrth 2025)

Kieran Harris (tymor yn dod i ben ar 31 Mawrth 2028)

Mark Roderick (tymor yn dod i ben ar 31 Mawrth 2028)

Sarah Zahid (tymor yn dod i ben ar 31 Mawrth 2028)

Simon Burch (daeth ei dymor i ben ar 31 Mawrth 2025)

Trystan Pritchard (tymor yn dod i ben 30 Mehefin 2027)

Yn ogystal, mae dau aelod annibynnol arall a benodwyd ar 1 Mawrth 2023 gyda'u tymor yn dod i ben ar 31 Mawrth 2027. Nhw yw Abhisek Vyas, yr Arweinydd Seiberddiogelwch, a Heikki Doyle, yr Arweinydd Cyllid.

Mae cofrestr o fuddiannau datganedig yr aelodau ar gael ar ein gwefan, https://socialcare.wales/

Yn unol ag arferion gorau a chyfarwyddyd, sefydlodd Gofal Cymdeithasol Cymru Bwyllgor Archwilio a Risg adeg ei greu. Daw'r aelodau o blith Aelodau'r Bwrdd ynghyd ag aelodau annibynnol ac aelodau cyfetholedig. Mae cynrychiolwyr archwilio mewnol ac allanol a'r Tîm Rheoli Gweithredol yn mynychu'r cyfarfodydd.

# Datganiad o Gyfrifoldebau Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Prif Weithredwr

O dan Atodlen 2,Rhan 6 Paragraff 16(1-2) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf addas ac ar y sail a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth Trysorlys EF.

Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Gofal Cymdeithasol Cymru ar ddiwedd y cyfnod, ac o'i incwm a'i wariant a'i lifoedd arian parod am y cyfnod.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn benodol:

- dilyn y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- ffurfio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol
- paratoi datganiadau ariannol ar sail busnes byw, oni bai ei bod yn amhriodol cymryd yn ganiataol y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn parhau i weithredu.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar ran Gweinidogion Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru. Nodir ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys priodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdanynt, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau Gofal Cymdeithasol Cymru, yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Rwy'n cadarnhau, hyd y gwn i, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwybod amdani a fy mod wedi cymryd pob cam i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod yr archwilwyr yn gwybod am yr wybodaeth honno.

Rwy'n cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon fel cyfanrwydd yn deg, cytbwys a dealladwy ac yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu eu bod yn deg, cytbwys a dealladwy.

**Sarah McCarty**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 28 Gorffennaf 2025

# Datganiad llywodraethu

Dyma ddogfen sy'n dweud pa brosesau a gweithdrefnau sydd gennym ar waith i ni wneud ein gwaith yn dda ac yn effeithiol fel Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae ein datganiad llywodraethu'n nodi pa strwythurau, prosesau, polisïau a systemau sydd gennym ar waith. Bydd yn rhoi eglurhad i chi o lywodraethu corfforaethol a rheoli risg, ynghyd â disgrifiad o'r risgiau strategol a wynebwyd gennym yn 2024-25.

Nodir fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu yn y Fframwaith Llywodraethu Enghreifftiol. Mae'n nodi'r fframwaith eang yr ydym yn gweithio oddi mewn iddo ac yn manylu ar y telerau ac amodau y mae Aelodau o'r Senedd yn darparu Cymorth Grant i Gofal Cymdeithasol Cymru oddi tanynt.

Mae'r datganiad llywodraethu hwn yn nodi:

- y sail dros ein sefydlu
- y ffordd rydym yn cael ein llywodraethu a'n rheoli
- sut rydw i, fel y Swyddog Cyfrifyddu, yn atebol am yr hyn a wnaf.

## Ein sefydliad

Rydym yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu ein bod ni'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i gwblhau blaenoriaethau penodol, a nodir yn flynyddol mewn llythyr cylch gwaith.

Fe'n sefydlwyd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ym mis Ebrill 2017 "i barhau â'r gwaith a wnaed cyn hynny gan Gyngor Gofal Cymru, sef rheoleiddio a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol, ac ar yr un pryd ymgymryd â chyfrifoldeb newydd dros arwain a chefnogi gwelliant ar draws y sector. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau o gyflwyno data a thystiolaeth, cynghori ar flaenoriaethau ar gyfer ymchwil gofal cymdeithasol a chefnogi ac arddangos ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth."

Dyma fy natganiad llywodraethu cyntaf fel y Swyddog Cyfrifyddu ar ôl ymddeoliad fy rhagflaenydd, Sue Evans, ym mis Gorffennaf 2024. Ymgymerais â hyfforddiant swyddog cyfrifyddu ym mis Rhagfyr 2024 i'm paratoi ar gyfer y rôl newydd hon.

Mae fy natganiad llywodraethu wedi'i ysgrifennu yng nghyd-destun ein strategaeth 5 mlynedd 2022-27 a'n hwyth canlyniad cenedlaethol. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Gwella llesiant ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar
- Gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar sy'n cael ei gydnabod a'i werthfawrogi'n fawr
- Ymarfer a pholisi gofal cymdeithasol wedi'i seilio ar arloesedd, ymchwil, data a mathau eraill o dystiolaeth o ansawdd uchel
- Gweithlu gofal cymdeithasol cofrestredig sy'n ennyn hyder y cyhoedd
- Gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar sydd â chymwysterau addas, sy'n wybodus a medrus gyda'r gwerthoedd, yr ymddygiad a'r ymarfer cywir
- Gwasanaethau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar sy'n denu, recriwtio a chadw pobl â'r gwerthoedd cywir i ddiwallu anghenion y rhai sydd angen gofal a chymorth
- Gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n ymwreiddio a chyflwyno dulliau gofal a chymorth seiliedig ar gryfderau
- Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf sy'n effeithiol a chynaliadwy.

Ar gyfer pob canlyniad cenedlaethol, rydym yn esbonio yn ein strategaeth 5 mlynedd pam ei bod yn bwysig, sut y byddwn yn dangos newid a ble y byddwn yn canolbwyntio ein hegni a'n hymrwymiad i weithio gyda chi dros y pum mlynedd nesaf i wireddu ein gweledigaeth. Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi adroddiad effaith ar ein cynnydd yn erbyn cyflawni'r canlyniadau hyn.

Mae ein cynllun busnes blynyddol yn esbonio'n fanylach y gweithgareddau a nodwyd gennym i gefnogi'r sector a'n sefydliad yn ystod 2024-25. Mae hyn wedi cynnwys ffocws ar y themâu trawsbynciol 'cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant' ar draws pob agwedd ar ein gwaith. Gallwch gyfeirio'n ôl at dudalen xx am ein gwaith ar hyn fel sefydliad. Roedd y Bwrdd a Llywodraeth Cymru yn monitro a chraffu ar ein perfformiad drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys drwy gyfarfodydd chwarterol ffurfiol.

## Ymarfer gwrando'r Bwrdd

Yn ogystal â'm hymarfer gwrando, cynhaliodd y Bwrdd ei ymarfer gwrando blynyddol gyda staff yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2025. Mynychodd Cadeirydd y Bwrdd, gydag ychydig o aelodau'r Bwrdd, gyfarfodydd adrannol i gynnal sgwrs ddwyffordd gyda staff. Roedd ffocws y sesiynau eleni yn dilyn cyfnod o newid sylweddol i'r sefydliad; Prif Swyddog Gweithredol newydd, newidiadau mewn uwch arweinwyr, newidiadau yn aelodaeth y Bwrdd, a gofynnwyd i aelodau staff ystyried:

- a bethau rydych chi wir yn eu gwerthfawrogi am weithio i Gofal Cymdeithasol Cymru sydd wedi'u cynnal neu eu gwella?
- Beth, os o gwbl, ydym wedi'i golli neu a oes yna feysydd lle mae pethau wedi mynd am yn ôl?
- Beth y dylem ganolbwyntio arno dros y 12-18 mis nesaf i wneud Gofal Cymdeithasol Cymru'n lle gwell fyth i weithio?

Bydd canlyniadau'r ymarfer gwrando yn cael eu hadrodd i gyfarfod y Bwrdd yn gynnar yn 2025-26.


Pan fydd ein hymarferion gwrando wedi nodi camau gweithredu y mae angen i ni fynd i'r afael â nhw, byddwn yn eu cynnwys yn ein cynllun datblygu ar gyfer y sefydliad. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn parhau i fod yn ymrwymedig i welliant parhaus.

## Ein fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Yn unol â'r 'Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu da yn y sector cyhoeddus'[1], mae llywodraethu'n 'cwmpasu'r trefniadau1 a gyflwynwyd i sicrhau bod y canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer rhanddeiliaid yn cael eu diffinio a'u cyflawni'.

Dros y tudalennau nesaf, fe welwch ragor o wybodaeth gryno am ein fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd, gan gynnwys trosolwg o'r hyn mae'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn ei wneud.

Mae'r diagram isod yn dangos gwahanol elfennau ein fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd:





1 Yn cynnwys strwythurau a phrosesau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, cyfreithiol a gweinyddol, a threfniadau eraill, fel y'u crynhoir yn yr egwyddorion sy'n diffinio.

# Atebolrwydd

Rydym yn atebol i'r trethdalwr a rhaid i ni sicrhau bod ein gwaith yn cyflawni gwerth am arian.

Yn y diagram isod, rydym yn dangos strwythur atebolrwydd ein Bwrdd ac i mi fel Prif Weithredwr yn fy rôl fel swyddog cyfrifyddu.




Er mwyn sicrhau ein bod yn cadw ein hatebolrwydd i Lywodraeth Cymru yn 2024-25:

Fe wnaeth ein Tîm Rheoli Gweithredol gyfarfod â chynrychiolwyr o'n hadran nawdd yn Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn bob tri mis i fynd trwy berfformiad ein cynllun busnes a'n gwariant ar y gyllideb hyd yma.

- rydw i wedi cael cyfarfodydd rheolaidd gyda Chadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru a Phrif Swyddog Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru
- aeth y Cadeirydd a minnau i'n cyfarfod blynyddol gyda'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ym mis Hydref 2024
- cafodd ein Bwrdd ei gyfarfod blynyddol gyda'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ym mis Hydref 2024.

## Ein Bwrdd a'n pwyllgorau

Mae ein Cadeirydd a 14 aelod Bwrdd yn gyfrifol am ein harwain a rhoi cyfeiriad i ni. Fe'u penodwyd gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ac maent yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Rheoli Gweithredol i bennu ein cynlluniau strategol a busnes, dyrannu ein hadnoddau a monitro ein perfformiad. Mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau'n craffu ar ein gwaith, yn ei lywio a'i gymeradwyo.

## Aelodaeth y Bwrdd

Yn dilyn ymgyrch recriwtio helaeth a gynhaliwyd yn ystod 2023-24, fe wnaethom groesawu chwe aelod newydd i'r Bwrdd ym mis Ebrill 2024, sef Aaron Edwards, Abyd Quinn Aziz, Einir Hinson, Kieran Harris, Mark Roderick a Sarah Zahid. Ein haelodau Bwrdd | Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae'r aelodau newydd yn dod ag amrywiaeth eang o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad i'r Bwrdd, yn ogystal ag adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Hoffwn ddiolch i'r chwe aelod o'r Bwrdd a wnaeth ein gadael ni ddiwedd mis Mawrth 2025, sef Abigail Harris, Dr Carl Cooper, Emma Britton, Grace Quantock, Joanne Kember a Simon Burch. Mae'r chwech wedi gwneud cyfraniad allweddol wrth graffu ar ein gwaith a sicrhau ein bod yn dilyn arfer da o ran ein llywodraethu dros yr wyth mlynedd diwethaf.

Mae'r diagram hwn yn dangos strwythur ein Bwrdd a'n Pwyllgorau ar 31 Mawrth 2025:

**Y Bwrdd**

- gwneud penderfyniadau ar y materion hynny a gadwyd yn ôl ar gyfer y Bwrdd
- rhoi arweinyddiaeth a chyfeiriad drwy lunio'n cynllun strategol a busnes
- craffu ar adnoddau a pherfformiad – drwy adroddiadau perfformiad rheolaidd ar y cynllun busnes (gan gynnwys data ariannol, rheoli risg ac Adnoddau Dynol)
- dangos safonau uchel o lywodraethu corfforaethol – cytuno ar gylch gorchwyl y Bwrdd a'r Pwyllgorau
- derbyn negeseuon a chyngor gan y Tîm Rheoli Gweithredol.

**Pwyllgor Archwilio a Risg**

Mae'n cynghori'r Bwrdd ar:

- pa mor effeithiol yw trefniadau rheoli risg, rheoli mewnol a llywodraethu
- uniondeb yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
- pa mor ddigonol yw'r ymateb i faterion a nodwyd gan waith archwilio sy'n ymwneud â gofynion llywodraethu corfforaethol y Bwrdd
- penodi darpariaeth archwilio mewnol ac adolygu pa mor effeithiol ydyw bob blwyddyn
- effeithiolrwydd ein systemau diogelwch rheoli gwybodaeth.

**Pwyllgor Gwella**

Cynghori'r Bwrdd ar y nodau strategol canlynol ac yn arwain arnynt:

- strategaethau a pholisïau sy'n ymwneud â datblygu a gwella'r gweithlu a gwasanaethau
- cefnogi gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar sy'n cael ei gydnabod a'i werthfawrogi'n fawr
- hyrwyddo arferion a pholisi gofal cymdeithasol sy'n seiliedig ar arloesi, ymchwil, data a thystiolaeth o ansawdd uchel
- meithrin gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar gwybodus a medrus
- denu, recriwtio a chadw unigolion â'r gwerthoedd cywir i ddiwallu anghenion y rhai sydd angen gofal a chymorth
- annog gwasanaethau gofal cymdeithasol i fabwysiadu a gweithredu dulliau gofal a chymorth sy'n seiliedig ar gryfderau.

**Y Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau**

Cynghori'r Bwrdd ar y nodau strategol canlynol ac yn arwain arnynt:

- strategaethau a pholisïau mewn perthynas â chofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol a materion addasrwydd i ymarfer
- sicrhau ansawdd y rhaglen rheoleiddio hyfforddiant a derbyn adroddiadau rheolaidd ar faterion rheoleiddio
- sicrhau bod gan y gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar gymwysterau addas, gyda'r gwerthoedd, yr ymddygiadau a'r ymarfer cywir
- goblygiadau datblygiadau ym maes rheoleiddio a sut y gallai'r rhain effeithio ar gyfrifoldebau'r Bwrdd
- gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

**Y Pwyllgor Cyflogau a Llesiant**

Mae'n cynghori'r Bwrdd ar:

- tâl, telerau ac amodau staff ac aelodau›r panel rheoleiddio yn unol â›r polisi
- tâl y Prif Weithredwr ac Uwch Reolwyr
- Trefniadau recriwtio, diswyddo ac ymadael y Prif Weithredwr
- craffu annibynnol ar gwynion sy'n ymwneud â'r Prif Weithredwr.

Mae'r pwyllgor cyflogau'n goruchwylio unrhyw faterion sylweddol o ran cysylltiadau gweithwyr hefyd, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â thribiwnlysoedd cyflogaeth.

Os hoffech ddysgu mwy am ein Bwrdd, cyfarfodydd a thrafodaethau'r Bwrdd, mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cael ei adolygu'n flynyddol, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'n cynllun busnes strategol a blynyddol. Mae'r Pwyllgorau a'u haelodau'n gwneud cyfraniad pwysig at roi sicrwydd i'r Bwrdd drwy graffu ar feysydd gwaith yn fwy manwl.

Yn ogystal â'r strwythur pwyllgorau ffurfiol, mae gan ein trefniadau llywodraethu ddarpariaeth ar gyfer Grŵp Gweithredu Cadeiryddion – mae hyn yn darparu ar gyfer gwaith craffu a phenderfyniadau'r Bwrdd dros eitemau sy'n sensitif o ran amser lle na nad oedd modd ymgynnull Pwyllgor llawn. Nid yw'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio'n aml, a dim ond unwaith yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae unrhyw ystyriaethau o ran Camau Gweithredu Cadeiryddion yn cael eu hadrodd i'r bwrdd llawn er mwyn sicrhau tryloywder parhaus yn ein proses o wneud penderfyniadau.

## Datblygiad a gwaith ymgysylltu'r Bwrdd

Parhaodd aelodau'r Bwrdd â'u dysgu a'u datblygiad yn ystod y flwyddyn. Am y tro cyntaf ers y pandemig, aethom â'r Bwrdd allan i dri awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn – Sir y Fflint, Powys a Sir Benfro. Rhoddodd y sesiynau ddealltwriaeth werthfawr o realiti a heriau darparu gofal cymdeithasol, yn ogystal â'r ffyrdd arloesol y maent yn ceisio goresgyn yr heriau.

Yn ogystal â'r sesiynau gydag awdurdodau lleol, cafwyd cyfres o sesiynau datblygu strategol, a phynciau'r rhain oedd:

- Sesiynau sefydlu ar gyfer aelodau newydd o'r Bwrdd
- Heriau presennol
- Cyflwyniad i rôl gwasanaethau archwilio yn Gofal Cymdeithasol Cymru; trosolwg o archwilio mewnol a chyflwyniad i Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru
- Canlyniadau Arolwg o'r Gweithlu 2024
- Arweinyddiaeth Dosturiol
- Diweddariad Cyflog a Chamu Ymlaen mewn Gyrfa
- Diweddariad pwysau cyllido
- Myfyrdodau Prif Arolygydd AGC o'i adroddiad blynyddol
- Diweddariad Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Cynllun Busnes 2025-7
- Disgrifiad o rôl eiriolaeth aelodau'r Bwrdd wedi'i ddiweddaru
- Trosolwg o Ddigidol a Data Gofal Cymdeithasol
- Adolygiad o'r Gofrestr Risg Strategol, Parodrwydd i Dderbyn Risg a Sganio'r Gorwel
- Effeithiolrwydd y Bwrdd 2024-25
- Myfyrdodau sefydlu Prif Swyddog Gweithredol a'r camau nesaf
- Myfyrdodau gan aelodau o'r Bwrdd sy'n ymadael
- Diweddariadau rheolaidd gan y Prif Swyddog Gweithredol.

## Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau

Un o'n gwerthoedd craidd fel sefydliad yw dysgu parhaus. Ar gyfer y Bwrdd a'r Pwyllgorau, rydym yn edrych yn rheolaidd ar effeithiolrwydd ein polisïau, ein prosesau a'n cyfarfodydd. Rydym wedi cynnal arolygon effeithiolrwydd blynyddol y Bwrdd ac, am y pedair blynedd diwethaf, rydym wedi defnyddio'r un dull fel bod gennym bedair blynedd o ddata ar gael i nodi unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Roedd canlyniadau'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r holiadur yn dangos hunanasesiad cadarnhaol ar y cyfan o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu corfforaethol y sefydliad a lefelau uchel cyson o foddhad ac ymrwymiad ymhlith aelodau.

Yn dilyn yr adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd, ychwanegwyd y cyfleoedd canlynol at gynllun gweithredu llywodraethu corfforaethol ein Bwrdd:

- Rheoli anghytundeb a sut a phryd i herio mewn cyfarfodydd: Gwella gallu aelodau i reoli anghytundebau a gwybod pryd a sut i herio'n effeithiol
- Trafodaeth bellach ar wneud penderfyniadau consensws: Hwyluso trafodaethau i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o brosesau gwneud penderfyniadau consensws
- Cyflwyno eitemau cydsyniad i agendâu: Symleiddio cyfarfodydd drwy grwpio eitemau arferol, nad ydynt yn ddadleuol mewn agenda cydsyniad i'w cymeradwyo'n gyflym
- Ennyn mwy mewn papurau cyhoeddus o'r trafodaethau mewn sesiynau datblygu strategol: Cynyddu tryloywder drwy fanylu ar sut mae trafodaethau mewn Sesiynau Datblygu Strategol wedi dylanwadu ar y papurau terfynol a gyflwynir yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd
- Archwilio cyllid yn fwy manwl: Egluro cyfrifoldebau ariannol Pwyllgorau a'r Bwrdd, a darparu hyfforddiant a dadansoddiad ariannol manwl.

I gydnabod y chwe aelod newydd, cynhaliodd y Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Bwrdd sesiwn adborth ar eu blwyddyn gyntaf a'r sesiwn sefydlu. Yn ogystal, cynigiwyd cyfweliad ymadael gyda'n tîm AD i'r chwe aelod sy'n ymadael.

Mae effeithiolrwydd cyfarfodydd yn eitem sefydlog ar agendâu pob cyfarfod o'r Bwrdd a phob cyfarfod Pwyllgor, ac mae cadeiryddion pob Pwyllgor ac Ysgrifennydd y Bwrdd yn gofyn i'r aelodau am adborth yn ystod ac ar ôl pob cyfarfod.

Wrth sicrhau effeithiolrwydd parhaus y Bwrdd, mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn wyliadwrus ac yn rhagweithiol, gan ofyn am ddadansoddiad o sut mae trafodaethau'r Bwrdd yn effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau a newidiadau yn y sefydliad.

## Presenoldeb aelodau yn y Bwrdd a'r pwyllgorau

Mae aelodau'r Bwrdd yn cael eu talu am ddeuddydd o waith bob mis. Yn ogystal â'n 14 aelod a benodir yn gyhoeddus, mae gennym nifer o bobl sydd wedi'u cyfethol i'n Pwyllgorau:

- Mae Abhishek Vyas yn aelod annibynnol heb hawliau pleidleisio, gyda chefndir seiberddiogelwch proffesiynol sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor Archwilio a Risg
- Mae Heikki Doyle yn aelod annibynnol, heb hawliau pleidleisio, gyda chymhwyster a chefndir ariannol proffesiynol sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor Archwilio a Risg
- Mae Margaret Rooney, Dirprwy Brif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yn aelod o'r Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau fel aelod cyfetholedig
- Mae Jenny Williams, cynrychiolydd o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru, yn eistedd ar y Pwyllgor Gwella fel aelod cyfetholedig.

Mae Rheolau Sefydlog y Bwrdd yn nodi'r lefel presenoldeb disgwyliedig ar gyfer aelodau'r Bwrdd mewn cyfarfodydd, sef 60 y cant. Mae'r tabl hwn yn dangos presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn ystod 2024-25.

Er mwyn cynorthwyo aelodau i wneud penderfyniadau effeithiol, mae papurau ar gyfer pob cyfarfod Bwrdd a Phwyllgor yn cael eu hanfon i borth digidol, gydag amrywiaeth eang o ddogfennau technegol ategol.

| Enw | Aelodaeth o Bwyllgor | Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd | Presenoldeb yn sesiynau datblygu'r Bwrdd | Presenoldeb mewn cyfarfodydd Pwyllgor | Presenoldeb cyffredinol mewn cyfarfodydd (yn cynnwys Pwyllgorau) | Tymor penodiad yn dod i ben |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mick Giannasi (Cadeirydd) | - | 5/5 | 11/11 | - | 16/16 (100%) | 31.07.27 |
| Aaron Edwards | Gwella Archwilio a Risg | 5/5 | 10/11 | 7/8 | 22/24 (92%) | 31.03.28 |
| Abhishek Vyas (Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Risg) | Archwilio a Risg | - | - | 3/4 | 3/4 (75%) | 31.03.27 |
| Abigail Harris* | Gwella | 3/5 | 7/11 | 1/4 | 11/20 (55%) | 31.03.25 |
| Abyd Quinn Aziz | Gwella Rheoleiddio a Safonau (Dirprwy Gadeirydd) | 5/5 | 9/11 | 8/8 | 22/24 (92%) | 31.03.28 |
| Carl Cooper | Archwilio a Risg (Cadeirydd) Pwyllgor Cyflogau | 5/5 | 8/11 | 4/7 | 17/23 (74%) | 31.03.25 |
| Einir Hinson | Gwella Rheoleiddio a Safonau | 4/5 | 11/11 | 8/8 | 23/24 (96%) | 31.03.28 |
| Emma Britton** | Archwilio a Risg (Dirprwy Gadeirydd); Pwyllgor Gwella | 5/5 | 8/10 | 5/8 | 18/23 (78%) | 31.03.25 |
| Grace Quantock | Rheoleiddio a Safonau (Cadeirydd); Pwyllgor Cyflogau | 5/5 | 8/10 | 5/7 | 18/22 (82%) | 31.03.25 |
| Heikki Doyle (Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Risg) | Pwyllgor Archwilio a Risg | - | - | 4/4 | 4/4 (100%) | 31.03.27 |
| Helen Mary Jones | Archwilio a Risg; Gwella | 4/5 | 8/11 | 7/8 | 19/24 (79%) | 30.04.26 |
| Joanne Kember (Dirprwy Gadeirydd) | Rheoleiddio a Safonau; Gwella; Pwyllgor Cyflogau | 5/5 | 11/11 | 11/11 | 27/27 (100%) | 31.03.25 |
| Kieran Harris | Archwilio a Risg Gwella | 5/5 | 7/11 | 3/8 | 15/24 (63%) | 31.03.28 |

| Enw | Aelodaeth o Bwyllgor | Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd | Presenoldeb yn sesiynau datblygu'r Bwrdd | Presenoldeb mewn cyfarfodydd Pwyllgor | Presenoldeb cyffredinol mewn cyfarfodydd (yn cynnwys Pwyllgorau) | Tymor penodiad yn dod i ben |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mark Roderick | Gwella; Rheoleiddio a Safonau | 5/5 | 10/11 | 8/8 | 23/24 (96%) | 31.03.28 |
| Sarah Zahid | Archwilio a Risg Rheoleiddio a Safonau | 5/5 | 8/11 | 7/8 | 20/24 (83%) | 31.03.28 |
| Simon Burch | Rheoleiddio a Safonau Archwilio a Risg | 5/5 | 10/11 | 5/8 | 20/24 (83%) | 31.03.25 |
| Trystan Pritchard | Gwella (Cadeirydd); Cyflogau | 5/5 | 7/11 | 6/7 | 18/23 (78%) | 30.06.27 |

* Penodwyd yr Aelod yn Brif Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd Bae Abertawe ym mis Hydref 2024 ac arhosodd ar y Bwrdd yn ddi-dâl tan ddiwedd mis Mawrth 2025.
** Addasiad rhesymol ar waith ar gyfer presenoldeb.

## Effeithiolrwydd ein fframwaith llywodraethu

Yn ystod y flwyddyn, rydw i, fel y Prif Swyddog Gweithredol blaenorol, wedi cynnal sesiynau briffio staff rheolaidd i rannu penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd a'r Tîm Rheoli Gweithredol, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein perfformiad a chynnig cyfle i aelodau'r staff ofyn cwestiynau. Mae hyn yn gyfle allweddol hefyd i sicrhau bod staff yn cael eu briffio ar anghenion y sector gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant yr ydym yma i'w gefnogi.

Gydol y flwyddyn, rwy'n cael sicrwydd bod ein hamcanion busnes a strategol yn cael eu cyflawni drwy gyfarfodydd rheoli mewnol, adroddiadau cyllideb a pherfformiad, a diweddariadau prosiect. Rwy'n gweithredu 'polisi drws agored rhithwir' lle gall unrhyw aelod o staff gysylltu â mi gydag unrhyw fater a allai fod yn destun pryder iddynt. Rwy'n hyrwyddo'r Cyngor Partneriaeth Staff a'r Fforwm Staff hefyd fel ffordd o sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n glir â staff am ein gwaith. Mae'r arolwg staff ac ymarfer gwrando'r Bwrdd yn darparu cyfleoedd pellach i staff nodi meysydd pryder a meysydd i'w gwella. Bydd yr arolwg staff newydd yn cael ei gynnal yn 2025.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cael tair cwyn drwy ein gweithdrefnau ffurfiol (dwy yn 2023-24) ac ymchwiliwyd i bob un ohonynt. O'r achosion hyn, cafodd un cydweithiwr ei atgyfeirio i dribiwnlys cyflogaeth a daeth yr achos i ben drwy gyfryngu. Mae'r Bwrdd a'r noddwr yn cael adroddiad chwarterol ar fetrigau AD allweddol, gan gynnwys cwynion a mesurau disgyblu. Bydd y Pwyllgor Cyflogau'n craffu ar achosion cysylltiadau gweithwyr lle mae angen clywed apeliadau y tu allan i'r Tîm Gweithredol neu lle mae achosion yn cael eu hatgyfeirio i dribiwnlysoedd cyflogaeth.

Rydym yn defnyddio cynllun dirprwyo a chyfarwyddiadau ariannol i gyflawni ein gwaith i sicrhau bod ein penderfyniadau yn briodol ac yn gymesur â lefel y risg cysylltiedig.

Rydym yn cynnal ac yn adolygu cofrestri buddiant ar gyfer gweithwyr ac aelodau'r Bwrdd hefyd i nodi unrhyw wrthdaro posibl neu ganfyddedig â'n prosesau gwneud penderfyniadau, fel y gallwn gymryd y camau cywir. Adolygwyd y Polisi Cofrestru Diddordeb yn ystod y flwyddyn ac fe'i diweddarwyd i adlewyrchu canllawiau diweddaraf Swyddfa'r Cabinet a gwelededd gwell o fuddiannau'r Tîm Rheoli Gweithredol.

Ers i ni ddod yn Gofal Cymdeithasol Cymru yn 2017, mae gennym Fframwaith Llywodraeth Enghreifftiol sy'n nodi'r fframwaith eang rydym yn gweithio ynddo ac yn manylu ar y telerau ac amodau mae Gweinidogion Cymru'n darparu Cymorth Grant i ni arnynt. Yn ddiweddar, rydym wedi cael fersiwn 2024 ac rydym yn gweithio arni gydag Is-adran Noddwyr Llywodraeth Cymru a'r tîm Arweinyddiaeth a Llywodraethu Cyrff Cyhoeddus. Byddwn yn mynd â'r fersiwn wedi'i diweddaru i gyfarfod y Bwrdd yn gynnar yn 2025-26 cyn gweithio ar newidiadau i'r polisïau perthnasol.

## Archwilio Mewnol

Mae'r cynllun archwilio mewnol wedi'i seilio ar ddull sy'n seiliedig ar risg ac y cytunwyd arno gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae ein harchwilwyr mewnol yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd ein systemau rheoli mewnol (rheoleiddio ariannol, corfforaethol a'r gweithlu), ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella. Rydym wedi bod yn cynyddu amrywiaeth yr archwiliadau a gynhelir i feysydd newydd yn y sefydliad, i roi sicrwydd a chefnogi ein gwelliant parhaus. Rydym yn ystyried yr holl argymhellion ac yn datblygu ymatebion rheolwyr i'r holl argymhellion archwilio, sy'n destun gwaith craffu gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae cynnydd camau gweithredu yn cael ei adolygu o leiaf bob chwarter ac yn cael ei adrodd i'r pwyllgor archwilio a risg.

Cynhaliwyd 10 archwiliad mewnol yn ystod y flwyddyn ar ein polisïau a'n gweithdrefnau ar gyfer:

| Maes gwaith | Lefel sicrwydd |
|---|---|
| Gweithgarwch / prosesau Casglu Data Blynyddol y Gweithlu | Rhesymol |
| Adolygiad Sicrwydd o Reoleiddio'r Gweithlu – Sicrhau Ansawdd Addysg | Rhesymol |
| Diogelu Data | Sylweddol |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Sylweddol |
| Rheoli grantiau – Bwrsariaethau | Sylweddol |
| Rheoli Risg – Lliniaru | Sylweddol |
| Gwella a Datblygu – gwefan Gofalwn Cymru; Fframwaith Cymorth Ymchwil ac Ymgysylltu | Sylweddol |
| Llywodraethu – Diogelu Data – Carreg | Rhesymol |
| Rheolaethau Ariannol Allweddol | Rhesymol |
| AD - Llesiant Staff | Rhesymol |

Ar sail y gwaith archwilio a wnaed yn ystod y flwyddyn, daeth y Pennaeth Archwilio Mewnol i'r casgliad bod gennym brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith.

## Diffiniadau o lefel sicrwydd

| | |
|---|---|
| **Sicrwydd Sylweddol** | Ceir system gadarn o reolaethau mewnol sy'n gweithredu'n effeithiol i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli ac amcanion prosesau'n cael eu cyflawni. |
| **Sicrwydd Rhesymol** | Mae'r system rheolaethau mewnol yn ddigonol ar y cyfan ac yn gweithredu'n effeithiol ond mae angen rhai gwelliannau i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli ac amcanion prosesau'n cael eu cyflawni. |
| **Sicrwydd Cyfyngedig** | Yn gyffredinol, mae'r system rheolaethau mewnol yn annigonol neu ddim yn gweithredu'n effeithiol ac mae angen gwelliannau sylweddol i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli ac amcanion prosesau'n cael eu cyflawni. |
| **Dim Sicrwydd** | Mae methiant sylfaenol neu ddiffyg rheolaethau mewnol craidd sy'n gofyn am weithredu ar unwaith. |

## Archwilio allanol

Rydym yn derbyn Adroddiad yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol a Llythyr Rheoli, sy'n adrodd ar faterion sy'n codi yn ystod yr archwiliad o'n datganiadau ariannol.


Yn 2023-24, nodwyd un mater yn y Llythyr Rheoli Archwilio Allanol yn ymwneud â'n triniaeth gyfrifyddu o rai taliadau grant. Yn ystod 2024-25, rydym wedi adolygu ein polisi grantiau i sicrhau triniaeth yn unol ag adborth archwilwyr.

## Rheoli risg

Rydym yn parhau i ystyried a rheoli risg yn seiliedig ar ein Polisi Rheoli Risg a Sicrwydd. Mae ein dull cadarnhaol o reoli risg yn golygu ein bod nid yn unig yn edrych ar y risg y bydd pethau'n mynd o chwith, ond effaith peidio â manteisio ar gyfleoedd neu beidio â gwneud y mwyaf o'r hyn rydym yn ei wneud yn dda. Mae ein Tîm Arwain yn adolygu ein cofrestr risg strategol bob mis. Yna, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn craffu arni bob chwarter. Cefnogir hyn gan gofrestrau risg gweithredol a phrosiect. Rydym yn cymhwyso dull tair llinell amddiffyn sy'n ceisio lliniaru a lleihau risg drwy nodi rheolaethau, adolygiad mewnol a sicrwydd archwilio trydydd parti annibynnol.

## Proffil Risg Strategol

Mae crynodeb o'n proffil risg ar ddiwedd mis Mawrth 2025 i'w weld yn y diagram isod. Dyma 'fapiau gwres' sy'n dangos nifer y risgiau strategol ac yn asesu lefelau risg gweddilliol ar ôl cyflwyno rheolaethau i liniaru eu heffaith a'u tebygolrwydd.



## Asesu Risg

Rydym yn cymryd ymagwedd ddynamig at asesu risg. Newidiodd sawl risg strategol allweddol yn ystod y flwyddyn. Cafodd rhai o'r risgiau hyn eu huno â risgiau strategol eraill, tra'r oedd modd ail-eirio a diweddaru rhai eraill i ddangos yr amgylchedd newidiol. Roedd y rhain yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â:

| Teitl y Risg | Sgôr Risg Weddilliol 2023-24 | Teitl y Risg | Sgôr Risg Weddilliol 2024-25 |
|---|---|---|---|
| Gallu'r Sector | 16 | Cydweithrediad y Sector a Gallu (Unedig) | 16 |
| Cydweithrediad y Sector | 16 | | |
| Sgiliau a Gallu | 9 | Sgiliau, Gallu, Diwylliant a Gwerthoedd (Diweddariad Teitl a Disgrifiad Risg) | 9 |
| Canfyddiad y Cyhoedd | 12 | Canfyddiad y Cyhoedd (Diweddariad Disgrifiad Risg) | 12 |
| Cyllid a Chefnogaeth Llywodraeth Cymru | 16 | Cyllid a Chefnogaeth Llywodraeth Cymru (Diweddariad Disgrifiad Risg) | 12 |
| Cymhwyso Fframwaith Rheoleiddio | 8 | Cymhwyso Fframwaith Rheoleiddio (Diweddariad Disgrifiad Risg) | 8 |
| Cyfraddau Cadw'r Gweithlu | 15 | Cyfraddau Cadw'r Gweithlu (Diweddariad Disgrifiad Risg) | 15 |
| Llywodraethu a Sicrwydd | 6 | Llywodraethu a Sicrwydd (Diweddariad Disgrifiad Risg) | 6 |
| Rhyng-gysylltedd | 12 | Rhyng-gysylltedd (Diweddariad Disgrifiad Risg) | 12 |
| Gwasanaethau Rheoleiddio | 20 | Gwasanaethau Rheoleiddio (Diweddariad Disgrifiad Risg) | 15 |

Ychwanegwyd tair risg strategol newydd at y gofrestr risg yn ystod 2024-25 a oedd yn gysylltiedig â:

| Teitl y Risg | Sgôr Risg Weddilliol 24/25 |
|---|---|
| Amgylchedd Rheoli Ariannol | 6 |
| Cynllunio ar gyfer Olyniaeth | 6 |
| Llyfr Chwarae Marchnata a Chyfathrebu | 12 |

Cafodd 8 risg eu cau neu eu hisgyfeirio o'r Gofrestr Risg yn ystod 2024-25, a oedd yn gysylltiedig â:

| Teitl y Risg | Cau neu Isgyfeirio |
|---|---|
| Aelodaeth y Bwrdd | Cau |
| Cynllunio ar gyfer Olyniaeth | Cau |
| Effeithiolrwydd Llesiant | Isgyfeirio |
| Prentisiaethau | Isgyfeirio |
| COVID-19 | Isgyfeirio |
| Datblygiad Proffesiynol | Isgyfeirio |
| Sefydlu | Isgyfeirio |
| Yr Argyfwng Hinsawdd | Isgyfeirio |

Byddaf yn parhau i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n dda. Lle mae gwendidau, byddaf yn sicrhau bod camau priodol ar waith i fynd i'r afael â nhw a bod ein rheolaethau a'n sicrwydd mewnol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol.

## Parodrwydd i Dderbyn Risg a Rheoli Risg

O ystyried yr hyn a wnawn, mae ein goddefgarwch o ran risg mewn meysydd llywodraethu ac enw da yn isel. Mewn meysydd eraill, megis gwella'r gweithlu, rydym yn barod i dderbyn mwy o risg i fanteisio ar gyfleoedd i ddilyn ein huchelgeisiau.

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu 7 maes sicrwydd i strwythuro map sicrwydd. Mae hyn yn crynhoi'r rheolaethau a'r ffynonellau sicrwydd presennol ac yn amlygu unrhyw fylchau mewn perthynas â diwallu anghenion y Bwrdd. Ar gyfer pob maes sicrwydd, mae'r Bwrdd wedi diffinio ei barodrwydd i dderbyn risg yn fras gan ddefnyddio'r dosbarthiad a argymhellir yn Nodyn Cyfarwyddyd Parodrwydd i Dderbyn Risg Llywodraeth y DU ac mae'n ystyried i ba raddau mae'r rheolaethau presennol yn cyd-fynd â'r parodrwydd hwnnw. Mae'r Bwrdd yn adolygu parodrwydd i dderbyn risg yn rheolaidd. Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf ym mis Mawrth 2025.

| Maes sicrwydd | Parodrwydd i dderbyn risg hyd at fis Mawrth 2025 | Parodrwydd i dderbyn risg wedi'i ddiwygio ym mis Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| Ariannol / gwerth am arian | Gofalus / Agored | Gofalus / Agored |
| Llywodraethu | Bach iawn / Gofalus | Bach iawn / Gofalus |
| Gwaith Polisi | Agored | Agored |
| Enw da | Gofalus | Gofalus |
| Ein pobl | Agored | Agored |
| Gwella | Agored | Agored |
| Rheoleiddio | Gofalus | Bach iawn / Gofalus |

## Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch

Fe wnaethom gynnal ein hardystiad o dan ISO 27001 Systemau Rheoli Diogelwch Gwybodaeth drwy gydol y flwyddyn. Cefnogwyd cydymffurfiaeth drwy ddarparu gwasanaeth archwilio mewnol arbenigol drwy gydol y flwyddyn. Yn 2024-5, fe wnaethom uwchraddio ein hardystiad Hanfodion Seiber i Hanfodion Seiber Plws.

Fel rheolydd data sydd wedi'i gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), rydym yn sicrhau bod gennym reolaethau llywodraethu gwybodaeth ar waith. Mae hyn er mwyn cadw'r data rydym yn ei gasglu a'i brosesu'n ddiogel ac yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data gyfredol fel ein bod yn agored ac yn dryloyw gyda'n penderfyniadau.

Yn ystod 2024-25, fe wnaethom gofnodi 40 o ddigwyddiadau data:

| | 2024-25 |
|---|---|
| Nifer y digwyddiadau / digwyddiadau data | 40 |
| Nifer a adroddwyd i ICO | 1 |
| **Math o ddigwyddiad** | |
| Gwallau gan drydydd parti | 8 |
| Problem meddalwedd/gweinydd | 1 |
| Gwall dynol/ mater hyfforddiant ac ymwybyddiaeth | 26 |
| Corfforol | 4 |
| Seiberddiogelwch yn cynnwys ymosodiad sbam | 1 |


- **Adroddwyd am 1 digwyddiad i ICO, ond cadarnhaodd ICO nad oedd angen cymryd camau pellach.** Rhannwyd argymhellion ar gyfer gwella ymarfer gyda'r timau perthnasol yn y sefydliad.
- Ymatebwyd i 11 **cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth,** i gyd o fewn 20 diwrnod gwaith. Roedd y mathau o geisiadau'n amrywio eleni, gan gynnwys ceisiadau am wybodaeth am ein gweithlu, offer TG, AD a Recriwtio, gwybodaeth am gontractau a gwybodaeth yn ymwneud â'r gofrestr.
- Cawsom 16 **Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun** (SARs) o dan Ddeddf Diogelu Data 2018.
- roedd pump o'r ceisiadau hynny am wybodaeth nad ydym yn ei chadw ond, yn y rhan fwyaf o achosion, roeddem yn gallu eu cyfeirio at y sefydliadau perthnasol
  - ni ddarparodd tri SAR yr wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani er mwyn prosesu'r cais
  - roedd pedwar cais yn ymwneud ag ymchwiliadau Addasrwydd i Ymarfer (FTP). Oherwydd hyn, rhannwyd yr wybodaeth gyda thestun y data yn unol â'r broses FTP
  - cyflawnwyd pob cais arall o fewn y cyfnod o 30 diwrnod. Nid ymdrinnir â rhai ceisiadau am wybodaeth, er enghraifft, copïau o wybodaeth gofrestru, o dan y Ddeddf Diogelu Data a chânt eu cofnodi fel SARs ffurfiol gan y gellid darparu'r wybodaeth yn gyflym yn hytrach nag aros hyd at 30 diwrnod.

- Cawsom dri **chais am yr Hawl i ddileu** o dan GDPR y DU. Ymatebwyd i'r ymateb yn unol â'r polisi ac o fewn mis i dderbyn y cais.
- Rydym yn parhau i edrych ar wella ein **fframwaith llywodraethu gwybodaeth a chydymffurfiaeth â'r Ddeddf Diogelu Data** gyda'n Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth traws-sefydliadol. Mae'r grŵp hwn yn edrych ar ein cydymffurfiaeth ag ardystiad ISO27001, deddfwriaeth diogelu data, atebolrwydd ac aliniad â Hanfodion Seiber (Diogelwch). Cynhaliwyd rhaglen hyfforddiant seiliedig ar rôl ar reoli risgiau diogelu data a diogelwch gwybodaeth drwy gydol y flwyddyn.
- Rydym wedi diwygio a datblygu sawl polisi newydd, adnoddau mewnol a hyfforddiant staff mewn perthynas â diogelu data drwy gydol y flwyddyn.

## Gwasanaeth Cwsmeriaid

Rydym yn defnyddio cwynion, adborth cwsmeriaid ac ymholiadau i edrych yn barhaus ar sut y gallwn weithio'n well a darparu gwasanaeth gwell i gwsmeriaid.

Yn ystod 2024-25, daeth 15 o gwynion ffurfiol i law o dan ein polisi cwynion. Mae'r tabl isod yn nodi sut y cawsant eu dosbarthu (Cam 1 a Cham 2) a'r meysydd yr oeddent yn ymwneud â nhw:




Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael manylion ynghylch y rhain fel rhan o'u hadroddiad Cydymffurfiaeth bob chwarter.

Ar gyfartaledd, fe wnaethom gwblhau cwynion Cam 1 o fewn 8 diwrnod gwaith.

Ar gyfartaledd, fe wnaethom gwblhau cwynion Cam 2 o fewn 19 diwrnod gwaith.

## Chwythu'r chwiban

### Mewnol

Mae'n holl staff yn cael eu hannog i godi materion sy'n peri pryder am unrhyw gamwedd sy'n dod i'w sylw tra byddant yn y gwaith. Credaf fod nodi camweddau'n fewnol yn gyfraniad pwysig at reoli risg gorfforaethol a sicrhau llywodraethu da.

Rydym wedi sefydlu polisi a gweithdrefnau chwythu'r chwiban mewnol sy'n adlewyrchu darpariaethau Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 ac yn egluro'r mecanwaith i staff godi materion o'r fath.

Yn 2024-2025, ni wnaeth unrhyw aelod o staff fynegi pryder o dan ein Polisi Chwythu'r Chwiban, yn union fel yn 2023-24.

### Allanol

Rydym wedi'n rhestru o dan Orchymyn Personau Rhagnodedig 2014 fel sefydliad dynodedig y gall unrhyw weithiwr yn y sector gofal cymdeithasol gysylltu â ni i adrodd am gamweddau tybiedig neu hysbys. Gelwir hyn yn 'chwythu'r chwiban' neu'n wneud datgeliad hefyd.

Fel person dynodedig, mae gennym sawl dyletswydd, a nodir mewn canllawiau gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS), ac un ohonynt yw adrodd yn flynyddol ar nifer y datgeliadau chwythu'r chwiban a dderbyniwn.

Ar gyfer pob atgyfeiriad a gawn, rydym yn ystyried yr wybodaeth a ddaw i law ac, yn achos y 9 a gafwyd yn ystod y flwyddyn, nid oes unrhyw achosion Addasrwydd i Ymarfer ffurfiol wedi'u hagor hyd yma. Mae gwybodaeth wedi'i rhannu â sefydliadau perthnasol yn ôl yr angen yn dilyn y datgeliadau a ddaeth i law.

### Twyll

Mae disgwyliad y dylai sefydliadau fod â pholisi gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth, wedi'i lywio gan asesiad risg twyll. Adolygodd y Pwyllgor Archwilio a Risg ein polisi yn ystod y flwyddyn a sefydlu proses asesu risg twyll newydd.

**Sarah McCarty**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifuddu**

**Dyddiad:** 28 Gorffennaf 2025

# Adroddiad ar Gyflogau a Staff

# Adroddiad ar gyflogau

## Datganiad Polisi Cyflogau

Dyma ddatganiad polisi cyflogau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

Mae'r datganiad polisi cyflogau hwn yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gyflogau a gwneud penderfyniadau ar gyflogau uwch-swyddogion.

## Prif Swyddog Gweithredol

Prif Swyddog Gweithredol a Swyddog Cyfrifyddu Gofal Cymdeithasol Cymru yw Sarah McCarty. Ymddeolodd y cyn Brif Swyddog Gweithredol, Sue Evans, ar 26 Gorffennaf 2024. Ar 31 Mawrth, roedd y Prif Swyddog Gweithredol yn cael cyflog o £138,564 y flwyddyn.

## Y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cynnwys 15 Aelod o'r Bwrdd dan arweiniad Cadeirydd lleyg Mick Giannasi. Mae pob un ohonynt wedi'i benodi gan y Gweinidog, drwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus. Nid yw tâl aelodau'r Bwrdd yn bensiynadwy ac fe'i pennir gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn bod yn fwy tryloyw, datgelir cyflog Cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn yr adroddiad hwn. Mae aelodau'r Bwrdd yn cael eu talu £282 y dydd ac wedi ymrwymo i ddau ddiwrnod y mis.

## Staff Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae pob aelod o staff yn cael ei gyflogi gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar y telerau ac amodau hynny y mae'r Bwrdd yn penderfynu arnynt. Mae cyflogau'r holl aelodau staff yn unol â chynllun y sefydliad ar gyfer trefniadau cyflog a graddio staff a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yn 2004 ac mae'n gymwys yn gyfartal i bob aelod o staff.

Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys graddfa gyflog gyda dilyniant cyflog cynyddrannol yn ystod blynyddoedd cynnar cyflogaeth, a dyfarniad anghyfunol yn seiliedig ar berfformiad sefydliadol. Rhoddwyd y gorau i dalu'r Dyfarniad Perfformiad Corfforaethol yn 2010-11 ac o ganlyniad nid oes bonws wedi'i dalu ers 2009-10.

Mae'r dyfarniad cyflog yn destun trafodaeth â Chyngor y Staff a chymeradwyaeth gan Bwyllgor Cyflogau Gofal Cymdeithasol Cymru a Llywodraeth Cymru yn flynyddol. Wrth benderfynu ar strategaethau cyflog, mae'r Bwrdd yn ystyried:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl addas sy'n alluog, yn gymwys ac o safon uchel
- fforddiadwyedd cyffredinol
- arferion cyflog yn y sector cyhoeddus ehangach a sefydliadau cymharol
- rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol gan gynnwys gofynion cydraddoldeb a gwrth-wahaniaethu.

*Mae'r adrannau canlynol yn yr Adroddiad ar Gyflogau a Staff yn destun archwiliad.*

## Cyflogau Uwch Staff

| Swyddogion | Cyflog (£000)* | | Buddion pensiwn (£) | | Cyfanswm (£000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2024-25 | 2023-24 | 2024-25 | 2023-24 | 2024-25 | 2023-24 |
| **Cadeirydd**<br>Mick Giannasi | 30-35 | 30-35 | Amh | Amh | 30-35 | 30-35 |
| **Prif Weithredwr (o 29 Gorffennaf 2024) a Chyfarwyddwr Gwella a Datblygu (hyd at 28 Gorffennaf 2024)**<br>Sarah McCarty | 125-130 | 100-105 | 73,200 | 31,200 | 200-205 | 130-135 |
| **Prif Weithredwr (hyd at 26 Gorffennaf)**<br>Sue Evans | 40-45 | 130-135 | 32,600 | 7,100 | 70-75 | 135-140 |
| **Cyfarwyddwr Cyllid, Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol**<br>Andrew Lycett | 105-110 | 100-105 | 29,300 | 30,700 | 135-140 | 130-135 |
| **Cyfarwyddwr Trawsnewid a Datblygu'r Gweithlu (o 2 Medi 2024)**<br>Lisa Trigg | 50-55 | Amh | 10,200 | Amh | 60-65 | Amh |
| **Cyfarwyddwr Rheoleiddio**<br>David Pritchard | 105-110 | 100-105 | 29,800 | 31,000 | 135-140 | 130-135 |

*Wedi'i gynnwys mewn Cyflog lle bo'n berthnasol mae unrhyw Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth Trethadwy yn unol â'n cynllun Teithio a Chynhaliaeth.

Cyfrifir swm y buddion pensiwn ar gyfer y flwyddyn sy'n cyfrannu at y cyfanswm sengl mewn ffordd debyg i'r dull a ddefnyddir i gael gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth ac mae wedi'i seilio ar wybodaeth a dderbynnir gan ein hactiwarïaid.

Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) plws (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd yn sgil chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

Nid yw hwn yn swm sydd wedi'i dalu i unigolyn gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn e.e. newidiadau yng nghyflog unigolyn, p'un a yw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflog a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfanrwydd.

Mae cyflogau'n cynnwys cyflogau gros a dyfarniadau cyflog y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru.

Ni chafodd unrhyw aelod o staff sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau fuddion mewn nwyddau gan Gofal Cymdeithasol Cymru ac eithrio un cyfarwyddwr mewn perthynas â'n cynllun Tusker ar gyfer darparu cerbydau modur i staff.

| **Hawliau Pensiwn Cyfarwyddwyr** | **Cyfanswm pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2025**<br>**£'000** | **Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar 31 Mawrth 2025**<br>**£'000** | **Cyfanswm y cyfandaliad cronedig ar 31 Mawrth 2025**<br>**£'000** | **Cynnydd/ (gostyngiad) gwirioneddol mewn cyfandaliad ar 31 Mawrth 2025**<br>**£'000** | **CETV ar 31 Mawrth 2025**<br>**£'000** | **CETV ar 31 Mawrth 2024**<br>**£'000** | **Cynnydd/ gostyngiad gwirioneddol yn CETV yn 2024-25**<br>**£'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cadeirydd** Mick Giannasi | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A |
| **Prif Weithredwr (o 29 Gorffennaf 2024) a Chyfarwyddwr Gwella a Datblygu (hyd at 28 Gorffennaf 2024)** Sarah McCarty | 40.0-45.0 | 2.5-5.0 | 20.0-25.0 | 0.0-2.5 | 682 | 490 | 158 |
| **Prif Weithredwr (hyd at 26 Gorffennaf 2024)*** Sue Evans | 35.0-40.0 | 0.0-2.5 | - | - | 740 | 691 | 35 |
| **Cyfarwyddwr Cyllid, Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol** Andrew Lycett | 5.0-10.0 | 0.0-2.5 | - | - | 145 | 105 | 33 |
| **Cyfarwyddwr Trawsnewid a Datblygu'r Gweithlu (o 2 Medi 2024)** Lisa Trigg | 10.0-15.0 | 0.0-2.5 | - | - | 171 | 152 | 13 |
| **Cyfarwyddwr Rheoleiddio** David Pritchard | 5.0-10.0 | 0.0-2.5 | - | - | 99 | 61 | 34 |

* Mae'r gwerthoedd fel oeddent ar y dyddiad ymddeol ar 26 Gorffennaf 2024

Mae'r Prif Weithredwr yn aelod cyffredin o gynllun pensiwn Gofal Cymdeithasol Cymru. Nid yw'r Cadeirydd yn cymryd rhan yn y cynllun pensiwn.

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw'r gwerth cyfalafol a aseswyd gan actwari o fuddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol mewn amser. Buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod digwyddol sy'n daladwy o'r cynllun yw'r buddion y pennwyd eu gwerth. Mae'n daliad a wneir gan gynllun pensiwn, neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn arall, neu drefniant pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion pensiwn y mae wedi'u cronni yn ei gynllun blaenorol.

Roedd y ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyfan o'r cynllun, nid dim ond ar gyfer ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddi. Mae'r ffigurau CETV a manylion pensiwn eraill yn cynnwys gwerth unrhyw bensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu

blynyddoedd ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir CETV o fewn y canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a Chyfadran yr Actiwarïaid.

Mae'r cynnydd gwirioneddol yng ngwerth y CETV yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir mewn gwirionedd gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn cronnus oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai, gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall, ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin o ddechrau a diwedd y cyfnod.

Mae Remedies Pensiwn Gwasanaethau Cyhoeddus yn gymwys i unigolion a oedd yn aelodau, neu a oedd yn gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022.Mae SCW yn aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Rhondda Cynon Taf, ac, yn unol â rheolau'r cynllun hwnnw, ni fydd angen i aelodau gael eu dychwelyd i'r cynllun etholiadol perthnasol yn ystod y cyfnod remedies. Yn y LGPS, mae'r remedy McCloud yn gosod cymhwyster ond mae buddion aelodau sy'n gymwys yn cael eu profion pan fyddant yn dewis ymddeol. Ar yr adeg hon, bydd y cynllun yn cymharu'r pensiwn cyfnod gyrfa a adeiladwyd yn ystod y cyfnod remedy â'r pensiwn a fyddai wedi'i adeiladu yn y cynllun cyflog terfynol. Os bydd y pensiwn cyflog terfynol yn uwch, bydd y gwahaniaeth yn cael ei ychwanegu at y pensiwn a delir.Mae'r ffigurau pensiwn yn y tabl hwn felly yn seiliedig ar y gwasanaeth a adeiladwyd yn y cynllun cyflog terfynol hyd at 31 Mawrth 2015 a hyd yn oed o hynny, cynlluniau cyfnod gyrfa yn seiliedig ar ofynion y LGPS a chyfarwyddyd yr actuari cynllun. Yn ogystal, os yw'n briodol, mae'r gwerthoedd CETV wedi'u cynyddu ar gyfer yr ateb McCloud.

## Datgelu Cyflog Teg

Yn 24-25, cafodd yr holl staff, gan gynnwys y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf, ddyfarniad cyflog o 5%. Roedd y dyfarniad cyflog yn 23-24 yn 5% hefyd, ond gwnaed taliad anghyfunol o £1,500 hefyd i bob aelod o staff a oedd yn y swydd ar 31 Mawrth 2023. Fodd bynnag, nid oedd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn gymwys ar gyfer y taliad anghyfunol.

| Cymarebau cyflog | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| Cyfanswm Cyflog Gweithiwr sy'n ennill y Cyflog Uchaf (£'000) | 135-140 | 130-135 |
| Cymhareb gyflog y 25ain canradd | 4.3 | 4.3 |
| Cymhareb gyflog ganolrifol | 3.4 | 3.2 |
| Cymhareb gyflog y 75ain canradd | 2.6 | 2.8 |
| Amrediad cyfanswm cyflogau | £24,423-£138,564 | £23,260-£131,966 |

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf yn eu sefydliad a chyflog canolrifol gweithlu'r sefydliad.

Cyflog band y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf yn Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25 oedd £135,000-£140,000 (2023-24: £130,000-£135,000).

Y cyflog a ddefnyddiwyd ar gyfer cymhareb gyflog y 25ain canradd, cyflog canolrifol a chymhareb gyflog y 75ain canradd oedd £32,061, £40,413 a £52,966 yn y drefn honno. Y ffigurau cyfatebol yn 23-24 oedd £30,534, £40,862 a £47,675.

Cost y cyflog yn unig yw cyfanswm y cyflog ac nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

Roedd y cyflogau'n amrywio rhwng £24,423 a £138,564 (2023-24: £23,260 i £131,966).

# Adroddiad staff

| Costau staff | 2024-25 | | | | | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm Costau | Staff Cyflogedig Parhaol | Staff Dros Dro a Secondeion | Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd | Aelodau Panel | Cyfanswm Costau |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau a thâl | 10,191 | 9,885 | 74 | 128 | 104 | 9,274 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 1,069 | 1,065 | - | 3 | 1 | 969 |
| Costau Pensiwn Eraill | 1,504 | 1,504 | - | - | - | 1,437 |
| Ardoll Prentisiaethau | 36 | 36 | - | - | - | 31 |
| **Is-gyfanswm** | **12,800** | **12,490** | **74** | **131** | **105** | **11,711** |
| Taliadau ychwanegol mewn perthynas â secondiadau i mewn | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm costau net** | **12,800** | **12,490** | **74** | **131** | **105** | **11,711** |

Yn gyson â chanllawiau, mae costau cyflogaeth yn cynnwys taliadau a wneir mewn perthynas â staff contract. Cyfanswm cost cyflogau ac eithrio Costau Pensiwn Eraill oedd £11,296k (£12,800k-£1,504k) yn 2024-25 o gymharu â £10,274k (£11,711k-£1,437k) yn 2023-24.

Costau pensiwn eraill gwerth cyfanswm o £1,504k yw costau gwasanaeth (presennol a blaenorol) y cynllun ac, yn ogystal, unrhyw gostau pensiwn mewn perthynas â'r cynnydd yn y croniad tâl gwyliau. Mae'r £1,504k yn cynnwys cyfraniadau gwirioneddol y Cyflogwr yn seiliedig ar gyflogres o £2,262k, ond wedi'i leihau i £8k mewn perthynas â'r gostyngiad yn y croniad tâl gwyliau. Y gwahaniaeth gweddilliol o £750k (£830k yn 2023-24) yw'r tâl is y mae'n ofynnol ei godi o dan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS 26). Mae'r tâl uwch yn 2024-25 yn ymwneud â £750k mewn taliadau gwasanaeth cyfredol. Yn 2023-24, roedd y £1,437k yn cynnwys cyfraniadau cyflogwr o £2,267k ond wedi'i leihau £830k fel y nodir uchod.

| Niferoedd staff – cyfwerth ag amser llawn | 2024-25 | | | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Nifer Parhaol | Nifer Arall | Cyfanswm |
| Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr | 4 | 4 | 0 | 4 |
| Rheoleiddio'r Gweithlu | 90 | 90 | 0 | 90 |
| Gwella a Datblugy | 82 | 82 | 0 | 74 |
| Gwasanaethau Corfforaethol a TG | 53 | 52 | 1 | 45 |
| **Cyfansymiau** | **229** | **228** | **1** | **213** |

Mae'r tabl uchod yn cynrychioli nifer cyfartalog y bobl cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn.

## Cyfansoddiad y staff

Ar 31 Mawrth 2025, o'r gweithlu o 240, roedd 179 (75%) yn fenywod a 61 (25%) yn ddynion. Ar 31 Mawrth 2024, o gymharu, o'r gweithlu o 234, roedd 173 (74%) yn fenywod a 61 (26%) yn ddynion.

Mae'r niferoedd hyn yn cynnwys yr Uwch Dîm Rheoli sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a thri chyfarwyddwr. Roedd dau aelod o'r Uwch Dîm Rheoli yn fenywod (50%) a dau yn ddynion (50%), ac roedd hyn yn wir ar 31 Mawrth 2024.

Mae Cyfansoddiad Staff yn ôl teuluoedd swyddi fel a ganlyn:

| Cyfansoddiad y Staff yn ôl Teulu Swyddi | Benyw | Gwryw | Cyfanswm | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Tîm Gweithredol | 2 | 2 | 4 | 50% | 50% |
| Uwch Dîm Arwain | 5 | 3 | 8 | 63% | 37% |
| Tîm Rheoli | 56 | 18 | 74 | 76% | 24% |
| Tîm Technegol a Datblygu | 53 | 22 | 75 | 71% | 29% |
| Tîm Cymorth | 63 | 16 | 79 | 80% | 20% |
| **Cyfansymiau** | **179** | **61** | **240** | **75%** | **25%** |

## Data absenoldeb oherwydd salwch

Lefel salwch staff yn ystod 2024-25 oedd 3.5 % (3.6% yn 2023-24)

## Polisïau Staff, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru statws 'Buddsoddwyr mewn Pobl' ac mae ei bolisïau adnoddau dynol yn adlewyrchu arferion gorau fel rhan o'i ymrwymiad fel sefydliad sy'n dysgu. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn sicrhau bod ein holl arferion cyflogaeth a'n rhaglenni gwaith yn ymgorffori ac yn dangos nid yn unig ein dyletswydd gyhoeddus fel y'i nodir yn y Ddeddf Cydraddoldebau ond yn croesawu cydraddoldeb ac amrywiaeth fel gwerthoedd craidd sy'n sail i'r holl swyddogaethau a darpariaeth gwasanaethau o'r radd flaenaf gan ein gweithlu a'r sector. Byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgorffori dull hawliau dynol yn llawn yn ein holl waith. Drwy ei gylch gwaith, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn hyrwyddo ac yn dylanwadu ar bwysigrwydd dewis iaith i ddefnyddwyr gwasanaeth a sensitifrwydd iaith o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae gennym rôl arweiniol yn y gwaith o gyflawni Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru – y Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol. Fel cyflogwr, rydym yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog sy'n darparu amgylchedd sy'n meithrin ac yn datblygu staff i ddysgu a gwella eu sgiliau dwyieithog a chymryd perchnogaeth o ethos dwyieithog y sefydliad.

Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i gynnal y confensiynau a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb, ein staff ein hunain a'r rhai y deuwn i gysylltiad â hwy yn ystod ein gwaith, ac rydym yn llwyr gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb a gweithredu agored yn ein trefniadau cyflogau a graddio. Pan ystyriwyd ein hadroddiad Cyflog Cyfartal ym mis Fehefin 2024 , ni welsom unrhyw dystiolaeth o wahaniaethu ar sail cyflog mewn perthynas ag unrhyw nodweddion gwarchodedig. Fe wnaethom ystyried ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau ym mis Fehefin 2024 hefyd, a oedd yn 11%(canolrif) . Mae hyn o gymharu â'r sefyllfa ym mis Fehefin 23 pan oedd yn 11.5% (canolrif).

## Llais y gweithiwr

Yn ystod 2024-25, roedd gan ein Cyngor Partneriaeth Staff rôl hanfodol yn casglu a chyflwyno barn staff ar faterion pwysig yn cynnwys ad-drefnu a pholisïau allweddol. Cyflawnwyd hyn drwy fforymau staff rheolaidd, cyfarfod â thimau'n unigol a chynhyrchu dogfennau adborth i AD a'r Tîm Rheoli Gweithredol.

## Cymorth a llesiant

Fe wnaethom gyflwyno Rhaglen Cymorth i Weithwyr newydd yn 2023-24 gyda Gwasanaeth Cymorth Menopos ychwanegol.

Fel rhan o'r fframwaith hwn, gallwn ddefnyddio'r gwasanaethau canlynol:

- mynediad at wasanaeth cwnsela dros y ffôn 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos i'n holl staff
- cwnsela wyneb yn wyneb
- adnoddau ar-lein.

## Hyblygrwydd a Buddion

- gweithiodd 23% o'n gweithlu oriau ansafonol (llai na 36 awr yr wythnos neu oriau cywasgedig)
- mae'r cynllun talebau gofal plant wedi cau i ymgeiswyr newydd erbyn hyn, gyda thri aelod gweithredol ar 31 Mawrth 2025
- mae'r holl staff yn gallu gweithio dan batrwm hybrid o leoliadau cartref a swyddfa
- rydym yn gweithredu cynllun beicio i'r gwaith a chynllun car aberthu cyflog.

## Gwariant ar ymgynghori

Mae unrhyw gostau Ymgynghori mewn perthynas â barn arbenigol a gafwyd i helpu i wneud penderfyniadau busnes wedi'u cynnwys yn y costau Gweinyddu (Ffioedd Proffesiynol) yn y datganiadau ariannol. Ni chafwyd unrhyw gostau ymgynghori yn 2024-25 (23-34: 0k).

## Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres

Yn 2024-25, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gweithredu yn unol â llythyr Annwyl Swyddog Cyfrifyddu 1/14 mewn perthynas â Threfniadau Treth y Rhai a Benodir o'r Sector Cyhoeddus ac nid oes angen rhoi gwybod am unrhyw ymrwymiadau "oddi ar y gyflogres".

## Pecynnau Ymadael

Cytunwyd ar un pecyn ymadael yn 2024-25 a oedd yn yr amrediad £25,000-£50,000 ac mae wedi'i gynnwys yn y Costau Cyflog yn natganiadau ariannol 24-25. Roedd hyn yn ymwneud â mater staffio a nodwyd y dilynwyd y broses briodol ar ei gyfer a chymerwyd camau i liniaru risgiau ariannol ac enw da Gofal Cymdeithasol Cymru. Nid oedd unrhyw becynnau ymadael yn 2023-24.

# Atebolrwydd ac Archwilio

## Rheoleidd-dra gwariant

Ymdriniwyd â'r holl wariant yn 2024-25 yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol, y Datganiad Llywodraethu a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

## Ffioedd a Thaliadau

Yr incwm o'r Ffioedd Cofrestru ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 oedd £2,461k (2023-24:£2,305k). Fel y cytunwyd gan Lywodraeth Cymru, nid yw'r ffioedd a dderbynnir yn talu cost lawn cofrestru, felly mae'r gost ychwanegol yn cael ei hariannu gan Gymorth Grant.

## Rhwymedigaethau Digwyddiadol Annhebygol Iawn

Nid yw Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymwybodol o unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol annhebygol iawn.

## Tueddiadau gwariant hir

Rydym yn tybio y bydd lefelau gwariant y tymor yn aros yr un fath yn fras ar sail y dybiaeth y bydd ein lefel Cymorth Grant yn aros yr un fath.

**Sarah McCarty**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 28 Gorffennaf 2025

# Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

**Barn ar y ddatganiadau ariannol**

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Gofal Cymdeithasol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 o dan Atodlen 2 o Baragraff 16 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o wariant net cynhwysfawr, y Datganiad ar y sefyllfa ariannol, y Datganiad ar lifoedd arian parod, y Datganiad ar newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifo sylweddol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth baratoi yn gyfraith berthnasol ac mae'r DU wedi mabwysiadu safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM. Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion Gofal Cymdeithasol Cymru ar 31 Mawrth 2025 ac o'i wariant net, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifeg rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM; ac
- wedi'u eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a ddyroddwyd o dan Atodlen 2 o Baragraff 16 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

**Barn am reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Sail barn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

**Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail gyfredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail cyfrifeg busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail gynyddol cyfrifyddu Gofal Cymdeithasol Cymru i ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail gynyddol cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelodd y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad sy'n cael eu harchwilio ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Y Swyddog Cyfrifeg sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall mae'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau materol o'r fath neu gamddatganiadau materol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf i, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Atodlen 2 o Baragraff 16 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddydau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Atodlen 2 o Baragraff 16 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016; a
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

**Materion yr wyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- Nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â hwy gan fy nhîm;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan a archwiliwyd o'r Adroddiad Atebolrwydd yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifeg;
- ni ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru ynghylch tâl a thrafodion eraill;
- nid yw rhai datgeliadau o gydnabyddiaeth ariannol a bennir gan Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF yn cael eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddol; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol**

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifeg, mae'r Swyddog Cyfrifeg yn gyfrifol am:

- cynnal cofnodion cyfrifyddu digonol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn wir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn ei gyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- rheolaethau mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifo'n ei benderfynu yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau ariannol i fod yn rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; ac
- asesu gallu Gofal Cymdeithasol Cymru i barhau fel pryder parhaus, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â phryder parhaus a defnyddio sail barhaus cyfrifyddu oni bai bod y Swyddog Cyfrifeg yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 paragraff 16 o Ran 6 o Atodlen 2.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn ddeunydd os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr endid a archwiliwyd a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth neu honedig; ac
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabyddiaeth refeniw, cydnabyddiaeth gwariant a phosatio cyfnodolion anarferol;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Gofal Cymdeithasol Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithredu ynddynt, gan

ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Gofal Cymdeithasol Cymru;

- Cael dealltwriaeth o berthnasoedd parti cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy gweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datganiadau ariannol a phrofion i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a posibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthdroi rheolaeth rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl;
- a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau a nodwyd yn berthnasol a risgiau posibl i dwyll i bob aelod o'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid wrth ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Gofal Cymdeithasol Cymru, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

**Cyfrifoldebau archwilydd eraill**

Casglaf dystiolaeth ddigonol er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Cyfathrebaf â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Dyddiad: 28 Gorffennaf 2025

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Gofal Cymdeithasol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal cywirdeb gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn gyntaf.

# Datganiadau Ariannol

| **Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr** am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | Nodyn | 2024-25 £'000 | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff | 15 | 12,800 | 11,711 |
| Gwariant rhaglenni | | | |
| Cymorth hyfforddiant a grantiau eraill | 4(i) | 13,221 | 12,574 |
| Gwariant rhaglenni nad yw'n grant | 4(ii) | 3,305 | 4,726 |
| Costau gweinyddu | 5 | 1,627 | 2,105 |
| Dibrisio ac amorteiddio | 6,7 and 8 | 195 | 331 |
| Tâl llog pensiwn | | - | - |
| | | 31,148 | 31,447 |
| **Incwm** | | | |
| Incwm o Weithgareddau | | | |
| Incwm Ffioedd Cofrestru | | 2,461 | 2,305 |
| Incwm Arall | | | |
| Ardystio Prentisiaethau | | 94 | 76 |
| Gweithlu Iechyd Meddwl | | 419 | 505 |
| Adnodd Data Cenedlaethol | | 88 | 296 |
| Canolfan Gwyddorau Bywyd | | 24 | - |
| Grant Strategol Gwirfoddoli Cymru (CGGC) | | 52 | 13 |
| Llythrennedd ac Aeddfedrwydd Digidol (CLILC) | | 183 | - |
| Ymchwil Data Gweinyddol Cymru | | 67 | 67 |
| Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | | 106 | 109 |
| Incwm Amrywiol | | 17 | 20 |
| Credyd Llog Pensiwn | 16 | 10 | 50 |
| | | 3,521 | 3,441 |
| Gwariant Net | | 27,627 | 28,006 |
| (Gwarged) ar waredu'r les | | (1) | (7) |
| Llog derbyniadwy | 3(i) | (27) | (27) |
| Llog i'w ildio i Lywodraeth Cymru | 3(ii) | 27 | 27 |
| Llog IFRS 16 sy'n daladwy | | 15 | 12 |
| Gwariant net ar ôl llog | | **27,641** | **28,011** |
| | | | |
| **Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | |
| Ailfesur actiwaraidd | 16 | 460 | 1,990 |
| **Cyfanswm Gwariant Cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025** | | **28,101** | **30,001** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau xx i xx yn rhan o'r cyfrifon hyn.

| **Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol** ar 31 Mawrth 2025 | | 2025 | | 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Ased Pensiwn | 16 | - | | - | |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 6 | 114 | | 153 | |
| Asedau Anniriaethol | 7 | 21 | | 34 | |
| Ased Hawl i Ddefnyddio | 8 | 416 | | 639 | |
| **Cyfanswm Asedau Anghyfredol** | | | 551 | | 826 |
| | | | | | |
| **Asedau Cyfredol:** | | | | | |
| Symiau derbyniadwy masnach ac eraill | 10 | 1,514 | | 1,506 | |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 11 | 420 | | 217 | |
| **Cyfanswm Asedau Cyfredol** | | | 1,934 | | 1,723 |
| **Cyfanswm Asedau** | | | **2,485** | | **2,549** |
| | | | | | |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | | | |
| Symiau taladwy masnachol ac eraill | 12 | (659) | | (937) | |
| Prydles cyllid IFRS 16 o fewn blwyddyn | 13 | (107) | | (155) | |
| **Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | (766) | | (1,092) |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **1,719** | | **1,457** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Prydles Cyllid IFRS 16 | 13 | (290) | | (486) | |
| Rhwymedigaethau Pensiwn | 16 | (810) | | (1,110) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | | (1,100) | | (1,596) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | | **619** | | **(139)** |
| | | | | | |
| **Cronfeydd wrth gefn** | | | | | |
| Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn | | | 1,429 | | 971 |
| Cronfa Gadw Pensiwn | | | (810) | | (1,110) |
| **Cyfanswm** | | | **619** | | **(139)** |

Mae nodiadau ar dudalennau 67 i 90 yn rhan o'r cyfrifon hyn

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 63 i 64 gan Fwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru ar 17 Gorffenaf ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

**Sarah McCarty**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 28 Gorffennaf 2025

| **Datganiad ar Lifoedd Arian Parod**<br>am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | **Nodyn** | **2024-25 £'000** | **2023-24 £'000** |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd Arian o Weithgareddau Gweithredu** | | | |
| Gwariant net ar ôl llog | | (27,641) | (28,011) |
| Addasu ar gyfer Dibrisiant ac Amorteiddio | | 195 | 331 |
| Addasiad ar gyfer Costau cyllid pensiwn(net) | | (760) | (880) |
| (Cynnydd) mewn symiau derbyniadwy masnach ac eraill | | (8) | (728) |
| (Lleihad)/Cynnydd mewn taliadau masnach a thaliadau eraill | | (278) | 645 |
| (All-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu | | **(28,492)** | **(28,643)** |
| | | | |
| **Llifoedd arian o Weithgareddau Buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 6 | (21) | (26) |
| Taliad i gaffael asedau anniriaethol | 7 | - | - |
| | | **(21)** | **(26)** |
| **Llifoedd arian o Weithgareddau Cyllido** | | | |
| Cyllid Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Cyfalaf) | 2 | 28,859 | 28,636 |
| IFRS 16 | 13 | (143) | (182) |
| **Cyllido net** | | **28,716** | **28,454** |
| | | | |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod** | | **203** | **(215)** |
| | | | |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod | 11 | **217** | **432** |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod | 11 | **420** | **217** |

Mae nodiadau ar dudalennau 67 i 90 yn rhan o'r cyfrifon hyn

| **Datganiad ar Newidiadau yn Ecwti Trethdalwyr** am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | **Cronfa bensiwn wrth gefn £'000** | **Cyffredinol wrth gefn £'000** | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2023** | **-** | **1,226** | **1,226** |
| | | | |
| **Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 2023-24** | | | |
| Cyllid Llywodraeth Cymru | | 28,636 | 28,636 |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn-Cyfalaf | (1,110) | 1,110 | - |
| Gwariant Cynhwysfawr am y flwyddyn | | (30,001) | (30,001) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | **(1,110)** | **971** | **(139)** |
| | | | |
| **Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 2024-25** | | | |
| Cyllid Llywodraeth Cymru | | 28,859 | 28,859 |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn-Cyfalaf | 300 | (300) | - |
| Gwariant Cynhwysfawr am y flwyddyn | | (28,101) | (28,101) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **(810)** | **1,429** | **619** |

Mae nodiadau ar dudalennau 67 i 90 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau ar y Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

## Datganiad o Bolisïau cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2024-25 a gyhoeddwyd gan yr awdurdodau perthnasol.

Mae'r polisïau cyfrifyddu yn y Llawlyfr yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf addas i amgylchiadau Gofal Cymdeithasol Cymru, at ddiben rhoi barn gywir a theg. Disgrifir isod y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Cawsant eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

### 1(i) Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol, yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru gyda chydsyniad Trysorlys EF. Fe'u paratowyd o dan y confensiwn cost hanesyddol addasedig.

### 1(ii) Ariannu

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cael arian gan Lywodraeth Cymru i ariannu ei weithgareddau refeniw a chyfalaf cyffredinol. Ystyrir y symiau hyn yn rhai ariannu ac fe'u credydir i'r Gronfa Gyffredinol adeg eu derbyn.

### 1(iii) Incwm Ffioedd Cofrestru

Mae hwn yn deillio o ffioedd a godir am gofrestru ar y Gofrestr Gofal Cymdeithasol. Nid ystyrir bod y ffi hon ar gyfer gwasanaeth parhaus ond ar gyfer cofrestru yn y gofrestr yn unig. Yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS 15) Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriad, cydnabyddir refeniw ar adeg cofrestru.

### 1(iv) Incwm Ardystio Prentisiaethau

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn derbyn incwm ar gyfer gwirio cydymffurfiaeth, argraffu a phostio tystysgrifau Prentisiaeth fel rhan o'i waith ar gyfer yr Awdurdod Ardystio Prentisiaethau. Mae'r refeniw sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau yn cael ei gydnabod dros amser yn unol â chwblhau'r broses o ddarparu'r gwasanaethau. Hefyd, gan fod yr holl risgiau a manteision sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaethau yn nwylo Gofal Cymdeithasol Cymru, mae'r incwm yn cael ei gyfrif ar sail gros yn unol ag IFRS 15 ac mae'n cydnabod unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hyn ar wahân.

### 1(v) Cymorth hyfforddiant a Grantiau Eraill

Yn ystod 2024-25, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gwneud taliadau o dan y **Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol** sy'n gynllun cymhelliant i hyfforddi myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gyrsiau hyfforddiant gwaith cymdeithasol israddedig ac ôl-raddedig. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys taliadau i fyfyrwyr o fwrsariaeth nas asesir ar sail incwm ac elfen ychwanegol a asesir ar sail incwm ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig.

Yn ogystal, telir **Lwfans Cyfle Dysgu Ymarfer** i bob myfyriwr. Cydnabyddir y gwariant hwn fel rhwymedigaeth pan fydd yr hawliadau grant perthnasol mewn perthynas â gwahanol elfennau'r cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol yn cael eu derbyn. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith, unwaith y bydd y grant wedi'i gymeradwyo, na all Gofal Cymdeithasol Cymru osgoi'r gost hon, oherwydd ar ôl profi cymhwystra nid oes unrhyw amodau mewn perthynas â'r grant sydd o fewn rheolaeth Gofal Cymdeithasol Cymru i gyfyngu ar y swm sy'n daladwy.

Darperir **Cyllid Cyfle Dysgu Ymarfer (PLOF)** i Awdurdodau Lleol fel cyfraniad tuag at gostau sicrhau Cyfleoedd Dysgu Ymarfer i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau Gwaith Cymdeithasol cymeradwy yng Nghymru. Mae'r grant yn cael ei gyfrif fel rhwymedigaeth a bydd y gwariant yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr unwaith y bydd y cais yn llwyddiannus. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith na all Gofal Cymdeithasol Cymru osgoi talu'r rhwymedigaeth hon ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw amodau mewn perthynas â'r grant a fyddai'n cyfyngu ar y swm sy'n daladwy.

Ers 1 Ebrill 2017, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi bod yn gyfrifol am weinyddu grant **Rhaglen Ddatblygu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP)**. Darperir y grant i gefnogi Awdurdodau Lleol i hyfforddi a datblygu eu staff eu hunain. Mae'r cyllid sydd ar gael gan Gofal Cymdeithasol Cymru drwy SCWDP yn 2024-25 yn darparu 70% o gost y rhaglen, sef £7,640,051 ar hyn o bryd. Bydd y 30% sy'n weddill yn cael ei ariannu gan Awdurdodau Lleol. Yr amodau sy'n gysylltiedig â'r grant yw bod yn rhaid gwario'r grant ar wariant cymwys a rhaid ei wario o fewn y flwyddyn ariannol. Felly, cydnabyddir rhwymedigaeth am y grant unwaith y bydd y llythyr cynnig grant wedi'i ddarparu. Mae hyn ar y sail nad oes unrhyw amodau ar hyn o bryd sy'n dal i fod o dan reolaeth Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n cyfyngu ar y costau cymwys sy'n codi.

Mae grantiau eraill yn cynnwys:

- Grantiau Hwyluso Rhanbarthol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol Statudol,
- Grantiau Pobl sy'n Defnyddio Gwasanaethau a Gofalwyr i Sefydliadau Addysg Uwch.

Cydnabyddir y rhwymedigaethau ar gyfer y grantiau hyn unwaith y bydd y grant wedi'i hawlio gan nad oes unrhyw amodau ar hyn o bryd sy'n dal i fod o dan reolaeth Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n cyfyngu ar y swm sy'n daladwy.

### 1(vi) Symiau masnach sy'n dderbyniadwy ac asedau cyfredol eraill – Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol

Yn ystod 2024-25, terfynodd nifer fach o fyfyrwyr eu hyfforddiant yn gynnar, gan arwain at ad-daliad o'r dyfarniad cyfan neu ran ohono. Cyfanswm yr ad-daliad a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2025 oedd £91,000 (£103,000: 31 Mawrth 2024) ond roedd wedi'i leihau gan y ddarpariaeth dyled ddrwg o £46,000 ac mae'r swm hwn wedi'i gynnwys yn y symiau masnach sy'n dderbyniadwy ac asedau cyfredol eraill yn nodyn 10. Polisi Gofal Cymdeithasol Cymru yw ceisio ad-dalu'r cronfeydd hyn yn llawn.

### 1(vii) Eiddo, peiriannau ac offer

Mae eiddo, peiriannau ac offer â gwerth unigol neu grŵp o £5,000 neu fwy wedi cael eu cyfalafu. Mae eiddo, peiriannau ac offer wedi'u prisio ar gost hanesyddol ar 31 Mawrth 2025, gan nad yw unrhyw addasiadau ailbrisio'n berthnasol ym marn Gofal Cymdeithasol Cymru. Yn sgil adolygiad, diwygiwyd y trothwy ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23, gyda'r trothwy blaenorol yn £1,000.

### 1(viii) Asedau Anniriaethol

Mae pryniannau Technoleg Gwybodaeth a Thrwyddedau ag iddynt werth unigol o £5,000 neu fwy wedi cael eu cyfalafu. Mae costau Technoleg Gwybodaeth a Thrwyddedau wedi'u prisio ar gost hanesyddol ar 31 Mawrth 2025, gan nad yw unrhyw addasiadau ailbrisio'n berthnasol ym marn Gofal Cymdeithasol Cymru. Yn sgil adolygiad, diwygiwyd y trothwy ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23, gyda'r trothwy blaenorol yn £1,000.

**1(ix) Dibrisiant ac Amorteiddio Eiddo, peiriannau ac offer ac Asedau Anniriaethol**

Darperir dibrisiant ac amorteiddiad ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu cost hanesyddol pob ased ar sail llinell syth dros oes economaidd ddefnyddiol yr ased fel yr amlinellir isod, ac eithrio ar gyfer adnewyddu swyddfeydd, lle caiff costau eu dileu dros weddill cyfnod prydlesi'r swyddfa pan gânt eu prynu.

- Offer Cyfathrebu - pum mlynedd;
- Dodrefn - deng mlynedd;
- T.G. (Eiddo, Peiriannau ac offer) - pedair blynedd;
- Costau llety - cyfnod sy'n weddill o brydlesi llety pan gânt eu prynu
- Technoleg Gwybodaeth a Thrwyddedau (Asedau Anniriaethol) - pedair blynedd

Cyfrifir dibrisiant ac amorteiddiad yn fisol ac mae'n dechrau yn y mis ar ôl y mis prynu. O'r herwydd, ni fydd pryniannau a wnaed ym mis Mawrth 2025 yn dechrau dibrisio/amorteiddio tan flwyddyn ariannol 2025-26. Yr eithriad i'r rheol hon yw costau adnewyddu adeiladau lle cyfrifir y tâl dibrisiant yn ddyddiol.

**1(x) Asedau hawl i ddefnyddio**

Mae ased hawl i ddefnyddio ac atebolrwydd les yn cael ei gydnabod ar y dyddiad cychwyn ac fe'i mesurir ar werth presennol atebolrwydd y les, gyda gostyngiad ar y gyfradd fenthyca gynyddrannol a weithredir ym mhapur System Gwariant Cyhoeddus (PES) y Trysorlys.

Mae ased hawl i ddefnyddio'n cael ei dibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth o ddyddiad dechrau'r brydles tan ddiwedd ei hoes ddefnyddiol, neu ddiwedd cyfnod y les, p'un bynnag sy'n dod gyntaf.

Defnyddiodd Gofal Cymdeithasol Cymru ddull hwyluso ymarferol wrth gymhwyso IFRS 16 i lesau a ddosbarthwyd yn flaenorol fel lesau gweithredu o dan IAS 17 ac nid oedd yn cydnabod asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaethau am lesau gwerth isel (e.e. llungopiwyr).

### Gweithredu a Thybiaethau

Mae IFRS 16 wedi'i gymhwyso gan ddefnyddio'r dull ôl-weithredol wedi'i addasu, felly ni chafodd yr wybodaeth gymharol ei hailddatgan yn 2022-23 ac mae'n parhau i gael ei hadrodd o dan IAS 17 "Leases" ac IFRIC 4 "Determining whether an arrangement contains a lease". Mae lesau gweithredu IAS 17 wedi'u cynnwys yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol yn awr fel rhwymedigaeth les ac ased hawl i ddefnyddio.

### Triniaeth flaenorol

Cyn 2022-23, fe wnaethom ddosbarthu lesau sy'n trosglwyddo llawer o'r holl risgiau a manteision perchnogaeth fel lesau cyllid.

Mae pob les ac eithrio lesau cyllid yn cael eu dosbarthu fel lesoedd gweithredol. Ni chydnabuwyd asedau a ddaliwyd yn flaenorol dan lesau gweithredol yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Cydnabuwyd taliadau yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros dymor y les. Roedd cymhellion les yn cael eu cydnabod fel rhan annatod o gyfanswm cost y les, dros gyfnod y les.

### Polisi sy'n berthnasol o 1 Ebrill 2022

Ar gychwyn contract, caiff ei asesu i benderfynu a yw'n cynnwys les. Mae contract naill ai'n les neu'n cynnwys les os yw'r contract yn cyfleu'r hawl i reoli'r defnydd o ased a nodwyd am gyfnod. Mae hyn yn cynnwys asedau nad oes unrhyw ystyriaeth ar eu cyfer. Er mwyn asesu a yw contract yn cyfleu'r hawl i reoli'r defnydd o ased a nodwyd, byddem yn asesu:

- Mae'r contract yn cynnwys defnyddio ased a nodwyd;
- Mae gennym yr hawl i gael fwy neu lai'r holl fudd economaidd o ddefnyddio'r ased gydol y cyfnod defnyddio, a
- Mae gennym yr hawl i gyfeirio'r defnydd o'r ased

Mae'r polisi'n cael ei gymhwyso i gontractau yr ymrwymir iddynt, neu a newidir, ar neu ar ôl 1 Ebrill 2022.

## 1(xi) Treth ar Werth

Nid yw Gofal Cymdeithasol Cymru wedi'i gofrestru ar gyfer Treth ar Werth (TAW). Adroddir ar yr holl wariant gan gynnwys gwariant cyfalaf gan gynnwys TAW, lle bo hynny'n berthnasol, gan na ellir adennill TAW.

## 1(xii) Costau Pensiwn

Mae gweithwyr a chyn-weithwyr yn dod o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sy'n gynllun a ariennir gan sawl cyflogwr. Darperir mwy o wybodaeth yn nodyn 16 i'r Cyfrifon hyn lle mae'r prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwarïaid wedi'u hamlinellu.

Datgelwyd Costau Pensiwn yn unol ag IAS 19 Buddion Cyflogeion. Mae IAS 19 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu gwybodaeth benodol yn ymwneud ag asedau, rhwymedigaethau ac incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â'r Cynllun.

## 1(xiii) Darpariaethau a Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol

### Darpariaethau

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol lle mae rhwymedigaeth bresennol ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, mae'n debygol y bydd yn ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru setlo'r rhwymedigaeth a gellir gwneud amcangyfrif ariannol dibynadwy.

### Rhwymedigaethau Digwyddiadol

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn datgelu rhwymedigaethau posibl sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol lle mae'r canlyniad yn seiliedig ar ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol. Gwneir datgeliad lle nad yw rhwymedigaeth gyfredol yn debygol neu na ellir ei mesur yn ddibynadwy.

### Asedau Digwyddiadol

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn datgelu ased posibl pan fydd y canlyniad yn seiliedig ar un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt o dan reolaeth Gofal Cymdeithasol Cymru.

## 2. Dadansoddiad o Wariant Net yn ôl Segment

Mae'r Datganiad o Gyfrif Gwariant Net Cynhwysfawr yn adlewyrchu'r segmentau y mae canlyniadau gweithredu Gofal Cymdeithasol Cymru yn eu hadrodd i'r Tîm Rheoli Gweithredol er mwyn gallu asesu perfformiad yn ôl y segmentau hyn. O ganlyniad, ni ddarperir dadansoddiad pellach o Wariant Net fesul Segment.

| 3. Cyllid Llywodraeth Cymru | 2024-25 £'000 | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| Cymorth Grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru | 28,859 | 28,636 |
| Swm a gredydir i'r Gronfa Gyffredinol | 28,859 | 28,636 |

Fel yr amlinellir yn Nodyn 1(ii), mae cyfanswm y grantiau o £28,859k (2023-24:£28,636k) yn cael ei gredydu i'r Gronfa Gyffredinol ar ôl ei dderbyn erbyn hyn.

| 3(i). Incwm na ellir ei gadw | 2024-25 £'000 | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| Llog ar gyfrif cadw | 27 | 27 |
| **Cyfanswm yr incwm na ellir ei gadw** | **27** | **27** |

| 3(ii). Cysoni arian parod a dderbynnir o incwm na ellir ei gadw gyda symiau a ad-dalwyd i Lywodraeth Cymru | 2024-25 £'000 | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| Arian a dderbyniwyd (incwm yn fwy na'r throthwy Llywodraeth Cymru) | 27 | 27 |
| Cyfanswm yr incwm sy'n ad-daladwy | 27 | 27 |
| Ad-daliad arian parod | 27 | 27 |
| **Yn ddyledus i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn** | - | - |

Mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru rwymedigaeth i ad-dalu llog Llywodraeth Cymru a gafwyd yn ystod y flwyddyn. Talwyd y llog o £27,000 a gafwyd i Lywodraeth Cymru.

# Costau Rhaglenni

| 4(i). Cymorth Hyfforddi a chynlluniau cyllido hirdymor eraill | 2024-25 £'000 | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| Taliadau'r Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol | 2,605 | 2,781 |
| Cyllid Cyfle Dysgu Ymarfer | 1,341 | 1,289 |
| Pobl yn defnyddio Gwasanaethau a Gofalwyr mewn Hyfforddiant Gwaith Cymdeithasol | 64 | 51 |
| Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru | 7,640 | 7,640 |
| | **11,650** | **11,761** |
| **Grantiau Eraill** | | |
| Grantiau i Ranbarthau | 1,571 | 813 |
| Ymchwil - Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth | - | - |
| | **13,221** | **12,574** |

| 4(ii). Gwariant rhaglenni eraill | 2024-25 £'000 | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| Improvement and development | 2,062 | 3,264 |
| Rheoleiddio'r Gweithlu gan gynnwys Rheoleiddio Hyfforddiant Gwaith Cymdeithasol | 1,243 | 1,462 |
| | **3,305** | **4,726** |

| 5. Costau Gweinyddu | 2024-25<br>£'000 | 2023-24<br>£'000 |
|---|---|---|
| Treuliau'r Cadeirydd, aelodau, aelodau'r panel a staff | 79 | 68 |
| Costau staff eraill | 199 | 391 |
| Costau eraill y Cadeirydd, aelodau ac aelodau'r panel | 26 | 10 |
| Costau Eraill yn ymwneud ag Adeiladau | 253 | 520 |
| Gweithdai, seminarau, hyrwyddiadau, cyhoeddiadau | 90 | 99 |
| Offer a meddalwedd | 611 | 608 |
| Gweinyddu | 74 | 76 |
| Gwaith archwilio-Archwilio allanol | 26 | 25 |
| Ffioedd proffesiynol eraill | 269 | 308 |
| | **1,627** | **2,105** |

| 6. Eiddo, Peiriannau ac Offer blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | Llety Adnewyddu £'000 | Celfi a gosodiadau £'000 | Technoleg Gwybodaeth £'000 | Arweinyddiaeth Gwariant | Cyfansymiau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | **255** | **9** | **347** | **-** | **611** |
| Ychwanegiadau yn y cyfnod | - | - | - | 21 | 21 |
| Gwarediadau yn y cyfnod | (20) | (1) | (90) | - | (111) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **235** | **8** | **257** | **21** | **521** |
| **Dibrisio** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | **154** | **8** | **296** | **-** | **458** |
| Codwyd tâl yn ystod y flwyddyn | 21 | - | 39 | - | 60 |
| Gwarediadau yn y cyfnod | (20) | (1) | (90) | - | (111) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **155** | **7** | **245** | | **407** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **80** | **1** | **12** | **21** | **114** |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | **101** | **1** | **51** | **-** | **153** |

| blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 | Llety Adnewyddu £'000 | Celfi a gosodiadau £'000 | Technoleg Gwybodaeth £'000 | Arweinyddiaeth Gwariant | Cyfansymiau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | **336** | **9** | **385** | **-** | **730** |
| Ychwanegiadau yn y cyfnod | 26 | - | - | - | 26 |
| Gwarediadau yn y cyfnod | (107) | - | (38) | - | (145) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **255** | **9** | **347** | **-** | **611** |
| **Dibrisio** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | **245** | **8** | **284** | **-** | **537** |
| Codwyd tâl yn ystod y flwyddyn | 16 | | 50 | - | 66 |
| Gwarediadau yn y cyfnod | (107) | | (38) | - | (145) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **154** | **8** | **296** | **-** | **458** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **101** | **1** | **51** | **-** | **153** |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | **91** | **1** | **101** | **-** | **193** |

| **7. Asedau anghyffyrddadwy** blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 | **Technoleg Gwybodaeth £'000** | **Trwydde-dau £'000** | **Gwariant Datblygu £'000** | **Cyfansy-miau £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | **9** | **69** | **-** | **78** |
| Ychwanegiadau yn y cyfnod | - | - | - | **-** |
| Trosglwyddo o Ddatblygu | - | - | - | - |
| Gwarediadau yn y cyfnod | - | (8) | - | **(8)** |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **9** | **61** | **-** | **70** |
| **Amorteiddio** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | **9** | **35** | **-** | **44** |
| Codwyd tâl yn ystod y flwyddyn | - | 13 | - | **13** |
| Gwarediadau yn y cyfnod | - | (8) | - | **(8)** |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **9** | **40** | **-** | **49** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **-** | **21** | **-** | **21** |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | **-** | **34** | **-** | **34** |

| blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 | **Technoleg Gwybodaeth £'000** | **Trwydde-dau £'000** | **Gwariant Datblygu £'000** | **Cyfansy-miau £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | **9** | **110** | **-** | **119** |
| Ychwanegiadau yn y cyfnod | - | - | - | **-** |
| Trosglwyddo o Ddatblygu | - | - | - | **-** |
| Gwarediadau yn y cyfnod | - | (41) | - | **(41)** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **9** | **69** | **-** | **78** |
| **Amorteiddio** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | **9** | **53** | **-** | **62** |
| Codwyd tâl yn ystod y flwyddyn | - | 23 | - | **23** |
| Gwarediadau yn y cyfnod | - | (41) | - | **(41)** |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **9** | **35** | **-** | **44** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **-** | **34** | **-** | **34** |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | **-** | **57** | **-** | **57** |

| 8. Ased hawl i ddefnyddiot 2024-25 | Adeiladau £,000 |
|---|---|
| **Cost** | |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | 794 |
| Ychwanegiadau yn y cyfnod | - |
| Gwarediadau yn y cyfnod | (154) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **640** |
| | |
| **Dibrisiant** | |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | 155 |
| Codwyd tâl yn ystod y flwyddyn | 122 |
| Gwarediadau yn y cyfnod | (53) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **224** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2025** | **416** |

| Ased hawl i ddefnyddio 2023-2024 | Adeiladau £,000 |
|---|---|
| **Cost** | |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | 1,637 |
| Ychwanegiadau yn y cyfnod | 258 |
| Gwarediadau yn y cyfnod | (1,101) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **794** |
| | |
| **Dibrisiant** | |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | 230 |
| Codwyd tâl yn ystod y flwyddyn | 242 |
| Gwarediadau yn y cyfnod | (317) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **155** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2024** | **639** |

Yn unol ag IFRS16, o fis Ebrill 2022 mae asedau Hawl i Ddefnyddio o £1.407 miliwn yn gysylltiedig ag eiddo ar les nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o eiddo buddsoddi wedi'u cydnabod. Am ragor o wybodaeth, gweler Nodyn 1 x) Ased hawl i ddefnyddio.

Mae'r gostyngiad mewn Gwerth Llyfr Net yn 2024-25 yn adlewyrchu gwaredu Ased Hawl i Ddefnyddio. Roedd cymal torri yn ein les yn swyddfa Llanelwy yn caniatáu i ni ddod â'r les i ben.

## 9. Offerynnau Ariannol

Gan fod gofynion ariannol Gofal Cymdeithasol Cymru yn cael eu bodloni'n bennaf drwy Gymorth Grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl fwy cyfyngedig o ran creu a rheoli risg nag a fyddai'n berthnasol i gorff nad yw'n perthyn i'r sector cyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig GCC ac felly nid yw GCC yn agored i lawer o risg credyd, hylifedd na'r farchnad.

| **10. Symiau derbyniadwy drwy fasnach ac asedau cyfredol eraill** ar 31 Mawrth | **2025 £'000** | **2024 £'000** |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach ac incwm cronedig | | |
| Llywodraeth Cymru | 173 | 176 |
| Awdurdodau Lleol gan gynnwys CLILC | 149 | 6 |
| Dyledwyr Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol llai darpariaeth ar gyfer dyledion gwael | 45 | 103 |
| Cyrff eraill | 510 | 708 |
| Symiau derbyniadwy eraill | | |
| Rhagdaliadau | 637 | 513 |
| | **1,514** | **1,506** |

Mae dyledwyr y Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol yn ad-daladwy dros fwy nag un flwyddyn ariannol, gyda myfyrwyr yn cytuno ar gontractau ad-dalu ac yn llofnodi contractau sy'n ystyried eu hamgylchiadau unigol. Fodd bynnag, at ddibenion datgelu, mae'r holl falansau wedi'u cynnwys fel rhai sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn ariannol. Cyfanswm y ddyled ar 31 Mawrth 2025 oedd £91,000 ond gostyngodd hyn yn sgil creu darpariaeth dyled ddrwg o £46,000.

| **11. Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod** | **2024-25 £'000** | **2023-24 £'000** |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 217 | 432 |
| Newid net mewn balansau arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 203 | (215) |
| Balans ar 31 Mawrth | **420** | **217** |

Roedd y balansau ar 1 Ebrill 2023, 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 yn cael eu cadw mewn Banciau Masnachol.

| **12. Symiau taladwy drwy fasnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill** ar 31 Mawrth | **2025 £'000** | **2024 £'000** |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Taliadau masnachol | 49 | - |
| Symiau taladwy eraill | | |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 610 | 937 |
| | **659** | **937** |

| **13. Atebolrwydd Hawl i Ddefnyddio 2024-25** | **Buildings £,000** |
|---|---|
| **Ar 1 Ebrill 2024** | 641 |
| Ychwanegiadau yn y cyfnod | - |
| Gwarediadau yn y cyfnod | (102) |
| Ad-dalwyd yn y flwyddyn | (157) |
| Llog a godwyd | 15 |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **397** |
| | |
| **Dadansoddiad o amseroedd disgwyliedig rhwymedigaethau'r dyfodol** | |
| Heb fod yn fwy na blwyddyn | 107 |
| Yn fwy na blwyddyn a heb fod yn fwy na phum mlynedd | 290 |
| Mwy na phum mlynedd | - |
| **Cyfanswm** | **397** |

| **Atebolrwydd Hawl i Ddefnyddio 2023-24** | **Buildings £,000** |
|---|---|
| **Ar 1 Ebrill 2023** | 1,349 |
| Ychwanegiadau yn y cyfnod | 258 |
| Gwarediadau yn y cyfnod | (792) |
| Ad-dalwyd yn y flwyddyn | (186) |
| Llog a godwyd | 12 |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **641** |
| | |
| **Dadansoddiad o amseroedd disgwyliedig rhwymedigaethau'r dyfodol** | |
| Heb fod yn fwy na blwyddyn | 155 |
| Yn fwy na blwyddyn a heb fod yn fwy na phum mlynedd | 478 |
| Mwy na phum mlynedd | 8 |
| **Cyfanswm** | **641** |

## 14. Ymrwymiadau Cyfalaf

Roedd ymrwymiadau cyfalaf dan gontract ar 31 Mawrth 2025 o £2,000 nad oeddent wedi'u cynnwys fel arall yn y datganiadau ariannol hyn (Dim ar 31 Mawrth 2024).

| 15. Costau Staff | 2024-25 Cyfanswm Costau £'000 | 2023-24 Cyfanswm Costau £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau a thaliadau | 10,191 | 9,274 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 1,069 | 969 |
| Costau Pensiwn Eraill | 1,504 | 1,437 |
| Ardoll Prentisiaethau | 36 | 31 |
| **Is-gyfanswm** | **12,800** | **11,711** |
| Llai adenillion mewn perthynas â throsglwyddiadau allanol | - | - |
| **Cyfanswm costau net** | **12,800** | **11,711** |

## 16. Rhwymedigaethau buddion ymddeol

**(i) Staff Presennol a Phensiynwyr**

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru'n cymryd rhan mewn cynllun pensiwn a ariennir gan sawl cyflogwr sy'n darparu buddion ar oedran pensiwn arferol sy'n gysylltiedig ag oedran pensiwn y wladwriaeth (ond gydag isafswm oedran o 65). Cedwir asedau'r cynllun ar wahân i asedau Gofal Cymdeithasol Cymru ac fe'u gweinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Cafodd cyfran Gofal Cymdeithasol Cymru o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun ei nodi ar wahân am y tro cyntaf yn y prisiad actiwaraidd ar 31 Mawrth 2004.

**16(ii) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cynllun buddion wedi'u diffinio**

Mae'r Cynllun wedi'i gontractio allan o Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion (SERPS) ac nid yw'n destun gofynion pensiwn sylfaenol Deddf Pensiynau 1995. Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 (rheoliad 77) yn pennu bod yn rhaid cynnal prisiadau actiwaraidd ar 31 Mawrth 1998, a phob tair blynedd wedi hynny. Mae'r datgeliadau isod yn ymwneud â Chynllun Pensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac fe'u darparwyd gan actiwari'r Cynllun, sef Aon Hewitt Limited, Llundain.

**16(iii) Canlyniadau o dan Safon Gyfrifyddu Ryngwladol rhif 19 (Datgelu)**

Mae'r datgeliadau isod yn gysylltiedig â'r rhwymedigaethau a ariennir o fewn Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf (y 'Gronfa') sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS). Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun buddion diffiniedig a ariennir gyda buddion a enillwyd hyd at 31 Mawrth 2014 yn gysylltiedig â chyflog terfynol. Mae'r buddion ar ôl 31 Mawrth 2014 yn seiliedig ar gynllun Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u hailbrisio. Mae manylion y buddion a enillwyd dros y cyfnod a gwmpesir gan y datgeliad hwn i'w gweld yn 'Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013' (fel y'u diwygiwyd) a 'Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Diwygio) 2014' (fel y'u diwygiwyd).

**Trefniadau Ariannu / Llywodraethu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Fel Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a ariennir mae'n ofynnol i'r Cyflogwr a'i gyflogeion dalu cyfraniadau i'r Gronfa, a gyfrifir ar lefel a fwriadwyd i gydbwyso'r rhwymedigaethau pensiwn ag asedau buddsoddi. Mae gwybodaeth am y fframwaith ar gyfer cyfrifo cyfraniadau sydd i'w talu allan wedi'i hamlinellu yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 a Datganiad Strategaeth Ariannu'r Gronfa. Roedd y prisiad actiwaraidd diwethaf ar 31 Mawrth 2022 ac mae'r cyfraniadau sydd i'w talu hyd at 31 Mawrth 2026 yn deillio o'r prisiad hwnnw wedi'u nodi yn Nhystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau'r Gronfa. Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sy'n gyfrifol am lywodraethu'r Gronfa.

**Asedau**

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru'n cydnabod enillion a cholledion yn llawn, ar unwaith drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Yn unol â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol rhif 19 - Buddiannau Cyflogeion (IAS 19), mae'n ofynnol i ddatgelu gwybodaeth benodol am asedau, rhwymedigaethau ac incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â chynlluniau pensiwn.

Mae'r asedau a ddyrannwyd i'r Cyflogwr yn y Gronfa yn rhai tybiannol a rhagdybir eu bod yn cael eu buddsoddi yn unol â buddsoddiadau'r Gronfa at ddibenion cyfrifo'r enillion sydd i'w cymhwyso i'r asedau tybiannol hyn dros y cyfnod cyfrifyddu. Mae'r gronfa'n fawr ac mae cyfran sylweddol o'i hasedau yn fuddsoddiadau hylif. O ganlyniad, ni fydd cyfyngiad sylweddol ar wireddu asedau os oes angen gwneud taliad mawr o'r Gronfa mewn perthynas â rhwymedigaethau cyflogwr. Mae'r asedau wedi'u buddsoddi mewn amrywiaeth o fuddsoddiadau a dangosir rhaniad bras yr asedau ar gyfer y Gronfa gyfan (yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu) yn y datgeliadau.

Gall Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa fuddsoddi cyfran fach o fuddsoddiadau'r Gronfa yn asedau rhai o'r cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa os yw'n rhan o'u strategaeth fuddsoddi gytbwys.

## Risgiau sy'n gysylltiedig â'r Gronfa mewn perthynas â chyfrifyddu

### Anwadalrwydd Asedau

Caiff y rhwymedigaethau a ddefnyddir at ddibenion cyfrifyddu eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt a bennwyd gan gyfeirio at arenillion bondiau corfforaethol. Os yw asedau'n tanberfformio, bydd hyn yn arwain at ddiffyg yn y cyfrifon. Mae gan y Gronfa gyfran sylweddol o asedau twf sydd, er y disgwylir iddynt berfformio'n well na bondiau corfforaethol yn y tymor hir, yn creu anwadalrwydd a risg yn y tymor byr mewn perthynas â'r ffigurau cyfrifyddu.

### Newidiadau mewn Arenillion Bondiau

Bydd gostyngiad mewn cynnyrch bondiau corfforaethol yn cynyddu'r gwerth a roddir ar y rhwymedigaethau at ddibenion cyfrifyddu er y bydd hyn yn cael ei wrthbwyso fymryn gan y cynnydd yn yr asedau o ganlyniad (i'r graddau y mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn bondiau Corfforaethol).

### Risg Chwyddiant

Mae'r rhan fwyaf o'r rhwymedigaethau pensiwn yn gysylltiedig â naill ai chwyddiant cyflog neu chwyddiant prisiau. Bydd disgwyliadau chwyddiant uwch yn arwain at werth atebolrwydd uwch. Nid oes cysylltiad perffaith rhwng yr asedau chwyddiant sy'n golygu y bydd cynnydd mewn chwyddiant yn cynyddu'r diffyg.

### Disgwyliad Oes

Mae'r rhan fwyaf o rwymedigaethau'r Gronfa i ddarparu buddion ar gyfer oes yr aelod ar ôl ymddeol, felly bydd cynnydd mewn disgwyliad oes yn arwain at gynnydd yn y rhwymedigaethau.

### Cyflogwyr sy'n Ymadael

Gall fod rhaid i gyflogwyr sy'n gadael y Gronfa (neu eu gwarantwr) wneud taliad ymadael i dalu unrhyw ddiffyg mewn asedau yn erbyn eu rhwymedigaethau pensiwn. Os nad yw'r cyflogwr (neu'r gwarantwr) yn gallu talu'r taliad ymadael hwn, mewn rhai amgylchiadau, gall y rhwymedigaeth ddisgyn ar gyflogwyr eraill yn y Gronfa. Ymhellach, efallai na fydd yr asedau wrth ymadael mewn perthynas â 'rhwymedigaethau amddifad', wrth edrych yn ôl, yn ddigon i dalu'r rhwymedigaethau. Gall y risg hon ddisgyn ar gyflogwyr eraill. Ar hyn o bryd, mae 'rhwymedigaethau amddifad' yn gyfran fach o'r rhwymedigaethau cyffredinol yn y Gronfa.

## Nodiadau Eraill

### Dyfarniad McCloud

Canfu dyfarniad 'McCloud' yn y Llys Apêl fod y trefniadau amddiffyn trosiannol a gyflwynwyd pan ddiwygiwyd cynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân a'r barnwyr yn gwahaniaethu ar sail oedran. Ar 27 Mehefin 2019, gwrthododd y Goruchaf Lys ganiatâd i'r Llywodraeth apelio yn erbyn y dyfarniad hwn, ac ar 15 Gorffennaf 2019 cyhoeddodd y Llywodraeth ddatganiad gweinidogol yn dweud y byddent yn disgwyl digolledu aelodau ar draws holl gynlluniau'r sector cyhoeddus a oedd yn cynnwys trefniadau amddiffyn trosiannol (sy'n cynnwys y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol).

Cyhoeddodd Gweinidog Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) San Steffan (yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) erbyn hyn) ei ymgynghoriad McCloud ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (yng Nghymru a Lloegr) ar 16 Gorffennaf 2020, yn nodi newidiadau arfaethedig gyda'r nod o ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon yn y Cynllun. Yn dilyn diwedd yr ymgynghoriad, cadarnhaodd MCHLG (DLUHC erbyn hyn) mewn datganiad ysgrifenedig ar 13 Mai 2021 y byddent yn bwrw ymlaen â'r egwyddorion allweddol a nodwyd yn yr ymgynghoriad.

Rydym wedi caniatáu ar gyfer effaith dyfarniad McCloud yn y ffigurau hyn ac mae'r dull a ddefnyddir yn cyd-fynd yn agos â'r dull a gynigiwyd gan yr MCHLG (y DLUHC erbyn hyn) yn ei ymgynghoriad. Diweddarwyd atebolrwydd McCloud fel rhan o brisiad 2022 a'i ddiweddaru ar 31 Mawrth 2025 yn unol â'r dull a fabwysiadwyd ym mhrisiad 2022.

### Dyfarniad Goodwin

Ym mis Mehefin 2020 dyfarnodd Tribiwnlys Cyflogaeth, mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Athrawon, fod darpariaethau ar gyfer buddion goroeswr aelod benywaidd mewn priodas â rhywun o'r rhyw arall yn llai ffafriol nag ar gyfer menyw mewn priodas neu bartneriaeth sifil o'r un rhyw, a bod triniaeth yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Cyhoeddodd prif ysgrifennydd y Trysorlys mewn datganiad gweinidogol ysgrifenedig ar 20 Gorffennaf 2020 ei fod yn credu y byddai angen newidiadau i gynlluniau pensiwn eraill y gwasanaeth cyhoeddus gyda threfniadau tebyg. Nid yw'r newidiadau hyn wedi'u hadlewyrchu yn y rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol hyd yma, felly ni wnaed unrhyw lwfans yn y cyfrifiadau.

### Dyfarniad Virgin Media

Ym mis Mehefin 2023, gwnaeth yr Uchel Lys benderfyniad (Virgin Media Ltd v NTL Pension Trustees II Limited), a gadarnhawyd wedyn gan y Llys Apêl ym mis Gorffennaf 2024. Mae'n bosibl bod gan y dyfarniad oblygiadau i ddilysrwydd gwelliannau a wnaed gan gynlluniau pensiwn, gan gynnwys y Cynllun pensiwn Llywodraeth Leol, a gafodd eu contractio allan ar sail sy'n gysylltiedig â chyflog rhwng 6 Ebrill 1997 a diddymu contractio allan yn 2016. Roedd y dyfarniad yn ymwneud â'r gofyniad ar yr ymddiriedolwyr i gael cadarnhad actiwari'r cynllun bod y cynllun yn parhau i ddarparu lefel isafswm o fuddion (a elwir yn 'brawf cynllun cyfeirio') yn dilyn mathau penodol o welliannau i reolau. Heb y cadarnhad hwn (y cyfeirir ato weithiau fel cadarnhad adran 37, drwy gyfeirio at adran 37 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993, sy'n nodi mai dim ond fel y rhagnodir yn y rheoliadau perthnasol y gellir newid rheolau'r cynllun), gall y gwelliant fod yn ddi-rym ac yn aneffeithiol.

Adeg ysgrifennu hyn, nid yw'r llywodraeth wedi cadarnhau eto eu bod wedi gallu dod o hyd i'r

cadarnhad actiwaraidd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ar gyfer yr holl welliannau i'r Cynllun pensiwn Llywodraeth Leol rhwng 1997 a 2016.

Fodd bynnag, ar 6 Mehefin 2025, batodd yr Adran Gwaith a Pensiynau fod yn rhoi deddfwriaeth ar waith i roi'r gallu i gynlluniau pensiwn a effeithiwyd gan y newidiadau, i gael cadarnhad ysgrifenedig yn ôl-dyfodol bod newidiadau budd hanesyddol yn cwrdd â'r safonau angenrheidiol. Felly, ni fydd oblegiadau'r cynlluniau yn cael eu heffeithio ac felly ni wnaed unrhyw ganiatâd ar gyfer unrhyw ddyledion.

Amcangyfrifir bod cyfraniadau rheolaidd y Cyflogwr at y Gronfa ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2026 yn £2.04 miliwn. Dyddiad y prisiad actiwaraidd llawn diwethaf o fuddion a ariannwyd gan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Gofal Cymdeithasol Cymru oedd 31 Mawrth 2022 a hyd y rhwymedigaethau yw 19.5 mlynedd.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gorff sydd wedi'i dderbyn i'r Gronfa.

Yn ystod 2022-23 cynhaliwyd trafodaethau gyda'r gronfa bensiwn ynghylch ein statws fel aelod o'r cynllun. Cynhaliwyd adolygiad o broffil risg y sefydliad. Darparwyd llythyr o gysur i'r ymddiriedolwyr i gefnogi ein statws, sefyllfa a gefnogir gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Adlewyrchir hyn yn y cynnydd sylweddol yn y gyfradd ddisgownt a dybir fel yr adlewyrchir a gynhwysodd o 2.7% ar 31 Mawrth 2022 i 4.6% ar 31 Mawrth 2023.

| Rhagdybiaethau Allweddol | 31 Maw 2025 (% yf) | 31 Maw 2024 (% yf) | 31 Maw 2023 (% yf) |
|---|---|---|---|
| Cyfradd Disgownt | 5.8 | 4.7 | 4.6 |
| Chwyddiant CPI | 2.5 | 2.6 | 2.6 |
| Codiadau Pensiwn | 2.5 | 2.6 | 2.6 |
| Cyfradd ailbrisio cyfrifon pensiwn | 2.5 | 2.6 | 2.6 |
| Codiadau Cyflog | 3.8 | 3.9 | 3.9 |

Arweiniodd y newid mewn proffil risg at ostyngiad sylweddol yn ein cyfradd cyfraniad cyflogwr hefyd fel yr amlinellir isod:

| Blwyddyn Ariannol | Cyfradd Cyfraniad Cyflogwr |
|---|---|
| 2022-23 | 29.6% |
| 2023-24 | 26.5% |
| 2024-25 | 23.5% |
| 2025-26 | 20.4% |

### Tybiaeth Marwolaethau

Mae'r tybiaethau marwolaethau'n seiliedig ar brofiad marwolaeth gwirioneddol aelodau yn y Gronfa yn seiliedig ar ddadansoddiad a gynhaliwyd fel rhan o brisiad 2022 ac maen nhw'n caniatáu ar gyfer gwelliannau disgwyliedig i farwolaethau yn y dyfodol. Dangosir disgwyliad oes enghreifftiol yn 65 oed sy'n deillio o'r rhagdybiaethau marwolaethau hyn isod.

| Disgwyliad oes tybiedig yn 65 oed | 31 Mawrth 2025 | 31 Mawth 2024 |
|---|---|---|
| **Dynion** | | |
| Aelod-bensiynwr 65 oed ar y dyddiad cyfrifyddu | 20.9 | 21.0 |
| Aelod gweithredol 45 oed ar y dyddiad cyfrifyddu | 21.8 | 22.3 |
| **Menywod** | | |
| Aelod-bensiynwr 65 oed ar y dyddiad cyfrifyddu | 23.7 | 23.8 |
| Aelod gweithredol 45 oed ar y dyddiad cyfrifyddu | 24.8 | 25.2 |

| Dyraniad Asedau | Gwerth ar 31 Mawrth 2025 | | | Gwerth ar 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|---|
| | Wedi dyfynnu | Wedi dyfynnu | Cyfanswm | |
| Ecwitïau | 65.1% | 0.0% | 65.1% | 65.5% |
| Eiddo | 6.1% | 0.0% | 6.1% | 6.1% |
| Bondiau Llywodraeth | 10.9% | 0.0% | 10.9% | 11.5% |
| Bondiau Corfforaethol | 14.7% | 0.0% | 14.7% | 15.0% |
| Credyd Aml-Ased | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Arian parod | 0.5% | 0.0% | 0.5% | 0.7% |
| Arall | 2.7% | 0.0% | 2.7% | 1.2% |
| **Cyfanswm** | **100.0%** | **0.0%** | **100.0%** | **100.0%** |

| Cysoni Statws a Ariennir â'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | Gwerth ar 31 Mawrth 2025 (£M) | Gwerth ar 31 Mawrth 2024 (£M) |
|---|---|---|
| Gwerth teg Asedau | 45.65 | 40.75 |
| Gwerth presennol rhwymedigaeth buddion diffiniedig a ariennir | (25.08) | (26.88) |
| **Statws a Ariennir** | **20.57** | **13.87** |
| Ased nas cydnabyddir | (20.57) | (13.87) |
| Atebolrwydd ychwanegol oherwydd gofyniad cyllid lleiaf | (0.81) | (1.11) |
| **(Rhwymedigaeth)/Ased a gydnabyddir ar y SOFP** | **(0.81)** | **(1.11)** |

Roedd rhaniad y rhwymedigaethau ar y dyddiad prisio diwethaf rhwng y categorïau aelodau amrywiol fel a ganlyn:

- Aelodau Gweithredol 51%
- Pensiynwyr Gohiriedig 18%
- Pensiynwyr 31%

Mae paragraff 64 o IAS 19, fel y'i dehonglir gan IFRIC 14, yn cyfyngu ar swm yr ased pensiwn net (gwarged) y gellir ei gydnabod ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Felly, nid yw'r gwarged o £20.57m (2023-24: £13.87m) wedi'i gydnabod gan y tybir nad oes unrhyw fudd economaidd o ad-dalu gwarged gan fod Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu gwasanaeth statudol, felly mae'n annhebygol o allu gadael y Gronfa. Fodd bynnag, mae rhwymedigaeth ychwanegol o £0.81m (23-24: £1.11m) wedi'i gydnabod. Mae hyn yn unol ag IFRIC 14 oherwydd isafswm gofynion cyllido lle mae cyfraniadau diffyg cyflogwr yn cael eu gwneud.

| Symiau a gydnabyddir mewn Gwariant Net Cynhwysfawr | Gwerth ar 31 Mawrth 2025 (£M) | Gwerth ar 31 Mawrth 2024 (£M) |
|---|---|---|
| **Cost Gweithredu** | | |
| Cost gwasanaeth cyfredol [1] | 1.51 | 1.43 |
| Cost gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogi) | 0.00 | 0.00 |
| Cost setliad | 0.00 | 0.00 |
| | | |
| **Cost Ariannu** | | |
| Llog ar atebolrwydd buddion diffiniedig net/(ased) cyn cyfyngiad asedau | (0.71) | (0.49) |
| Llog ar ased heb ei gydnabod | 0.65 | 0.44 |
| Llog ar atebolrwydd ychwanegol oherwydd gofyniad cyllid lleiaf | 0.05 | 0.00 |
| **Cost pensiwn a gydnabyddir mewn Gwariant Net** | **1.50** | **1.38** |
| | | |
| **Ailfesuriadau mewn Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | |
| Enillion ar asedau'r cynllun (yn fwy na)/islaw'r hyn a gydnabyddir mewn llog net | 1.56 | (2.27) |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd oherwydd newid mewn tybiaethau ariannol | (6.62) | (0.57) |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd oherwydd newid mewn tybiaethau demograffig | (0.23) | (0.40) |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd oherwydd profiad atebolrwydd | 0.05 | 0.31 |
| Colledion/(enillion) addasiad oherwydd cyfyngiad ar warged | 6.05 | 3.81 |
| Colledion/(enillion) addasiad oherwydd gofyniad cyllid lleiaf | (0.35) | 1.11 |
| **Cyfanswm a gydnabyddir mewn Gwariant Cynhwysfawr Arall** | **0.46** | **1.99** |
| **Cyfanswm a gydnabyddir yn y Cyfanswm Gwariant Cynhwysfawr** | **1.96** | **3.37** |
| (1) Lwfans am dreuliau gweinyddol sydd wedi'u cynnwys yn y gost gwasanaeth gyfredol(£M) | 0.05 | 0.04 |

| Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig | Gwerth ar 31 Mawrth 2025 (£M) | Gwerth ar 31 Mawrth 2024 (£M) |
|---|---|---|
| **Rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar y dechrau** | **26.88** | **23.52** |
| Cost gwasanaeth cyfredol | 1.51 | 1.43 |
| Costau Llog ar Rwymedigaeth Buddion Diffiniedig | 1.31 | 1.12 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr | 0.67 | 0.59 |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd oherwydd newidiadau mewn tybiaethau ariannol | (6.62) | (0.57) |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd oherwydd newidiadau mewn tybiaethau demograffig | (0.23) | (0.40) |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd oherwydd profiad atebolrwydd | 0.05 | 0.31 |
| Budd-daliadau net a dalwyd | 1.51 | 0.88 |
| Cost gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogi) | 0.00 | 0.00 |
| Cynnydd net mewn rhwymedigaethau o warediadau/ caffaeliadau | 0.00 | 0.00 |
| Aneddiadau | 0.00 | 0.00 |
| **Rhwymedigaeth buddion diffiniedig terfynol** | **25.08** | **26.88** |

| Newidiadau i Werth Teg Asedau yn ystod y Flwyddyn | Gwerth ar 31 Mawrth 2025 (£M) | Gwerth ar 31 Mawrth 2024 (£M) |
|---|---|---|
| **Gwerth teg asedau ar y dechrau** | **40.75** | **33.14** |
| Incwm llog ar asedau | 2.02 | 1.61 |
| Ail-fesur enillion/(colledion) ar asedau | (1.56) | 2.27 |
| Cyfraniadau gan y Cyflogwr | 2.26 | 2.26 |
| Cyfraniadau gan y Cyfranogwyr | 0.67 | 0.59 |
| Budd-daliadau net a dalwyd | 1.51 | 0.88 |
| Cynnydd net mewn asedau o warediadau a chaffaeliadau | 0.00 | 0.00 |
| Setliadau | 0.00 | 0.00 |
| **Gwerth teg terfynol yr asedau** | **45.65** | **40.75** |

| Enillion Gwirioneddol ar Asedau | Gwerth ar 31 Mawrth 2025 (£M) | Gwerth ar 31 Mawrth 2024 (£M) |
|---|---|---|
| Incwm llog ar asedau | 2.02 | 1.61 |
| Ail-fesur enillion/(colledion) ar asedau | (1.56) | 2.27 |
| **Enillion gwirioneddol ar asedau** | **0.46** | **3.88** |

**Amcangyfrif o gostau pensiwn yn y dyfodol**

### Buddion a Ariennir

Rydym yn darparu amcangyfrif o'r costau i wariant cynhwysfawr ar ddarpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol, yn seiliedig ar y tybiaethau a amlinellir uchod.

| Dadansoddiad o'r swm a godir mewn gwariant cynhwysfawr arall ar ddarparu gwasanaethau y flwyddyn nesaf | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2026 (£M) |
|---|---|
| Cost gwasanaeth cyfredol | 0.87 |
| Llog ar rwymedigaeth buddion diffiniedig net | -0.01 |
| **Cyfanswm costau pensiwn amcangyfrifedig** | **0.86** |
| Lwfans ar gyfer treuliau gweinyddol sydd wedi'u cynnwys yn y Gost Gwasanaeth Cyfredol (£m) | 0.05 |
| Amcangyfrif o'r gyflogres bensiynadwy dros y cyfnod (£M) | 9.99 |

### Dadansoddiad o Sensitifrwydd

Mae effaith fras newid y prif dybiaethau ar werth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig a ariennir ar 31 Mawrth 2025 a'r gost gwasanaeth rhagamcanol ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026 i'w gweld isod.

Ym mhob achos, dim ond y dybiaeth a grybwyllir sydd wedi'i newid; mae'r holl dybiaethau eraill yn aros yr un fath â'r rhai a grynhoir uchod.

Nid ydym wedi cynnwys sensitifrwydd buddion nas ariannwyd (lle bo'n berthnasol) ar sail perthnasedd.

## Buddion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Ariennir

| **Rhagdybiaeth cyfradd ddisgowntio** Addasiad i’r gyfradd ddisgowntio | **+0.1% y.f.** | **Ffigur sylfaenol** | **-0.1% y.f.** |
|---|---|---|---|
| Gwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth (£M) | 24.60 | 25.08 | 25.58 |
| % y newid yng ngwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth | -1.9% | - | 2.0% |
| Rhagamcan o gost y gwasanaeth (£M) | 0.82 | 0.87 | 0.93 |
| Y newid mewn % yng nghostau a ragwelir i'r gwasanaeth | -6.2% | - | 6.4% |

| **Cyfradd y cynnydd cyffredinol mewn cyflogau** Addasiad i’r gyfradd cynnydd mewn cyflog | **+0.1% y.f.** | **Ffigur sylfaenol** | **-0.1% y.f.** |
|---|---|---|---|
| Gwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth (£M) | 25.13 | 25.08 | 25.03 |
| % y newid yng ngwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth | 0.2% | - | -0.2% |
| Rhagamcan o gost y gwasanaeth (£M) | 0.87 | 0.87 | 0.87 |
| Y newid mewn % yng nghostau a ragwelir i'r gwasanaeth | 0.0% | - | 0.0% |

| **Cyfradd y cynnydd mewn taliadau pensiwn a phensiynau wedi’u gohirio, a chyfradd ailbrisio’r rhagdybiaeth cyfrifon pensiwn** Addasiad i’r gyfradd cynnydd mewn pensiwn | **+0.1% y.f.** | **Ffigur sylfaenol** | **-0.1% y.f.** |
|---|---|---|---|
| Gwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth (£M) | 25.53 | 25.08 | 24.65 |
| % y newid yng ngwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth | 1.8% | - | -1.7% |
| Rhagamcan o gost y gwasanaeth (£M) | 0.93 | 0.87 | 0.82 |
| Y newid mewn % yng nghostau a ragwelir i'r gwasanaeth | 6.4% | - | -6.2% |

| **Tybiaeth marwolaethau ar ôl ymddeol*** Addasiad i’r rhagdybiaeth o ran cyfraddau oedran marwolaethau | **-1 flwyddyn** | **Ffigur sylfaenol** | **+1 flwyddyn** |
|---|---|---|---|
| Gwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth (£M) | 25.63 | 25.08 | 24.53 |
| % y newid yng ngwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth | 2.2% | - | -2.2% |
| Rhagamcan o gost y gwasanaeth (£M) | 0.91 | 0.87 | 0.83 |
| Y newid mewn % yng nghostau a ragwelir i'r gwasanaeth | 4.2% | - | -4.2% |

* Mae sgôr o +1 flwyddyn yn golygu y tybir bod aelodau’n dilyn patrwm marwolaethau’r tabl sylfaen ar gyfer unigolyn sydd flwyddyn yn hŷn na nhw.

## 17. Darpariaethau a Rhwymedigaethau Digwyddiadol a ddatgelwyd o dan IAS 37

Mae'n bosibl y bydd y cytundebau prydlesu ar ein swyddfa yng Nghaerdydd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw newidiadau, ychwanegiadau a rhaniadau gael eu tynnu ymaith pan ddaw'r brydles i ben. Ni wnaed unrhyw ddarpariaeth gan fod y rhwymedigaeth hon yn ansicr ac mae'n dibynnu ar y landlord yn gofyn am gael ei symud.

## 18. Ased Digwyddiadol

Ar 31 Mawrth 2025, roedd £33,000 o ffioedd cofrestru'n ddyledus. Ar sail y profiad hyd yma, dim ond ar ôl cysylltu â'r person cofrestredig y gallwn gadarnhau a yw heb dalu am ei fod wedi gadael y sector (ac na fyddwn yn ceisio cael y ffi ddyledus) neu a yw'n ddyled ddilys sy'n gysylltiedig ag unigolyn sy'n dal i fod yn gofrestredig.

Felly, ni chaiff y £33,000 sy'n ddyledus ei drin fel incwm yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr gan nad ydym yn siŵr o union werth economaidd y swm hwn oherwydd ar sail unigol, ni fyddwn yn gwybod a fydd yr incwm yn dod i law hyd nes y gwneir cyswllt ac y ceir ymateb gan y person cofrestredig.

## 19. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Yn ystod y flwyddyn mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cael amryw o drafodion perthnasol gyda Llywodraeth Cymru sy'n cael ei hystyried yn barti cysylltiedig. Roedd y trafodion a'r balansau fel a ganlyn:

| | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| Incwm | £29.03m | £28.81m |
| Gwariant | £1.11m | £0.56m |
| Balans Dyledwyr ar 31 Mawrth | £0.173m | £0.176m |
| Balans Credydwyr ar 31 Mawrth | £0.28m | - |

## Aelodau Bwrdd a Staff Gofal Cymdeithasol Cymru

Ni fu unrhyw weithwyr cyflogedig, gan gynnwys staff rheoli allweddol nac aelodau bwrdd na'u partïon cysylltiedig, yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystod y flwyddyn, ar wahân i hawliadau treuliau arferol, taliadau cyflog ac ati. Mae gwybodaeth am staff rheoli allweddol wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad ar Gyflogau.

Fodd bynnag, er mwyn bod yn dryloyw, rydym yn datgelu trafodion perthnasol gyda sefydliadau lle'r oedd uwch staff neu aelodau neu unrhyw un o'u teuluoedd yn dal swyddi o ddylanwad yn ystod y flwyddyn.

### Incwm

Daeth un o'n haelodau, Trystan Pritchard, yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol y Bartneriaeth Strategol, Ymgysylltu a Mewnwelediadau yn Addysg Iechyd a Gwella Cymru (AaGIC) o fis Hydref 2024, a ddarparodd gyllid grant o £419,379, mewn perthynas â gweithredu camau gweithredu ar y cyd, i gefnogi'r Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl. Yn ogystal, derbyniwyd £550 gan Llais lle mae Grace Quantock yn Is-gadeirydd.

## Gwariant

Roedd dau aelod o'n bwrdd yn aelodau o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a dderbyniodd gyllid grant gan Ofal Cymdeithasol Cymru, ar ffurf y Grant Hwyluso Rhanbarthol. Roedd aelodau ein bwrdd hefyd yn aelodau o Fyrddau Iechyd Lleol, ac fe wnaethom hefyd ddarparu cyllid iddynt.

Yn ogystal, roedd un o'n haelodau yn gydymaith o Practice Solutions, y gwnaethom gomisiynu gwaith gyda nhw yn 2024-25 ond nid oedd ganddynt unrhyw ran yn y gwaith a gomisiynwyd. Roedd yr aelod hefyd yn Brif Swyddog Gweithredol dros dro ar gyfer Voices for Care o 22 Ebrill 2024 ac yn Gadeirydd Plant yng Nghymru lle cawsom rai mân drafodion.

Mae un aelod newydd yn cael ei gyflogi fel Rheolwr Tîm yng Nghyngor Sir Conwy, yr ydym yn darparu Cyllid Cyfle Dysgu Ymarfer iddo.

Cafodd aelod newydd arall ei dalu fel darllenydd llawn amser ar y rhaglen Gradd Meistr Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd (tan ei ymddeoliad ar 31 Hydref 2024) ac yn arholwr allanol ar gyfer y rhaglen Gradd Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Abertawe. Fe wnaethom ddarparu Cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr mewn cynllun hyfforddiant gwaith cymdeithasol cyllid mewn perthynas â'r rhaglenni gwaith cymdeithasol i'r ddwy brifysgol yn 2024-25

Roedd y trafodion fel a ganlyn:

| Aelod o'r Bwrdd | Rôl | Sefydliad | Gwariant 2024-25 (£) | Gwariant 2023-24(£) |
|---|---|---|---|---|
| Mick Giannasi | Aelod | Addysgu Powys Bwrdd Iechyd | 4,400 | 17,500 |
| Carl Cooper | Cadair | Addysgu Powys Bwrdd Iechyd | 4,400 | 17,500 |
| Carl Cooper | Cadair | Rhanbarthol Powys Bwrdd Partneriaeth | 52,900 | 52,900 |
| Abigail Harris | Aelod | Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro Bwrdd Partneriaeth | 174,696 | 94,844 |
| Abigail Harris | Cyfarwyddwr Gweithredol | Caerdydd a'r Fro Bwrdd Iechyd y Brifysgol | 3,384 | 24,268 |
| Abigail Harris | Prif swyddog gweithredol | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 15,500 | AMH |
| Trystan Pritchard | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Partneriaeth Strategol, Ymgysylltu a Mewnwelediadau | Addysg a Gwella Iechyd Cymru | 2,379 | AMH |
| Jane Moore | Cymdeithasu | Datrysiadau Ymarfer | AMH | 45,376 |
| Helen Mary Jones | Cymdeithasu | Datrysiadau Ymarfer | 2,100 | 45,376 |
| Helen Mary Jones | Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro | Lleisiau Gofal | 200 | AMH |
| Helen Mary Jones | Cadair | Plant yng Nghymru | 178 | AMH |
| Einir Hinson | Rheolwr Tîm | Cyngor Sir Conwy | 46,368 | AMH |
| Abyd Quinn Aziz | Darllenydd Llawn Amser | Prifysgol Caerdydd | 5,100 | AMH |
| Abyd Quinn Aziz | Arholwr Allanol | Prifysgol Abertawe | 11,886 | AMH |

Sylwch fod y taliadau yn y tabl uchod i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'u gwneud i'r awdurdod lleol enwebedig, Cyngor Bro Morgannwg (Caerdydd a'r Fro) a Chyngor Sir Powys (Powys) yn 2024-25.

Y trafodion gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw ail-wefru tâl Abigail Harris o £3,384 am chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol.

Roedd y trafodion gyda Chyngor Sir Conwy yn cynnwys £41,700 o daliadau Cyllid Cyfleoedd Dysgu Ymarfer.

Roedd y trafodion gyda Phrifysgol Caerdydd ac Abertawe yn cynnwys Cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr mewn cynllun hyfforddiant gwaith cymdeithasol cyllid o £5,000 a £9,493 yn y drefn honno.

## 20. Asedau Trydydd Parti

Nid oes gan Gofal Cymdeithasol Cymru unrhyw asedau trydydd parti y mae'n gweithredu fel ceidwad neu ymddiriedolwr ynddynt.

## 21. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd, y mae angen addasu datganiadau blynyddol 31 Mawrth 2025 ar eu cyfer.

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**